Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Castell-Nedd Port Talbot

Neath Port Talbot
Public Services Board

# Y Castell-nedd Port Talbot a Garem
# (Cynllun Lles 2018 – 2023)

# Cynnwys


Rhagair ... 3
Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot? ... 4
Beth yw Cynllun Lles? ... 5
Pam mae angen Cynllun Lles? ... 5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ... 6
Y Castell-nedd Port Talbot a Garem - Ein gweledigaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ... 10
Sut datblygwyd y cynllun hwn? ... 11
Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ... 13
Mesurau ... 14
Rheoli Adnoddau ... 14
Grwpiau Gwaith Amlasiantaeth ... 15
Ymgynghori ... 16
Ein hamcanion lles lleol ... 18
Amcan 1: Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant sydd mewn perygl o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ... 19
Amcan 2: Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn, gan ganolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn ... 31
Amcan 3: Rhoi mwy o fywyd yn ein blynyddoedd hŷn - Heneiddio'n Dda ... 40
Amcan 4: Hyrwyddo lles drwy waith ac yn y gweithle ... 58
Amcan 5: Gwerthfawrogi ein hisadeiledd gwyrdd a'r cyfraniad mae'n ei wneud at ein lles ... 74
Amcan 6: Mynd i'r afael ag eithrio digidol ... 86
Beth sy'n digwydd nesaf? ... 94
Cysylltu â ni ... 95
Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ... 96
Datganiad Lles ... 123
Ymateb i Gyngor y Comisiynydd ... 127

## Rhagair

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru i annog sefydliadau lleol i gydweithio er mwyn gwella lles pobl sy'n byw yn eu hardal.

Mae wedi bod yn anrhydedd i mi fod yn Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ers mis Mai 2017. Rwy'n gwybod bod ymrwymiad llwyr gan holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gydweithio er mwyn creu Castell-nedd Port Talbot lle bydd gan bobl y cyfle gorau i ddatblygu mewn bywyd.

Mae'r cynllun yn disgrifio'r blaenoriaethau cychwynnol yr ydym am ganolbwyntio arnynt. Credwn fod y gwaith rydym yn bwriadu ei wneud i gefnogi'r blaenoriaethau yn mynd i wneud byd o wahaniaeth yn y meysydd sydd o'r pwys mwyaf. Mae'r adborth rydym wedi'i dderbyn gan ein cymunedau'n cefnogi hyn. Er ein bod wedi nodi ein cyfres nesaf o gamau gweithredu rydym yn bwriadu eu datblygu, rhaid gwneud mwy o waith i ddangos sut byddwn yn gwneud gwahaniaeth tymor hir i fywydau pobl sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot. Byddwn yn adrodd am sut rydym yn datblygu gyda'n gwaith tymor hwy yn ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2019 fan bellaf.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'n cynllun hwn. Yn ystod 2018-2019, byddwn yn dechrau rhoi ein syniadau ar waith, gan geisio ffyrdd newydd o gynnwys pobl yn ein gwaith o adeiladu'r Castell-nedd Port Talbot a garem.

**Y Cynghorydd R G Jones**

**Arweinydd y Cyngor**

**Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot?**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn dod ag arweinwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ynghyd o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol. Diben y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot.
Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot ym mis Mai 2016. Fel a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r bwrdd yn cynnwys aelodau statudol a "chyfranogwyr gwadd". Dyma gyfranogwyr statudol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyma gyfranogwyr gwadd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot:

- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT
- Heddlu De Cymru
- Tai Tarian
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Grŵp Colegau CNPT
- Cyngor Iechyd Cymuned
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Llywodraeth Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Prifysgol Abertawe

**Beth yw Cynllun Lles?**

Mae'r Cynllun Lles yn nodi gweledigaeth tymor hir y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer yr ardal ynghyd â blaenoriaethau gweithredu dros y 5 mlynedd nesaf. Caiff y cynllun ei lunio'n seiliedig ar set eang o ddata a thystiolaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn yr Asesiad Lles ym mis Mai 2017. Mae'n ystyried yr hyn sy'n dda am Gastell-nedd Port Talbot; yr heriau sy'n wynebu'r ardal yn awr ac yn y tymor hir; a ble, thrwy gydweithio (ond mewn ffordd wahanol) mae cyfle arwyddocaol i gyflwyno gwelliannau i les pobl leol.

Mae'r cynllun yn cynnwys yr amcanion lles cychwynnol a nodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hefyd yn disgrifio'r camau ymarferol y bydd y bwrdd yn eu cymryd i gyflwyno'r amcanion ac yn nodi'r mathau o fesurau cenedlaethol a lleol y gellid eu defnyddio i helpu'r bwrdd i ddangos cynnydd.

**Pam mae angen Cynllun Lles?**

Mae Castell-nedd Port Talbot yn wynebu heriau mawr, megis:

- sut rydym yn ymateb i anghenion ein poblogaeth sy'n heneiddio fel y gall pobl fwynhau henaint hapus;
- sut gallwn barhau i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ardderchog gyda thoriadau digynsail parhaus i wariant cyhoeddus;
- sut gallwn leihau'r bwlch rhwng y lleiaf a'r mwyaf amddifad yn y fwrdeistref, yn arbennig ein plant a'n pobl ifanc fel bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd;
- sut rydym yn helpu cymunedau i fod yn hunangynhaliol ac adeiladu hinsawdd lle bydd pobl yn gofalu am ei gilydd;
- sut rydym yn cydbwyso disgwyliadau newidiol cenhedlaeth sy'n galw am wasanaethau drwy dechnolegau newydd, wrth sicrhau nad yw'r rhai sy'n cael eu heithrio'n ddigidol ar hyn o bryd yn cael eu gadael ar ôl; a
- sut rydym yn sicrhau ein bod yn diogelu ac yn gwella ein hamgylchedd lleol fel y gellir ei werthfawrogi am genedlaethau i ddod.

Ond er bod gennym lawer o heriau, mae gennym lawer i fod yn falch ohono:

- Mae ein coetiroedd, ein hardaloedd arfordirol, cymunedau'r cymoedd, parciau ac asedau naturiol eraill yn darparu cyfleoedd arwyddocaol i wella a chefnogi iechyd a lles;
- Mae gennym lu o bobl sydd wedi gwneud cyfraniadau rhyngwladol i'r celfyddydau a diwylliant ac yn parhau i wneud hynny;
- Cafwyd buddsoddiad diweddar yn yr ardal gan ddiwydiannau newydd a Phrifysgol Abertawe;
- Mae pobl yn byw am hwy ac mae'r ardal yn parhau i fod yn lle diogel i fyw ynddo;
- Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol o safon dda; ac
- Mae'r Gymraeg yn parhau i ffynnu mewn nifer o ardaloedd ar draws y fwrdeistref sirol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Datblygwyd y Cynllun Lles hwn i fodloni'r dyletswyddau statudol a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, Gwasanaethau Tân ac Achub, Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yw hanfod y Ddeddf. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu **animeiddiad byr** sy'n gyflwyniad defnyddiol iawn i ystyr a bwriad y Ddeddf.

Er mwyn cyflawni'r gwelliannau mewn lles a ddisgrifir uchod, mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant a ddatblygwyd yn dilyn sgwrs genedlaethol helaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r nodau'n adlewyrchu'r hyn a nodwyd gan lawer o bobl eu bod am ei gyflawni ar gyfer eu plant a'u hwyrion.




**Cymru lewyrchus:** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a grëir drwy sicrhau swyddi da.

**Cymru gydnerth:** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

**Cymru iachach:** Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl cystal â phosib a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.


**Cymru sy'n fwy cyfartal**: Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).


**Cymru o gymunedau cydlynus:** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang) a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Mae'r Ddeddf yn rhoi 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ar waith sy'n golygu bod yn rhaid i bob un o'r 44 corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae 5 peth y mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus hynny feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy:






Mae dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (a sefydlwyd gan yr un Ddeddf) i lunio a hyrwyddo cynllun lles ar gyfer ardal eu hawdurdod lleol sy'n disgrifio sut bydd y bwrdd yn mwyafu ei gyfraniad i'r saith nod llesiant a bennwyd gan Weinidogion Cymru.

## Y Castell-nedd Port Talbot a Garem - Ein gweledigaeth ar gyfer Castell-nedd Port Talbot

Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle bywiog ac iach lle mae gan bobl gyfle cyfartal i ddatblygu yn eu bywydau - rhywle y mae pobl am fyw, dysgu a buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef am genedlaethau i ddod.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, sy'n cynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol ac yn werth da am arian, yn hawdd i bobl eu defnyddio a chynnig cyflogaeth o safon lle caiff pobl eu gwerthfawrogi am y gwaith maent yn ei wneud. Gyda dinasyddion, byddwn yn adeiladu ar ein cymunedau cryf a chydlynol lle caiff hawliau pawb eu parchu a'u diogelu.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn wydn a bydd yn arferol i ddinasyddion brofi gwasanaethau llyfn, wedi'u personoli ac o safon. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi a fydd yn galluogi i'r fwrdeistref sirol ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon i bobl leol.

Bydd ein cymunedau wedi'u cysylltu'n dda trwy isadeiledd digidol a chludiant o'r radd flaenaf a chaiff ein hamgylchedd naturiol ei warchod a hefyd ei ddatblygu i gefnogi byw iach a buddsoddi.

Byddwn wedi cyflawni ein gweledigaeth os bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; os bydd gan yr holl bobl ifanc ac oedolion y sgiliau a'r gwydnwch i fod yn iach ac yn ffyniannus; os bydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; os bydd ein holl gymunedau'n ffynnu ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt ac yn fannau lle gall pobl dderbyn cymorth gan gymdogion neu rwydweithiau cymdeithasol sydd wedi'u datblygu'n dda.

**Sut datblygwyd y cynllun hwn?**

Y darn cyntaf o waith a wnaed gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (y bwrdd) oedd llunio a chyhoeddi Asesiad o Les Lleol. Mae'r asesiad hwn yn asesiad o gyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot, ac fe'i cyhoeddwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 2 Mai 2017 (ar gael **yma**).

Cyfeiriwyd yr asesiad gan arolygon a gwaith ymgynghori helaeth â phreswylwyr a rhanddeiliaid, a thrwy ystyried gwybodaeth berthnasol megis data, tystiolaeth ac ymchwil bresennol.

Mae'r asesiad cyhoeddedig yn nodi cryfderau ac asedau pobl a chymunedau Castell-nedd Port Talbot, ac yn disgrifio'r heriau a'r cyfleoedd y mae Castell-nedd Port Talbot yn eu hwynebu yn awr ac yn y dyfodol.

Yr ail ddarn o waith sy'n ofynnol gan y Ddeddf yw paratoi a chyhoeddi'r Cynllun Lles. Rhaid i'r cynllun nodi sut rydym yn bwriadu gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot drwy bennu amcanion lles lleol a fydd yn mwyafu ein cyfraniad i gyflawni'r saith nod llesiant a nodwyd yn gynharach.

Nododd yr Asesiad Lles 75 mater i'r Bwrdd eu hystyried wrth ddatblygu ei amcanion lles i'w cynnwys yn y cynllun hwn. Mewn gweithdy ym mis Mehefin 2017, cynhaliwyd cyfres o ymarferion blaenoriaethu a nodwyd y themâu allweddol:

- Iechyd corfforol - gweithgarwch corfforol, disgwyliad oes a chyflyrau iechyd cronig;
- Iechyd meddwl ac emosiynol - afiechyd meddwl, profedigaeth a hunanladdiad;
- Troseddau a diogelwch cymunedol - troseddau a gofnodwyd, seibr-droseddau a throseddau cyffuriau;
- Cyflogaeth - cynaladwyedd cyflogwyr ar raddfa fawr, anghydraddoldeb mewn enillion a thoriadau i wariant cyhoeddus;
- Tlodi - diwygio lles, aelwydydd â phlant dibynnol heb oedolion mewn cyflogaeth;
- Cludiant - mynediad gwael i wasanaethau a chyflogaeth o gymunedau ein cymoedd;
- Yr amgylchedd ffisegol - ansawdd aer gwael, perygl llifogydd a dirywiad mewn bioamrywiaeth;

- Gwasanaethau a chyfleusterau - diffyg gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sefydlog mewn cymunedau gwledig;

Ar ôl datblygu'r themâu hyn, cyflwynwyd cyfres o brofion gan y Bwrdd i nodi materion a fyddai'n elwa o weithredu ar y cyd:

- A yw'r mater yn effeithio ar y boblogaeth gyfan neu grwpiau penodol yn y boblogaeth?
- A yw'r mater hwn yn fwy perthnasol i Gastell-nedd Port Talbot na rhywle arall?
- A yw'r mater eisoes yn cael ei drafod?
- Pa mor addas yw'r mater i effaith gyfunol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus?

Nododd yr ymarfer chwe chyfle gwahanol i aelodau'r Bwrdd gydweithio, lle ystyriwyd bod cyfle i gael effaith gadarnhaol ar gyflwr lles yng Nghastell-nedd Port Talbot:

i. Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant mewn perygl o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod;
ii. Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn, gan ganolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn;
iii. Annog heneiddio'n dda;
iv. Hyrwyddo lles drwy waith ac yn y gweithle;
v. Gwerthfawrogi ein hisadeiledd gwyrdd a'i gyfraniad i'n lles; a
vi. Mynd i'r afael ag eithrio digidol.

Cytunodd y Bwrdd y byddai swyddogion arweiniol yn datblygu'r meysydd hyn i fod yn amcanion lles a diffinio camau ymarferol i gyflwyno'r amcanion hyn. I ddechrau, ymgymerodd pob swyddog arweiniol ag ymarfer 'Dadansoddiad o Ymatebion'. Gan ddefnyddio templed safonol, ymgymerwyd â gwaith i sefydlu'r canlynol: beth yw'r sefyllfa bresennol, beth gellid ei wneud, pa wahaniaeth y byddai hyn yn ei wneud a pha gyfraniad y byddai gweithio ar yr amcan hwn yn ei wneud i les pobl yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 2 Awst 2017, rhoddwyd ystyriaeth i bob dadansoddiad o ymatebion. Cytunwyd y byddai pedwar o'r amcanion yn cael eu datblygu ymhellach fel rhaglenni gwaith penodol. Byddai'r pumed a'r chweched

amcan - Isadeiledd gwyrdd a mynd i'r afael ag eithrio digidol - hefyd yn cael eu datblygu ond fel rhaglenni trawsbynciol, gan eu bod yn ategu ac yn cefnogi amcanion lles eraill e.e. drwy annog ffyrdd o fyw iachach ac actif - mae mannau gwyrdd a glas yn gwneud cyfraniad pwysig i wella lles corfforol a meddyliol unigolion, cefnogi gwydnwch personol ac emosiynol. Drwy fynd i'r afael ag eithrio digidol, mae mwy o bobl yn gallu manteisio ar ddefnyddio'r rhyngrwyd - arbedion cost; mwy o ddewis; mynediad i wybodaeth/ddysgu newydd; mynediad gwell i rai gwasanaethau cyhoeddus.

**Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, gofynnodd y Bwrdd am gyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (rôl newydd a sefydlwyd gan y Ddeddf) ar sut y gellir cymryd camau i fodloni'r amcanion lles drafft a nodwyd.

Ar ddechrau mis Hydref 2017, derbyniodd y Bwrdd lythyr cyngor cynhwysfawr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a oedd yn nodi sut gallai'r Bwrdd ddefnyddio'r pum ffordd o weithio'n effeithiol i herio busnes fel arfer a mwyafu'r cyfraniad y mae'n ei wneud i'r saith nod llesiant cenedlaethol (Atodiad A). Yn ogystal, rhoddodd y Comisiynydd ysgogiadau i'r adnoddau a'r cysylltiadau perthnasol y gellid eu defnyddio i gefnogi gwaith parhaus y Bwrdd.

Derbyniwyd cyngor y Comisiynydd ar adeg lle'r oedd y cynllun ar ffurf ddrafft gynnar iawn. Dosbarthwyd y cyngor i'r holl swyddogion arweiniol sy'n gyfrifol am ddatblygu amcanion lles unigol y Bwrdd fel y gallent ystyried y cyngor drwy gydol y broses gynllunio.

Cafwyd nifer o newidiadau i'r cynllun o ganlyniad i gyngor y Comisiynydd (gweler Atodiad C). Serch hynny, byddwn yn dychwelyd at gyngor y Comisiynydd wrth i ni symud ymlaen i herio ein hunain am y ffordd rydym yn ymateb i'r dyletswyddau newydd a roddwyd i ni gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth aros am gyngor gan y Comisiynydd, bu'r swyddogion arweiniol yn mireinio eu rhaglenni gwaith arfaethedig ymhellach, gan ymgymryd â gwaith cynnwys pellach gyda rhanddeiliaid amrywiol a chynnal mwy o ymchwil fanwl a oedd yn berthnasol i'w meysydd pwnc:

Enghreifftiau o'r hyn rydym wedi bod yn gweithio arno a'r hyn y byddwn yn parhau i'w ystyried:

- mapio materion ac asedau yn y gymuned;
- mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau er mwyn nodi asedau ac adnoddau lleol a phersonol, adeiladu arnynt a'u defnyddio;
- sicrhau bod protocolau rhannu data digonol ar waith i hwyluso rhannu data perthnasol rhwng asiantaethau mewn modd amserol a diogel; a
- nodi gwybodaeth a phrofiad lleol i greu grwpiau a rhwydweithiau cefnogol i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cynnwys y gymuned mewn modd ystyrlon.

## Mesurau


Gwaith sy'n mynd rhagddo yw'r cynllun hwn a bydd yn parhau i fod felly. Er ein bod wedi nodi'r camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd yn y tymor byr, mae mwy o waith i'w wneud cyn ein bod yn glir ynghylch ble rydym yn disgwyl gwneud y gwahaniaeth mwyaf dros y tymor byr, canolig a hir.

O ganlyniad, nid ydym eto'n gallu disgrifio'r mesurau y byddwn yn eu rhoi ar waith i ddangos y gwahaniaeth rydym yn ei wneud. Caiff y rhain eu datblygu dros y 12 mis nesaf a'u nodi yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf. Yn y cyfamser, rydym wedi rhoi rhyw arwydd o'r mathau o fesurau a allai ein helpu i fesur cynnydd.

## Rheoli Adnoddau

Nid oedd y dyletswyddau newydd a gyflwynwyd gan y Ddeddf yn dod ag adnoddau ariannol ychwanegol. Felly, os ydym i weithio mewn ffordd wahanol a dod â gwelliant sylweddol i les pobl leol, bydd angen i ni ystyried sut rydym yn ailgyfeirio adnoddau ariannol presennol (a hynny mewn hinsawdd o fesurau cyni parhaus). Mae'r Bwrdd yn glir y bydd angen sicrhau cefnogaeth Byrddau Gweithredol pob sefydliad partner i gytuno ar y dull gweithredu hwn ac mae'n ymroddedig i sicrhau bod deialog ddwyffordd rhwng y bwrdd a sefydliadau partner i sicrhau bod cytundeb ar y cyd ynghylch yr hyn y mae angen ei newid er mwyn gwneud y newidiadau rydym am eu cyflawni.

## Grwpiau Gwaith Amlasiantaeth



**Ymgynghori**

Mae'r Ddeddf yn galw ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar ei Gynllun Lles drafft am o leiaf 12 wythnos. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2017, cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fabwysiadu ymagwedd ddwy haen at yr ymgynghoriad:

**Haen 1:** drwy ddefnyddio'r **Cynllun Cynnwys Dinasyddion**, byddwn yn dylunio ymgynghoriad cyhoeddus cyffredinol i roi cyfle i amrywiaeth eang o'r cyhoedd a chyrff â diddordeb gyflwyno sylwadau ar y weledigaeth ddrafft a'r blaenoriaethau drafft a nodwyd gan y BGC. Datblygwyd a lledaenwyd prif negeseuon yr ymgynghoriad hwn drwy rwydweithiau presennol partneriaid gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau (e.e. holiadur ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, holiaduron papur a digwyddiadau cynnwys y gymuned). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 9 Tachwedd 2017 ac 1 Chwefror 2018.

**Haen 2:** gan ddefnyddio'r Cynllun Cynnwys Dinasyddion, cynhaliwyd gweithgareddau ymgynghori/cynnwys gan y swyddogion arweiniol ar eu gweithgareddau gwaith penodol. Drwy hyn, galluogwyd swyddogion i nodi'r bobl a allai fod yn rhan o ddatblygu a chyflwyno'r prosiectau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Canlyniad yr ymgynghoriad:**

Haen 1 - Derbyniwyd cyfanswm o 144 o ymatebion (128 drwy holiadur ac 16 ymateb ysgrifenedig). Gallwch ddod o hyd i grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yma: **www.nptpsb.org.uk**

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r blaenoriaethau a ddewiswyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac roeddent yn cytuno â gweledigaeth y Bwrdd. Serch hynny, nododd llawer o ymatebwyr fod angen i'r cynllun terfynol gynnwys mwy o fanylion. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu'r blaenoriaethau drafft â'r asesiad lles, gan gysylltu'r blaenoriaethau arfaethedig yn glir â saith nod llesiant Llywodraeth Cymru a nodi manylion mwy penodol ar y camau gweithredu i'w cymryd er mwyn cyflawni pob un o'r blaenoriaethau hyn. Cafwyd rhai blaenoriaethau ychwanegol a gynigiwyd gan ymatebwyr, ond nid oedd y rhain yn adlewyrchu canfyddiadau'r asesiad lles.

Nid oedd nifer o'r ymatebion ysgrifenedig yn mynegi sylw'n benodol ar yr amcanion na'r weledigaeth ddrafft ond rhoddwyd cyngor ar sut gallai eu sefydliadau perthnasol helpu i gyflwyno'r cynllun. Rhoddodd ymatebwyr eraill adborth ar flaenoriaethau drafft penodol a rhoddwyd copïau o'r rhain i'r swyddogion arweiniol eu hystyried wrth ddatblygu manylion pob un o'u ffrydiau gwaith.

Bydd mwy o fanylion am ganlyniad gwaith ymgynghori Haen 2 yn cael eu cynnwys dan bob amcan ar y dudalen ganlynol.

## Ein hamcanion lles lleol

Mae'r bennod hon yn darparu mwy o fanylion ynghylch pob un o'r amcanion lles rydym ni (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot) wedi nodi y byddwn yn ei ddilyn i wella lles pobl sy'n byw yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

Ar gyfer pob un o'r amcanion drafft, rydym wedi nodi:


- pam rydym yn credu bod pob amcan yn bwysig gan ystyried y dadansoddiad o les yn Asesiad Lles Castell-nedd Port Talbot, a'r trafodaethau a'r gwaith a wnaed yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gweithgorau amlasiantaeth; a thrwy ein gweithgareddau cynnwys ac ymgynghori;
- y camau rydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion, y sawl sy'n gyfrifol am ymgymryd â'r camau hynny, a'r cyfnodau amser disgwyliedig ar gyfer cyflawni'r amcanion***;**
- sut mae'r camau uchod wedi'u datblygu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth ddrafftio'r cynllun hwn, ceisiwyd cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar sut mae'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; a
- sut bydd yr amcanion drafft yn cyfrannu at gyflawni 7 nod llesiant Llywodraeth Cymru

*Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod ffocws tymor byr-canolig y camau a nodwyd i fodloni'r amcanion. Pan fyddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf, byddwn yn darparu mwy o fanylion am y gwaith y byddwn yn ceisio ei ddatblygu yn y tymor byr, canolig a hir.

**Amcan 1: Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant sydd mewn perygl o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod**

| Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol | Y cyfraniad a wneir gan yr amcan hwn at bob nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. |
| **Cymru gydnerth** | Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau. |
| **Cymru iachach** | Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn dysgu mewn amgylcheddau diogel a llawn lle rhoddir parch ac ystyriaeth i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddeall gwerth perthyn i gymuned a sut gall cymunedau gefnogi ei gilydd i ffynnu. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddysgu, gwerthfawrogi a deall eu bywydau, eu hanes a'u treftadaeth yn Gymraeg. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i fod yn ddinasyddion moesegol a hysbys yng Nghymru a'r byd. |

## Yr hyn a ddysgwyd o'r Asesiad Lles




- Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae 30% o blant yn byw mewn tlodi, sy'n fwy na chyfartaledd Cymru, sef 26%;
- Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot yw 135 fesul 10,000 o blant dan 18 oed. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol o 88 fesul 10,000 yn 2006;
- Mae cyfraddau brechiadau mewn plentyndod yn CNPT yn uwch na'r 95% a argymhellir ar gyfer rhoi pob brechiad i fabanod dan un oed. Fodd bynnag, erbyn iddynt gyrraedd 4 oed, dim ond 85.4% o blant oedd yn dilyn yr amserlen frechiadau yn 2015/16. Mae hyn yn rhoi iechyd plant y presennol a'r dyfodol mewn perygl;
- Yn 2016, roedd Cyfnod Sylfaen Castell-nedd Port Talbot yn yr 22ain safle o'r 22 o awdurdodau yng Nghymru o ran datblygiad mathemategol, datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol; ac
- Mae CNPT yn parhau i fod ag un o'r cyfraddau uchaf o waharddiadau parhaol yng Nghymru.

## Os na fydd dim yn newid:

- Bydd canfyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol (cymdogion swnllyd, sbwriel, fandaliaeth, graffiti, delio cyffuriau etc) yn parhau i gynyddu;
- Rhagwelir y bydd nifer y plant sy'n byw mewn tlodi'n cynyddu; a
- Rhagwelir y bydd nifer y plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad heriol yn cynyddu 28.6% erbyn 2030.

**Pam mae'r amcan lles hwn yn bwysig?**

Mae'n amlwg nad yw pob plentyn yn cael dechrau cyfartal mewn bywyd ac mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) yn effeithio'n andwyol ar nifer ohonynt. Yn aml, daw'r plant hyn i gysylltiad â'r Adran Addysg, y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Gwirfoddol yn ystod eu plentyndod a thu hwnt, wrth i anawsterau a heriau gael effaith negyddol ar eu lles meddyliol a chorfforol, ac fel arfer mae'n arwain at ymddygiad heriol a pheryglus. O ganlyniad, mae gwasanaethau'n dechrau cael anhawster ateb y galwadau cynyddol gymhleth a achosir gan y plant diamddiffyn hyn.

Mae ymyrryd yn gynharach ym mywydau'r plant hyn wedi bod yn uchelgais gan ddarparwyr gwasanaethau am lawer o flynyddoedd. Mae gorchymyn economaidd i'r ymagwedd hon yn ogystal ag un moesegol. Mae'r Gwasanaethau Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r Heddlu'n cael anhawster rheoli swm a chymhlethdod y galw sy'n codi o ddulliau magu plant annigonol, camdriniaeth mewn teuluoedd, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl a cham-drin domestig.

Dengys yr Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod fod dioddef **pedwar** neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn cynyddu'r perygl o natur ddiamddiffyn ac mae'n niweidio sawl agwedd ar fywydau plant. Datgelodd data fod 14% o oedolion yng Nghymru wedi profi **pedwar** neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod eu Plentyndod, gan beri iddynt fod **bedair** gwaith yn fwy tebygol o gael problemau alcohol, **chwe** gwaith yn fwy tebygol o smygu ac **14** gwaith yn fwy tebygol o ymwneud â thrais yn y flwyddyn ddiwethaf. Amlygodd yr adroddiad fuddion tymor byr, canolig a hir atal ac ymyrryd yn gynnar i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan ddangos bod y fethodoleg hon hefyd yn fwy cost effeithiol wrth i lai o achosion ddatblygu i gyflyrau dwys a chronig.

Drwy gamau gweithredu integredig mwy effeithiol gan asiantaethau, gallwn atal camdriniaeth, esgeulustod a phrofiadau niweidiol eraill y mae plant yn eu hwynebu, a thorri'r cysylltiad rhwng iechyd meddwl a chorfforol gwael, clefydau cronig, cyflawniad addysgol is a llai o lwyddiant economaidd mewn oedolaeth.

Mae adroddiad Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod (ACE) Cymru yn cyfeirio at arolygon a data ymchwil yng Nghymru sy'n cysylltu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ag iechyd gwael, cyflawniad addysgol isel ac ymddygiad troseddol.

Bydd gan yr holl wasanaethau wybodaeth am deuluoedd a phobl sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â'u darpariaeth a'u cefnogaeth a bydd ganddynt hefyd lefel sylweddol o ddata ynghylch cyfradd defnydd gwasanaeth mewn meysydd amrywiol. Y perygl yma yw wrth i'r gwasanaeth ddod i ben o ganlyniad i niferoedd, yn rhy aml bydd yr unigolion ag anghenion go iawn yn cwympo rhwng "trothwyau" ac asiantaethau.

Mae llawer o'n gwasanaethau a'n hadnoddau presennol yn canolbwyntio ar anghenion cronig tymor hir. Mae'r model negyddol hwn sy'n seiliedig ar risg yn methu elwa ar fuddion ymyriadau isel, rhatach, helaeth o ran achosion sylfaenol yr anghenion cronig. Mae sawl ardal ledled Cymru wedi dechrau strwythuro timau integredig amlasiantaeth cymunedol i flaenoriaethu ymyriadau lefel isel o'r fath a gwreiddio'r athroniaeth hon ar gam cynnar wrth gyflwyno gwasanaethau. Cydnabyddir y dylai'r holl sefydliadau, asiantaethau, y trydydd sector a'r sector preifat fod yn rhan o hyn er mwyn darparu ateb integredig cwbl gynaliadwy.

Mae'r rhan fwyaf o asiantaethau'n arfer model rheoli sy'n seiliedig ar risg, sy'n canolbwyntio ar roi triniaeth ddwys i unigolion mewn cymdeithas ar gyfer symptomau anghenion dwys a chronig megis iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, esgeuluso plant a phroblemau ymddygiad sy'n arwain at wahardd o'r ysgol. Mae'r modelau cyfredol hyn fel arfer yn mynd i'r afael â symptomau yn hytrach nag achosion, a cheir diffyg integreiddio'r holl asiantaethau'n ddwfn i ddarparu ymyriadau lefel isel ag adnoddau sy'n canolbwyntio ar atal.

Fodd bynnag, bydd yr ymyriad cynnar hwn drwy lens wedi'i gyfeirio gan 'ACE' yn golygu y bydd angen atebion cynaliadwy, integredig, tymor hir sy'n canolbwyntio'n llawn ar ymyriad. Bydd hyn yn dod â gwasanaethau ynghyd i nodi a chyflwyno ffactorau "amddiffynnol" sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel y gall teuluoedd ac unigolion gyfrannu at ffyniant a lles Castell-nedd Port Talbot yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus drud o genhedlaeth i genhedlaeth. Bydd hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddiffinio ac arfer cydweithio effeithiol ac effeithlon, gan rannu'r un gwerthoedd a gweledigaeth a thargedu canlyniadau cyffredin y cytunwyd arnynt.

Byddai cymuned beilot i blant fel a nodir yn ddiweddarach yn yr adran hon yn galluogi gwasanaethau allweddol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n targedu cymunedau unigol yn seiliedig ar asesiad lles manwl, wedi'i

danategu gan ddata a mapio asedau. Mae ward etholiadol Gorllewin Sandfields yn ardal beilot berffaith oherwydd y rhesymau canlynol:

- Mae'n elwa o arweinyddiaeth a gweithgareddau cymunedol da;
- Mae ysgolion lleol yn cynnwys sefydliadau cadarn ac effeithiol;
- Mae ganddo amrywiaeth o heriau a rhwystrau sy'n ymwneud ag amddifadedd; ac
- Mae'n ddaearyddol gryno ac mae'n cynnig proffil cymunedol perthnasol i'n galluogi i dreialu ffyrdd newydd o weithio y gellir eu haddasu a'u defnyddio ar draws weddill y fwrdeistref sirol.

Ar ôl ymweliad diweddar â Chymuned i Blant Pembury yn Hackney, canol Llundain, rydym wedi dysgu o arfer da presennol lle mae arweinwyr cymunedol yn ceisio galluogi pobl ifanc i gael y gorau o'u bywydau. Mae Pembury wedi datblygu gweledigaeth gymunedol a mynegi ymagwedd y cytunwyd arni sy'n amlinellu ei huchelgeisiau. Mae'r rhain yn cynnwys: sicrhau bod plant Pembury yn fwy parod ar gyfer yr ysgol; a bod plant a phobl ifanc Pembury mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac ar y ffordd i gyflawni eu huchelgeisiau. Maent wedi pennu 3 maes blaenoriaeth:

1. Cael pethau'n iawn yn gynnar;
2. Cefnogi pobl ifanc mewn ysgolion uwchradd a thu hwnt; a
3. Chefnogaeth i rieni.

Mae'r dysgu hwn eisoes wedi dylanwadu ar gyfeiriad a datblygiad yr amcan hwn ac mae wedi ein harwain i ganolbwyntio'n bennaf ar gael pethau'n iawn yn gynnar.

**Datblygiad yr amcan lles hwn**

Cynhaliwyd ymarfer ymgynghori cychwynnol gan "Grŵp Cyfranogiad" yn seiliedig ar y cwestiynau eang canlynol:

- Beth ydych chi'n ei hoffi am Sandfields?
- Beth nad ydych chi'n ei hoffi am Sandfields?

➢ I bwy fyddech chi'n gofyn am help, pe bai ei angen arnoch?

Gofynnwyd y cwestiynau hyn gan y Tîm Chwarae i ddisgyblion 4 ysgol gynradd yn Sandfields:

- Rhosafan;
- Awel y Môr;
- Ysgol Gynradd Sandfields; ac
- Ysgol Gynradd Tywyn.

Trefnwyd gweithgareddau cynnwys ychwanegol yn ein timau Cymunedau'n Gyntaf a Chymunedau am Waith lle gwnaethant gymryd rhan mewn sesiynau ymgynghori strwythuredig, a sesiynau cynnwys ieuenctid. Cafwyd cyfanswm o 216 o ymatebion, 79 gan ddisgyblion ysgolion cynradd (37%) a 137 (63%) gan oedolion.

Crëwyd y '*cymylau geiriau*' canlynol ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd:




**Beth ydych chi'n ei hoffi am Sandfields?**




**Beth nad ydych chi'n ei hoffi am Sandfields?**




**I bwy y byddech chi'n gofyn am help, pe bai ei angen arnoch?**

**Y camau y byddwn yn eu cymryd**

Rydym wrthi'n datblygu ymagwedd 'cymuned i blant' sy'n fodel cefnogaeth ac ymyriad yn seiliedig ar ardal a gyfeiriwyd gan ddata a chyfranogiad cymunedol a sgwrs ddeallus am y gwasanaeth a gwneud penderfyniadau. Cafwyd trafodaethau eisoes rhwng yr Heddlu a'r Adran Addysg a chytunwyd y gallai datblygu'r gwaith hwn drwy lens a gyfeirir gan "ACE" ychwanegu gwerth gwirioneddol. Bydd datblygu a threialu Cymuned i Blant yng ngorllewin Sandfields yn caniatáu i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid sicrhau ffyrdd mwy cydlynol o gyflwyno strategaethau atal ac ymyrryd yn gynnar mewn ardal benodol drwy ddod â ffrydiau ariannu ynghyd, lleihau dyblygu adnoddau a sicrhau ffocws di-baid ar dorri cylch amddifadedd.

Mae angen i ni allu rhoi'r un cyfleoedd i blant gorllewin Sandfields â'r rhai a geir mewn ardaloedd mwy breintiedig. Bydd y cynllun peilot yn ein galluogi i:

- dreialu buddion teilwra gwasanaethau i gefnogi anghenion y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un broblem sy'n dod i'r amlwg ar adeg benodol yn ystod plentyndod;
- symud o'r ymagweddau digyswllt a arweinir gan sefydliadau unigol i strategaeth sy'n uno partneriaid er budd plant y gymuned; a
- monitro a gwerthuso effaith y gwaith hwn mewn amser go iawn a thrwsio unrhyw aneffeithlonrwydd neu arfer aneffeithiol.

Seilir y cynllun peilot hwn ar gysylltu plant a'u rhieni â'r rhwydwaith presennol o wasanaethau sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol, yn ogystal â dod â gwasanaethau'n agosach i'r gymuned lle bo hynny'n briodol, ac archwilio lle gellir gwneud gwelliannau.

Drwy fabwysiadu ymagwedd teulu cyfan, caiff gwasanaethau eu rheoli gan gydlynwyr prosiect a fydd yn golygu na fydd llu o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â'r teulu a phob un ohonynt â'i asesiadau, ei drothwyau gwasanaeth a'i apwyntiadau ei hun. I wneud hyn yn llwyddiannus, byddwn yn:

- datblygu gwasanaethau cymorth i deuluoedd mwy dwys â'r nod o gynyddu dyhead a chyfranogiad addysgol;
- sicrhau y nodir salwch meddwl yn gynnar ac y rhoddir cefnogaeth gynnar iddo;

- adeiladu ar ddulliau cefnogi presennol sy'n ymwneud â thrais domestig; a
- sefydlu ymyriadau clir a rhagweithiol i ymdrin â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau.

Caiff Cynllun Peilot y Gymuned i Blant ei lunio o gwmpas tri phwynt pendant lle bydd ymyriadau'n fwyaf effeithiol:

1. Y blynyddoedd cynnar a'r ysgol gynradd;
2. Ysgol uwchradd a throsglwyddo i oedolaeth; a
3. Chefnogaeth i rieni/ofalwyr.

Bydd tri phrif gam i'r gwaith er y disgwylir iddynt orgyffwrdd.

- Cam 1 - mapio a llunio;
- Cam 2 - dechrau gweithio gyda'n gilydd; a
- Cham 3 - gweithio'n well gyda'n gilydd.

Amlinellir y camau gweithredu arfaethedig sy'n ymwneud â phob ffrwd waith isod. Er mwyn cychwyn a chydlynu'r camau gweithredu hyn, i sicrhau cyfathrebu clir ac amserol a momentwm o weithgarwch, cynigir secondio cydlynydd o'r Tîm Partneriaeth Teulu'n Flaenaf i gyflawni'r rôl hon a gefnogir gan yr adnodd weinyddol gyfredol.

Rydym eisoes wedi sefydlu dau grŵp tasg a gorffen, grŵp data amlasiantaeth a grŵp cyfranogiad i ddatblygu'r gwaith mapio a chynnwys. Rydym hefyd wedi cwrdd ag aelodau etholedig lleol i drafod y model ac ymgynghori arno ac rydym wedi comisiynu cyfranogiad ychwanegol a gwaith cwmpasu i fwrw ymlaen â'r amcan.

Yr hyn sy'n allweddol i lwyddiant y model yw'r angen i sicrhau arweinyddiaeth o safon y mae angen sgiliau gwahanol ac uwch ar ei chyfer, dylanwadu a chyd-drafod yn anad dim, a fydd yn ystyried ffiniau proffesiynol a sefydliadol, i hwyluso gweithio trawsddiwylliannol.  Cydlynwyr prosiect fydd yn gyfrifol am yr arweinyddiaeth hon. Byddant yn cyflawni amryfal dasgau gweithredol a strategol megis cynllunio prosiectau, llywodraethu a rheoli adnoddau i'w helpu i dyfu i rolau arweinyddiaeth.

Bydd hyfforddi staff mewn partneriaeth a gweithio fel tîm yn gwella cydweithio ac yn lleihau effaith ffiniau proffesiynol. Mae cynnwys y gymuned hefyd yn hanfodol bwysig wrth sicrhau llwyddiant.  Bydd cynnwys a hyfforddi unigolion o grwpiau cymunedol hefyd yn cryfhau perthnasoedd, yn gwreiddio newidiadau ac yn annog cynaladwyedd y

newidiadau hyn. Wrth adeiladu ar ganfyddiadau'r Asesiad Lles Lleol, mae angen i ni barhau i wneud defnydd da o'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael i gyfeirio gwneud penderfyniadau a monitro a gwerthuso cynnydd. Bydd grwpiau cymunedol a phroffesiynol yn ennill sgiliau a mewnwelediadau o rannu'r data a gesglir, y dadansoddiadau a'r dehongliadau.

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Mapio'r holl ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac ysgol gynradd yng ngorllewin Sandfields | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot/Bwrdd Iechyd PABM | Gwanwyn 2018 |
| 2 | Mapio'r holl ddarpariaeth ysgol uwchradd a throsglwyddo i oedolaeth yn yr ardal | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Gwanwyn 2018 |
| 3 | Mapio'r holl gefnogaeth i rieni yn yr ardal | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot/Bwrdd Iechyd PABM/Sector Gwirfoddol | Gwanwyn 2018 |
| 4 | Nodi unrhyw fylchau mewn darpariaeth | Grŵp Tasg a Gorffen Amlasiantaeth | Gwanwyn 2018 |
| 5 | Mapio'r holl asedau cymunedol | | |
| 6 | Cytuno ar brotocolau cydlynu a chyfathrebu (gan gynnwys rhannu data) | | |
| 7 | Cytuno ar feini prawf i nodi teuluoedd 'diamddiffyn' | | |
| 8 | Cytuno ar fygythiadau allweddol a materion cyflwyno | | |
| 9 | Cydgysylltu ag arweinwyr cymunedol/rhanddeiliaid allweddol i drafod a datblygu cynllun peilot | | |
| 10 | Nodi teuluoedd diamddiffyn a chytuno ar y rhai i'w cefnogi | | |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 11 | Cytuno ar egwyddorion allweddol y Gymuned i Blant | | |
| 12 | Cytuno ar weledigaeth a rennir yn seiliedig ar atal ac ymyrryd yn gynnar | | |
| 13 | Datblygu strategaeth gydlynol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o rwystrau, asedau a chyfleoedd i wella cyfleoedd bywyd | | |
| 14 | Cytuno ar fodel llywodraethu a rheoli a'i sefydlu | | |
| 15 | Sefydlu grŵp cyfeirio lleol (gan gynnwys plant a phobl ifanc) | | |
| 16 | Profi'r dadansoddiad a'r strategaeth bresennol | Grŵp Tasg a Gorffen Amlasiantaeth | Parhaus |
| 17 | Nodi amrywiaeth o ganlyniadau a gaiff eu gwella drwy gydweithio, a chytuno arnynt | Grŵp Tasg a Gorffen Amlasiantaeth | Haf 2018 |
| 18 | Cytuno ar drefniadau monitro i asesu a gwerthuso cynnydd | Grŵp Tasg a Gorffen Amlasiantaeth | Parhaus |
| 19 | Cytuno ar gamau gweithredu i ddatblygu darpariaeth a chefnogaeth ymhellach | Grŵp Tasg a Gorffen Amlasiantaeth | Hydref 2018 |
| 20 | Uwch-gynrychiolwyr o'r holl asiantaethau allweddol i ymrwymo i gyfarfodydd rheolaidd (pythefnosol) i drafod y prosiect a chytuno ar ymyriadau. | Grŵp Tasg a Gorffen Amlasiantaeth | Parhaus |

**Mesur Cynnydd:**

| **Dangosyddion yn y fwrdeistref sirol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cael effaith arnynt** |
|---|
| Canran y genedigaethau byw â phwysau geni dan 2,500g (Dangosydd Cenedlaethol 1) |
| Disgwyliad oes iach ar adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y mwyaf a lleiaf difreintiedig (Dangosydd Cenedlaethol 2) |
| Canran y plant sydd â llai na dau ymddygiad iach (dim smygu, pwysau iach, bwyta pum ffrwyth neu lysieuyn y dydd, dim yfed uwchlaw'r canllawiau a bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol) (Dangosydd Cenedlaethol 5) |
| Mesur datblygiad plant ifanc (Dangosydd Cenedlaethol 6) |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cyflawni'r disgwyliedig (lefel 4+) yn y dangosydd pwnc craidd (Dangosydd Cenedlaethol 7) |
| Cyfraddau imiwneiddio ar gyfer plant a phobl ifanc |
| Canran y plant dosbarth derbyn sydd dros bwysau neu'n ordew |
| Nifer y plant sy'n byw mewn tlodi (Dangosydd Cenedlaethol 18) |
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol (Dangosydd Cenedlaethol 19) |
| Canran y bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (Dangosydd Cenedlaethol 22) |
| Canran y bobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw (Dangosydd Cenedlaethol 26) |
| Cyfraddau gwahardd ac absenoldeb parhaus |
| Lles meddyliol plant a phobl ifanc |

| |
|---|
| Lles meddyliol ymhlith oedolion |
| Pobl ifanc/oedolion sy'n smygu |
| Pobl ifanc/oedolion sy'n yfed alcohol |

Byddwn hefyd yn datblygu dangosyddion ansoddol sy'n seiliedig ar ymatebion y cyfranogwyr a'r defnyddwyr gwasanaeth.


**Cysylltiadau ag amcanion eraill:**

- Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn, gan ganolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn - Bydd yr amcan yn ceisio datblygu ymagwedd gymunedol sy'n canolbwyntio ar anghenion plant yn eu cymunedau yn hytrach na chanolbwyntio ar un broblem sy'n cyflwyno ei hun ar adeg benodol yn ystod plentyndod;
- Rhoi mwy o fywyd i'n blynyddoedd hwyrach - heneiddio'n dda - Bydd yr amcan yn ceisio datblygu plant a phobl ifanc sy'n parchu holl aelodau'r gymuned ac sy'n agored i fanteisio ar brofiadau eraill, gan gynnwys yr henoed, i gyfrannu at eu lles ac yn deall y bydd eu bywydau'n destun yr un broses heneiddio;
- Hyrwyddo lles drwy waith ac yn y gweithle - Bydd yr amcan yn ceisio datblygu plant a phobl ifanc gwydn sy'n gallu cymryd rhan mewn cyflogaeth ystyrlon a deall ei manteision;
- Gwerthfawrogi ein hisadeiledd gwyrdd a'r cyfraniad y mae'n ei wneud i'n lles - Bydd yr amcan yn ceisio datblygu plant a phobl ifanc sy'n ymwybodol o'r isadeiledd gwyrdd o'u hamgylch ac sy'n gallu elwa'n llawn o gyfranogi ynddo mewn ffordd barchus sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd; a
- Mynd i'r afael ag eithrio digidol - mae pobl ifanc yn gallu cyrchu manteision y rhyngrwyd yn hyderus wrth ddiogelu eu hunain pan fyddant ar-lein yn erbyn cam-drin ac ecsbloetio.

**Amcan 2: Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn, gan ganolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn**

| Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol | Y cyfraniad a wneir gan yr amcan hwn at bob nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymunedau yw'r sylfeini er mwyn i deuluoedd a phobl ddatblygu a ffynnu. Byddwn yn gweithio er mwyn galluogi ein cymunedau i ddatblygu dyheadau a nodau, mewn amgylchedd lle gallant ffynnu. Yn y ffordd hon, gall cymunedau weithio drostynt eu hunain yn fwy effeithiol gyda chefnogaeth gan wasanaethau pan fydd angen. |
| **Cymru gydnerth** | Gall cymunedau addasu a bod yn wydn pan fydd teuluoedd a'u plant yn cael cyfle teg i ddatblygu'n unig. Bydd hyn yn cysylltu ac yn galluogi canlyniadau cadarnhaol ehangach. |
| **Cymru iachach** | Mae cefnogi a helpu teuluoedd a chymunedau i ddeall eu hiechyd yn well a'i reoli mewn ffordd gadarnhaol, yn ganlyniad allweddol ar gyfer cymunedau cryfach. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mae gweithio gyda chymunedau i ddatblygu cyfleoedd i bobl dyfu fel unigolion a theuluoedd eto'n ganlyniad allweddol. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Heb gyfleoedd i ddatblygu i'w llawn botensial, gall pobl a chymunedau fod yn ofnus, yn ddrwgdybus ac yn anoddefgar. Mae angen pobl â dyheadau sy'n gyraeddadwy ar gymunedau cydlynol, lle gallant fod yn hyderus a chyfrannu mewn ffordd ystyrlon yn y gymuned. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Bydd pobl yn gallu datblygu tuag at gyflawni eu potensial, diwylliant, chwaraeon a bydd gan y Gymraeg amgylchedd lle gall dyfu'n gryf. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Bydd y cryfder a geir gan gymunedau diogel, hyderus a gwydn yn sicrhau ein bod yn datblygu'n Gymru sy'n fwy ymatebol yn fyd-eang. |

**Yr hyn a ddysgwyd o'r Asesiad Lles:**




- Mae angen darparu mwy o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy er mwyn atal digartrefedd;
- Yn 2014-2015, cafwyd 2,004 o atgyfeiriadau ar gyfer camddefnyddio sylweddau, 63% o ddynion a 37% o fenywod. Yr oedran cyfartalog ar gyfer y rhai a atgyfeiriwyd oedd 41 oed, roedd 64% yn ddi-waith, roedd gan 7% ohonynt broblemau tai ac roedd gan 33% ohonynt broblemau iechyd meddwl;
- Mae diffyg gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sefydledig mewn cymunedau anghysbell a chyflwyno gwasanaeth anghyson yn wendid yn y ddarpariaeth gwasanaeth bresennol;
- Mae gan oddeutu 27,000 o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot anhwylder iechyd meddwl ac mae'r gyfradd hunanladdiad yn uwch na'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru;
- Mae profedigaeth yn cael effaith tymor byr a hir ar les, gall effeithio ar iechyd seicolegol a chorfforol; ac
- Roedd 748 o achosion o drais yn erbyn person yn ystod y cyfnod 3 mis yn 2016, o'i gymharu â 652 o achosion yn ystod yr un cyfnod yn 2015. Fodd bynnag, lleihaodd nifer y rhain yr adroddwyd amdanynt fel rhai domestig o 288 yn 2015 i 265 yn 2016.

**Os na fydd dim yn newid:**

- Bydd y defnydd o alcohol a chyffuriau'n parhau i gynyddu;
- Mae tueddiadau, dulliau a phatrymau radicaleiddio'n datblygu a byddant yn ehangu ar draws amrywiaeth o ideolegau;
- Rhagwelir y bydd y galw am gwnsela, tai, cyngor ariannol a lles yn cynyddu ar gyfer y trydydd sector; ac
- Er bod troseddau a gofnodir wedi gostwng yn gyson, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol (megis cymdogion swnllyd, sbwriel, fandaliaeth a graffiti) yn parhau i gynyddu.

**Pam mae'r amcan lles hwn yn bwysig?**

Dylai adeiladu a chynnal cymunedau diogel, hyderus a gwydn fod wrth wraidd unrhyw gynllun sy'n ceisio hyrwyddo'r saith nod llesiant. Gellir cyflwyno hyn drwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, galluogi cymunedau i adeiladu gwydnwch drostynt eu hunain a'u cefnogi i sicrhau cynaladwyedd o'r tu mewn. Byddwn yn gweithio i sicrhau nad ydym yn gwneud pethau "i gymunedau" ac "ar gyfer cymunedau", gan weithio gyda chymunedau ac ymgeisio i alluogi cymunedau i wneud pethau drostynt eu hunain.

Mae cymunedau a'u cyfansoddiad yn aml yn chwarae rhan ddiffiniol yn nhwf a datblygiad unigolion a'u teuluoedd. Ynghyd â'r teulu, gall cymuned ddiffinio dyheadau personol a chyfleoedd, sy'n gallu, yn eu tro, ddiffinio ein cyfleoedd bywyd. Gall y rhain fod yn gadarnhaol a darparu amodau i deuluoedd, cymunedau, ardaloedd a rhanbarthau ffynnu. Serch hynny, efallai bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar rai teuluoedd a chymunedau oherwydd eu natur ddiamddiffyn, a gellir cyflwyno hyn drwy wasanaethau lleol. Gall y gwasanaethau hyn fod yn niferus ac yn gyffredinol, ond gall eraill fod yn bwrpasol i gymunedau penodol, sy'n cynnwys gwasanaethau statudol, sector preifat a gwirfoddol. Maent yn cynnwys - timau tai, timau addysg, timau iechyd, timau plismona, ynghyd â llawer o dimau llawn gwybodaeth a chymhelliant o'r sector preifat a'r trydydd sector.

Mae'r natur ddiamddiffyn a wynebir gan lawer o bobl a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, (megis iechyd gwael, tlodi, diffyg cydlyniant cymdeithasol a diogelwch cymunedol) yn achosi heriau go iawn mewn rhai cymunedau a phwysau anghynaladwy ar wasanaethau cyhoeddus. Serch hynny, mae cyfleoedd i'r gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector weithio'n wahanol. Drwy osod y dinesydd wrth wraidd cyflwyno gwasanaethau bydd gennym ddealltwriaeth well o anghenion ein cymunedau a byddwn yn gallu ymyrryd yn gynharach. Yn bwysig iawn, byddwn yn ceisio osgoi gwneud pethau yn y ffordd arferol "i gymunedau" ond yn ceisio gweithio gyda nhw.

Yn y tabl isod, ceir enghreifftiau o sefyllfaoedd ac amgylchiadau a allai achosi angen am gefnogaeth ychwanegol:

| **Amgylchiadau Personol** | **Nodweddion Personol** | **Iechyd ac Anabledd** | **Amgylchiadau Economaidd** |
|---|---|---|---|
| Unigedd cymdeithasol<br>Sgiliau cymdeithasol/cyfathrebu gwael<br>Profedigaeth<br>Amodau Byw<br>Hunan-esgeulustod<br>Dioddefwr dro ar ôl tro<br>Hanes o droseddu | Rhywedd/Trawsrywiol<br>Tueddfryd rhywiol<br>Cefndir ethnig<br>Oedran<br>Anabledd<br>Crefydd | Anabledd dysgu<br>Anabledd corfforol neu salwch<br>Anghenion iechyd meddwl<br>Camddefnyddio cyffuriau/alcohol neu ddibyniaeth arnynt | Ariannol<br>Diweithdra<br>Tai |

Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i fapio'n hasedau a'n prosesau, nodi ein cryfderau wrth nodi bylchau mewn gwasanaethau a meysydd lle mae angen mwy o waith. Bydd hyn yn darparu cadernid a chydlyniant cymunedol wrth wella'r nod o greu Cymru fwy cyfartal a llewyrchus.  Mae llawer o waith yn mynd rhagddo'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, byddwn yn edrych ar hyn gyda chymunedau Castell-nedd Port Talbot er mwyn gwneud pethau'n wahanol wrth gyflwyno'r saith nod llesiant.

Drwy fabwysiadu ymagwedd gymunedol sy'n seiliedig ar asedau a nodi cryfderau a chyfleoedd oddi mewn, byddwn yn adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth unigolion ac yn cysylltu adnoddau ar draws cymunedau i gefnogi unigolion a theuluoedd i gydnabod eu potensial i wneud gwahaniaeth cadarnhaol ar eu cyfer nhw a'u cymunedau.

Y nod yn y pen draw yw rhoi cyfle cyfartal i genedlaethau'r dyfodol gael cyfleoedd a datblygu dyheadau ar eu cyfer nhw eu hunain, eu teuluoedd a'r cymunedau lle maent yn byw.

## Y camau y byddwn yn eu cymryd

Drwy ddatblygu strwythurau llywodraethu presennol, byddwn yn cryfhau gallu arwain ar draws y gwasanaethau cyhoeddus ac yn cynyddu safon y gefnogaeth a roddir i staff rheng flaen - y bobl sy'n gweithio yn ein cymunedau ac yn eu deall, sy'n gwybod yr hyn sy'n gweithio'n dda ac yn gwybod beth yw'r anghenion.

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partneriaid Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Mapio'r *strwythurau llywodraethu* presennol i sicrhau ffocws a hyblygrwydd wrth gyflwyno ymagweddau cymunedol newydd a blaengar, gan sicrhau eglurder rôl a chyfrifoldeb ar draws strwythurau dan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac asiantaethau unigol yn bwysicach. Yn bwysicach, darparu gwasanaeth mwy cyfannol ar draws asiantaethau lle bo angen. | Heddlu De Cymru | Gorff 2018 |
| 2 | Nodi a *datblygu ardaloedd peilot i hwyluso ymagwedd "Gymunedol"*, a gefnogir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a grwpiau ehangach a gwaith sy'n cael ei gyflwyno gan asiantaethau unigol ar hyn o bryd. Bydd hyn yn datblygu Hwb neu Fodelau Gweithredu Cymunedol Integredig (ICOM) ar gyfer cyflwyno gwasanaethau lleol. Caiff ymagwedd addas ei datblygu mewn ardaloedd peilot. Os bydd hon yn llwyddiannus, caiff ei chyflwyno ar draws Castell-nedd Port Talbot. | Heddlu De Cymru/Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Mai 2018 |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partneriaid Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 3 | Sicrhau bod ein gweithlu rheng flaen ar draws yr holl asiantaethau'n meddu ar y *ddealltwriaeth a'r sgiliau* i gyflwyno ymagwedd fwy cyfannol sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion/gymunedau. Byddwn yn datblygu cyfleoedd i bob asiantaeth ddatblygu ein pobl drwy ddigwyddiadau ymwybyddiaeth, hyfforddiant ar y cyd a chysylltiadau ag asiantaethau. | Heddlu De Cymru | Bydd hyn yn parhau, gan ddechrau ym mis Mai 2018. |
| 4 | Byddwn yn datblygu *sylfaen dystiolaeth* mewn partneriaeth *ar draws* ein cymunedau, i ddeall yn well sut rydym yn effeithio ar les cymunedol. Yn arbennig, bydd darlun cyfoethog yn cael ei ddatblygu ar lefel cymuned leol, fel bod "realiti" bywyd yn y gymuned yn cael ei ddeall ar lefelau meicro. | Cyngor Castell-nedd Port Talbot, gyda chefnogaeth Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd PABM. | Bydd hyn yn parhau, gan ddechrau ym mis Mai 2018 |
| 5 | Wrth i'r gwaith ddatblygu, ceir asesiad cadarn o gryfderau a gwendidau ein systemau TG presennol, a allai nodi atebion cyflym a chynllunio strategol tymor hwy. | Cyngor Castell-nedd Port Talbot gyda chefnogaeth Heddlu De Cymru. | Mae hyn yn parhau |
| 6 | Mapio ein gweithlu lleol a'n hystâd ac archwilio cyfleoedd i ddatblygu canolfannau cymunedol rhithiol ac a gydleolir a fydd yn galluogi ymagwedd o'r gwaelod i fyny, i gyfeirio cyfeiriad strategol parhaus y Cynllun Lles yn well. Byddwn yn uchelgeisiol ac yn gweithio tuag at *Strategaeth* | Cyngor Castell-nedd Port Talbot, gyda chefnogaeth Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd PABM | Bydd hyn yn parhau, gan ddechrau ym mis Mai 2018 |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partneriaid Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | *Ystâd* fwy gwybodus sy'n cyd-fynd â'r holl wasanaethau, gan ganolbwyntio ar effeithlonrwydd a chyflwyno gwasanaethau'n effeithiol. | | |
| 7 | Rydym yn cydnabod rôl y sector gwirfoddol sy'n darparu rôl bwysig ym mhob cymuned. Byddwn hefyd yn nodi pobl leol sy'n "gwneud" cymunedau, gan gynnwys cynghorwyr, gwirfoddolwyr, a cheidwaid siopau ac yn gweithio i'w cefnogi i sicrhau ein bod yn eu cynorthwyo i gyflawni eu hamcanion. | CGG Castell-nedd Port Talbot | Bydd hyn yn parhau, gan ddechrau ym mis Mai 2018 |
| 8 | Gwella ein cyfathrebu a bod yn fwy rhagweithiol wrth ddeall realiti ac anghenion sy'n bodoli ar draws cymunedau. Byddwn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio mwy ac yn fwy effeithiol wrth wrando'n gyntaf ac yna hysbysu cymunedau. | Heddlu De Cymru | Bydd hyn yn parhau, gan ddechrau ym mis Mai 2018 |

**Mesur Cynnydd:**

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio i sicrhau bod gwaith cynaliadwy tymor hir yn cael ei ddatblygu a'i lywio gan wybodaeth gadarn, glir a syml. Bydd setiau data a gwybodaeth am berfformiad ar draws asiantaethau'n cael eu hasesu a'u symleiddio i fod yn wybodaeth ystyrlon sy'n gallu mesur canlyniadau, gan ganolbwyntio ar gymunedau a blaenoriaethu atal ac ymyrryd yn gynnar. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn rydym yn ei ystyried:

| Dangosyddion y Fwrdeistref Sirol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cael effaith arnynt |
|---|
| Dangosyddion tlodi |
| Disgwyliad oes ac anghydraddoldebau iechyd |
| Symudedd cymdeithasol a dangosyddion addysgol |
| Dangosyddion troseddu ac anhrefn |
| Lefel yr ymyriadau gwasanaeth i deuluoedd yn yr ardal |
| Datblygu dulliau i ddarganfod sut mae pobl leol yn teimlo |

Cysylltiadau ag amcanion eraill:

- Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn arbennig plant sydd mewn perygl o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod - galluogi cyfleoedd i ddatblygu amgylchiadau gwell i alluogi teuluoedd ac ysgolion i ffynnu. Yn wir, mae teuluoedd, ysgolion a chymunedau'n sefydliadau allweddol mewn unrhyw gymdeithas. Ac mae'r ysgol, yn benodol, yn bwysig, gan fod y staff yn gweld y plant a'u rhieni'n ddyddiol, a dyma'r "hwb" mwyaf pwysig a dylanwadol mewn unrhyw gymuned. Bydd y maes gwaith hwn yn sicrhau bod cyswllt clir rhwng y gymuned a'r ysgol a'r teuluoedd, i fwyafu'r amddiffyniad a chyfleoedd bywyd i blant.
- Rhoi mwy o fywyd yn ein blynyddoedd hŷn - heneiddio'n dda - mae'r gymuned wrth wraidd bywyd pawb, ond wrth i ni heneiddio, gall y gymuned fod hyd yn oed yn fwy pwysig i bobl. Bydd gwaith yn y gymuned yn canolbwyntio ar yr holl bobl sy'n creu cymuned a'u cefnogi o ran eu gofynion penodol, ond hefyd i edrych ar y potensial i gefnogi neu fentora eraill. Bydd cyfleoedd clir i weithio gyda phobl sydd wedi magu eu teuluoedd ac sydd am gyfrannu at rai pobl eraill gydag ychydig amser a phrofiad.
- Hyrwyddo lles drwy waith ac yn y gweithle - mae gan Gastell-nedd a Phort Talbot gyfran uchel o deuluoedd sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Drwy sicrhau eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu gwaith, mae hyn nid yn unig yn dda iddynt hwy a'r peth iawn i'w wneud, ond mae hefyd yn sicrhau bod ein gweithlu'n barod, yn iach ac yn awyddus i wasanaethu. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cysylltu â'r sector

gwirfoddol a phreifat gan fod y maes gwaith cymunedol yn adeiladu ei rwydweithiau, a gellir cysylltu cyfleoedd ag agenda lles y gweithle'n well.

- Gwerthfawrogi ein hisadeiledd gwyrdd a'r cyfraniad y mae'n ei wneud i'n lles - mae hyn yn hollbwysig nid yn unig i gymunedau ond i'r blaned hefyd. Gallai pob cymuned gael ei hystyried fel "micro-amgylchedd". Bydd ffocws cryf ar fannau lleol a gwyrdd yn y gwaith cymunedol a chydnabyddiaeth pobl tuag at faterion amgylcheddol. Byddwn yn gwrando ar bobl ac yn gweithio gyda nhw i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr isadeiledd gwyrdd a'i gyfraniad at les lleol a byd-eang.




**Amcan 3: Rhoi mwy o fywyd yn ein blynyddoedd hŷn - Heneiddio'n Dda**

| Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol | Y cyfraniad a wneir gan yr amcan hwn at bob nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Drwy nodi a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer ein poblogaeth sy'n heneiddio, byddwn yn sicrhau bod pobl mewn sefyllfa dda i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymunedau. |
| **Cymru gydnerth** | Drwy fynd i'r afael â materion fel tlodi tanwydd, gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol at gynaladwyedd a newid yn yr hinsawdd. |
| **Cymru iachach** | Drwy ddatblygu strategaethau i wella iechyd corfforol a meddyliol drwy atal cwympiadau; mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd; a datblygu cymunedau sy'n ystyriol o ddementia. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Gall datblygu cyfleoedd dysgu ar gyfer pobl hŷn gynorthwyo i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran ac annog cyfranogiad cymdeithasol llawn ac actif. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Drwy ddatblygu cymunedau sy'n ystyriol o oed, byddwn yn annog pobl hŷn i gyfranogi yn eu hamgylchedd gan gynnal eu hiechyd, eu hannibyniaeth a'u lles. Bydd gwella ein dealltwriaeth o sut mae troseddu'n effeithio ar bobl hŷn hefyd yn ein cynorthwyo i wneud ein cymunedau'n fwy diogel. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Drwy nodi cyfleoedd am gyfranogiad cymdeithasol ehangach, byddwn yn hyrwyddo lles a chyfranogiad pobl hŷn yn eu hamgylcheddau ffisegol a chymdeithasol, gan gynnwys y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. |

| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Drwy ddatblygu strategaethau lleol ar gyfer pobl hŷn, gallwn chwarae ein rhan drwy sicrhau bod Cymru'n cael ei chydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel 'Cenedl sy'n Groesawgar i Bobl Hŷn'. |
|---|---|

**Yr hyn a ddysgwyd o'r Asesiad:**




- Mae pobl yn CNPT yn byw'n hwy ac mae disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer pobl sy'n byw yn y fwrdeistref bellach yn 77 oed i ddynion ac 81.2 oed i fenywod;
- Dywed 75,000 o bobl hŷn yng Nghymru eu bod 'bob amser neu'n aml' yn teimlo'n unig, ac rydym bellach yn gwybod bod cyswllt rhwng unigedd ac iechyd meddwl a chorfforol gwael; a'r
- Gwahaniaeth o ran disgwyliad oes rhwng dynion sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig a mwyaf difreintiedig Castell-nedd Port Talbot yw 6.2 flynedd ac mae'r bwlch o ran disgwyliad oes iach hyd yn oed yn fwy, sef 16.9 mlynedd; fodd bynnag, yn wahanol i Gymru'n gyffredinol, mae'r bylchau hyn wedi lleihau'n amlwg ers cyfnod 2005-2009. Y gwahaniaeth o ran disgwyliad oes rhwng menywod sy'n byw yn ardaloedd lleiaf difreintiedig a mwyaf difreintiedig Castell-nedd Port Talbot yw 7.4 blynedd, gyda bwlch o ran disgwyliad oes iach o 18.4 blynedd. Yn anffodus, mae'n ymddangos bod y bwlch rhwng menywod sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

**Os na fydd dim yn newid:**

- Mae mwy o siawns y bydd gan boblogaeth sy'n heneiddio broblemau iechyd, gan gynnwys dementia (y disgwylir iddo gynyddu 31% rhwng 2011 a 2021) ac ansymudoledd (rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 50%);
- Mae dadansoddwyr yn awgrymu y bydd seibr-droseddu (dwyn hunaniaeth a gwybodaeth a throseddau gwybodaeth) yn debygol o ddod yn fwy cyffredin oherwydd y ddibyniaeth gynyddol ar y rhyngrwyd;

- Rhagwelir y bydd cyfran y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i gwympiadau pobl dros 65+ oed yn cynyddu o 700 yn 2015 i oddeutu 1,100 yn 2035;
- Rhagwelir y bydd dros 17,000 o bobl dros 65 oed yn byw ar eu pennau eu hunain yn ardal CNPT, gan gynyddu 35%;
- Mae cartrefi oer yn cynyddu'r risg o glefydau cardiofasgwlaidd, resbiradol ac arthritis yn ogystal â hypothermia ac iechyd meddwl gwaeth. Mae pobl hŷn, wedi ymddeol yn benodol mewn perygl; a
- Bydd y boblogaeth sy'n heneiddio'n dod â chyfleoedd cyflogaeth, yn arbennig yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Serch hynny bydd cost economaidd sylweddol ac effaith ar ddarparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

**Pam mae'r amcan lles hwn yn bwysig?**

Yn ystod yr asesiad, dywedodd pobl hŷn fod y graddau y maent yn teimlo eu bod yn rheoli eu bywydau o ddydd i ddydd yn ganolog i'w lles diwylliannol, gan gynnwys eu gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau ac yn ymddiddori ynddynt. Cyfeiriodd pobl hŷn hefyd at hanes, treftadaeth ac ymdeimlad o le fel pethau sy'n cyfrannu at les diwylliannol, yn ogystal â defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau lleol megis llyfrgelloedd, pyllau nofio, y theatr a dosbarthiadau. Roedd defnyddio'r gwasanaethau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad o gyfranogaeth gymunedol a datblygiad personol ar gyfer pobl hŷn. Tynnodd pobl hŷn sylw hefyd at wirfoddoli fel rhywbeth sy'n cyfrannu at les diwylliannol gan ei fod yn rhoi cyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol. Fodd bynnag, mynegodd pobl hŷn bryderon am y toriadau i lyfrgelloedd a gweithgareddau hamdden, gan fod rhai mewn perygl o gael eu cau.

**Datblygu'r Amcan Lles hwn**

Yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 2 Awst, nodwyd y blaenoriaethau allweddol canlynol:

1. Datblygu cymunedau sy'n ystyriol o oed ac sy'n cefnogi pobl â dementia;
2. Lleihau achosion o gwympo;
3. Lleihau cyffredinrwydd unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol dieisiau;

4. Darparu cyfleoedd dysgu, cyflogaeth a gwirfoddoli cadarnhaol;
5. Lleihau tlodi gan gynnwys tlodi tanwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r oerfel; a
6. Chynyddu ymwybyddiaeth o droseddau sy'n targedu pobl hŷn, a chynyddu'r gyfradd adrodd amdanynt.

Ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth hyn, gwirfoddolodd swyddog arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am nodi partneriaid allweddol, cydlynu mapio materion ac asedau yn y gymuned a gwneud argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn.  Mae'r gwaith ymchwiliol hwn yn angenrheidiol i benderfynu ar y camau y bydd angen i ni eu cymryd i sicrhau bod pobl yn heneiddio'n dda yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Yn ogystal â datblygu'r blaenoriaethau allweddol yng ngwaith y ffrwd Heneiddio'n Dda, mae'r Grŵp Strategol hefyd wedi gofyn am farn amrywiaeth o ffynonellau i sicrhau bod y cynllun terfynol yn adlewyrchu'r holl randdeiliaid gan gynnwys y cyhoedd, yr ymarferwyr, y gwneuthurwyr polisi a'r cynrychiolwyr a etholwyd. I'r perwyl hwnnw, mae'r Grŵp Strategaeth Heneiddio'n Dda wedi ystyried barn y canlynol:

- Ymatebion yr ymgynghoriad i'r Cynllun Lles drafft;
- Digwyddiad Cyfranogiad Heneiddio'n Dda a gynhaliwyd yng Ngwesty Traeth Aberafan ar 26 Ionawr 2018;
- Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau (arbennig) Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2018; a
- Gweithdy Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.

Roedd hi'n glir o bob un o'r uchod bod cefnogaeth eang i gynnwys Heneiddio'n Dda fel maes blaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol. Yn ogystal, cafodd y themâu allweddol canlynol eu hamlygu gan nifer o ymatebwyr:

- Yr angen i ystyried pobl hŷn fel ased yn hytrach na straen ar adnoddau;
- Pwysigrwydd rôl cludiant cyhoeddus wrth gefnogi'r meysydd ffocws allweddol yn y Cynllun Heneiddio'n Dda;
- Adeiladu ar fentrau presennol mewn cymunedau a'u datblygu ymhellach;

- Datblygu cynlluniau rhwng y cenedlaethau i adeiladu gwydnwch cymunedol a lles; a
- Chynnwys cymunedau ac ymarferwyr lleol wrth ddatblygu mentrau.

**Y chwe blaenoriaeth allweddol**

**1. Datblygu cymunedau sy'n ystyriol o oed ac sy'n cefnogi pobl â dementia**

Barnwyd bod hyrwyddo cymunedau sy'n ystyriol o ddementia ac sy'n cefnogi pobl hŷn yng Nghastell-nedd Port Talbot yn flaenoriaeth yn Rhaglen Heneiddio'n Dda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y rhesymau canlynol:

- Yn 2015, roedd gan oddeutu 7,359 o bobl dros 50 oed ddementia;
- Erbyn 2021, rhagwelir y bydd y rhai â dementia'n cynyddu 31%, hyd yn oed 44% mewn rhai ardaloedd gwledig;
- Mae'r Gymdeithas Alzheimer yn amcangyfrif bod 'cost gudd dementia yng Nghymru' yn costio £31,000 y person, y flwyddyn, ond byddai hyn yn llai pe byddent yn cael gofal yn y gymuned;
- Mae bron 5,000 o ofalwyr anffurfiol yng Nghastell-nedd Port Talbot; ac
- Mae tystiolaeth dda'n awgrymu bod mabwysiadu pedwar ymddygiad iach neu fwy'n gallu lleihau risg dementia 64%.

Mae tystiolaeth i ddangos bod gwaith yn cael ei wneud gan Gastell-nedd Port Talbot i gefnogi'r rhai â dementia a'u gofalwyr, mae ymdrechion hefyd i ddatblygu cymuned sy'n cefnogi pobl hŷn, mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Y Gymdeithas Alzheimer, grwpiau cymunedol a busnesau lleol yn hyrwyddo eu bod yn ystyriol o ddementia a mynd i hyfforddiant 'Ffrindiau Dementia' yn y gymuned; ac
- Mae llawer o'r sefydliadau a gynrychiolir ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn annog eu staff i fynd i hyfforddiant Ffrindiau Dementia, cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion y rheiny â dementia a'u gofalwyr sy'n defnyddio eu gwasanaethau, ac wedi cyflwyno cais am achrediad Ystyriol o Ddementia gyda'r Gymdeithas Alzheimer neu yn y broses o wneud hynny.

Bydd yr is-grŵp sy'n edrych ar yr hyn y mae ei angen i wneud Castell-nedd Port Talbot yn gymuned sy'n fwy ystyriol o ddementia ac sy'n cefnogi pobl hŷn, yn gwneud y canlynol:

- Canfod yn union pa waith cefnogi a wneir yn y gymuned;
- Ystyried yr adborth gan y gymuned yn y digwyddiad rhanddeiliaid diweddar ar 26 Ionawr, a gweithgareddau cynnwys eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot;
- Ystyried beth yw'r rhwystrau a'r heriau er mwyn annog mwy o gefnogaeth;
- Chwilio am gyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu mwy o gefnogaeth;
- Ceisio gwneud Castell-nedd Port Talbot gyfan yn gymuned sy'n ystyriol o ddementia;
- Ceisio ei gwneud hi'n haws i ofalu am bobl mewn cartref/lleoliad cymunedol ac annog pobl i wneud hynny;
- Gwella cefnogaeth i ofalwyr; a
- Chynyddu ymwybyddiaeth o bresenoldeb/dealltwriaeth ac atal dementia.

Gobeithio bydd gwell cefnogaeth a mwy o gymunedau cefnogol yn lleihau'r galw a'r gost ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd.

## 2. Lleihau achosion o gwympo

Mae atal cwympiadau'n fater allweddol i wella iechyd a lles ymysg pobl hŷn. Mae cwympiadau'n achos sylweddol o anabledd a marwolaeth i bobl hŷn yng Nghymru, ac sy'n arwain at gostau dynol sylweddol o ran poen, colli hyder ac annibyniaeth. Amcangyfrifir bod rhwng 230,000 a 460,000 o bobl dros 60 oed yn cwympo yng Nghymru bob blwyddyn. Mae rhwng 11,500 a 45,900 o'r rhai yn dioddef anaf difrifol: torasgwrn, anaf i'r pen neu rwygiad difrifol. Bydd datblygu gwaith y Rhwydwaith Atal Cwympiadau'n helpu pobl hŷn i gynnal eu hiechyd a'u lles, byw'n hwy yn eu cartrefi eu hunain a pharhau i fod yn weithgar yn eu cymunedau.

Mae costau ariannol sylweddol hefyd i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymwneud â delio â chanlyniadau cwympiadau. Amcangyfrifir bod cwympiadau'n costio mwy na £2.3 biliwn y flwyddyn i'r GIG yn y DU. Dengys tystiolaeth y gall atal cwympiadau leihau nifer y cwympiadau rhwng 15% a 30%, a gall gwasanaethau a drefnir yn dda, sy'n seiliedig ar safonau cenedlaethol a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, atal cwympiadau a lleihau marwolaethau

ac anableddau oherwydd torri esgyrn. Dengys ymchwil hefyd os bydd cleifion hŷn yn treulio 10 niwrnod mewn ysbyty, gall hyn fod gyfwerth â 10 mlynedd o heneiddio cyhyrol.

Ar hyn o bryd, mae atal cwympiadau yn ardal Castell-nedd Port Talbot yn cael ei drafod drwy waith partneriaeth sy'n cynnwys Bwrdd Iechyd PABM; Cyngor Bwrdeistref Sirol CNPT; Sefydliadau'r Trydydd Sector; Cymdeithasau Tai; a'r gwasanaethau brys. Mae'n glir bod angen i ni wneud mwy i ymdrin â'r materion hyn drwy gyflwyno strategaethau ataliol sy'n ceisio lleihau cwympiadau, hyrwyddo annibyniaeth ymhlith pobl hŷn a lleihau'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

## 3. Lleihau cyffredinrwydd unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol dieisiau

Er bod yr Asesiad Lles yn amlygu'r boblogaeth sy'n heneiddio, nid oes cyfeiriad penodol at y cynnydd mewn unigrwydd ac unigedd cymdeithasol fel tuedd bosib yn y dyfodol. Rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Mai 2016, amlygodd gwybodaeth a goladwyd gan Wasanaeth Gwirfoddol Cyngor Castell-nedd Port Talbot y canlynol:

- Teimlai 312 o unigolion (94% o'r bobl a holwyd) fod angen prosiect i gefnogi unigolion i helpu i leihau arwahanrwydd;
- Teimlai 72% fod angen cefnogaeth i helpu unigolion i fynd hwnt ac yma; ac
- Roedd 60% yn gwybod am o leiaf un person a oedd yn unig neu'n ynysig.

Mae ymchwil arall yn amlygu'r canlynol:

- Mae unigrwydd yn cael effaith ar farwoldeb sydd gyfwerth â smygu 15 o sigarennau'r dydd, ac mae'n waeth na ffactorau risg hysbys fel gordewdra ac anweithgarwch corfforol;
- Mae unigrwydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o farwolaeth 26%; ac
- Mae ymchwil gan 'The Campaign to End Loneliness' o'r bobl unig dros 65 oed, o'r holl brofiadau posib, bod gyda rhywun yw'r peth a gollir fwyaf (52%), ac yna chwerthin gyda pherson arall (51%) ac mae 46% yn gweld eisiau cael cwtsh.

Ar hyn o bryd, ceir amrywiaeth eang o ddarpariaeth gyffredinol ac a dargedir yn y trydydd sector yng Nghastell-nedd Port Talbot, a'i bwriad yw lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd megis:

- Prosiectau Ymgyfeillio CGG Castell-nedd Port Talbot fel Cyfeillion Cymunedol;
- Darparwyr cludiant cymunedol;
- Cymdeithas Alzheimers;
- Corau; a
- Chydlynu Ardaloedd Lleol.

Bu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n treialu'r ymagwedd 'Gwneud i bob Cyswllt Gyfrif' gyda phartneriaid yn ardal Glyn-nedd yn ystod mis Hydref 2015. Nod y peilot oedd hyrwyddo a rhannu cyngor ac ymyriadau partneriaid, gyda'r nod o wella ffyrdd o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Rhoddwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth ychwanegol i aelodau criw ar alwad Glyn-nedd a'r Tîm Diogelwch Cymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot a ddarparwyd gan asiantaethau partner i'w galluogi i hyrwyddo negeseuon iechyd a diogelwch ychwanegol.  Roedd y meysydd y canolbwyntiwyd arnynt yn ystod y peilot yn cynnwys llifogydd a diogelwch dŵr, cadw'n gynnes yn y gaeaf gan gynnwys ymwybyddiaeth o garbon monocsid, rhoi'r gorau i smygu a llithro, baglu a chwympo, atal troseddau, twyllwyr a lleihau tanau bwriadol.  Er na chafwyd ffocws ar unigrwydd ac arwahanrwydd, mae hyn yn enghraifft o arfer da o ran sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd mewn cymunedau.  Gallai'r model a ddefnyddiwyd yn ystod y peilot gael ei ddatblygu ymhellach i gynnwys gwaith am unigrwydd ac arwahanrwydd.

Er bod rôl i'r holl bartneriaid i ymdrin ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, mae nifer o heriau posib i'w hystyried hefyd, megis: sut rydym yn cysylltu â'r rhai sy'n anodd eu cyrraedd, angen sicrhau ariannu cynaliadwy i gyflwyno gwasanaethau cefnogi ar gyfer pobl sy'n wynebu arwahanrwydd cymdeithasol a phwysigrwydd effaith newidiadau i wasanaethau ar bartneriaid a'r gymuned ehangach.

- Mae angen cydnabod hefyd na fydd anghenion pobl ar draws y fwrdeistref sirol yr un peth, a bydd mentrau gwahanol yn gweithio mewn rhai ardaloedd ac nid mewn rhai eraill.  O ystyried natur amrywiol cymunedau yng Nghastell-nedd Port Talbot, ni ellir tybio bod byw mewn ardal drefol yn golygu nad yw unigolyn ar eu

pennau eu hunain.  Drwy dreialu prosiectau mewn cymunedau gwahanol, byddwn yn gallu pennu yr hyn sy'n gweithio a ble;

- Mae cludiant yn broblem fawr, nid er mwyn cyrchu gwasanaethau, ond hefyd i gyrchu cyfleoedd cymdeithasol a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol;
- Ni ddylid ystyried pobl hŷn fel pobl sy'n elwa ar wasanaethau; mae ganddynt gyfraniad gwerthfawr i'w wneud i gymunedau.  Mae cyfle i archwilio gwaith rhwng y cenedlaethau; ac
- Er bod y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar unigrwydd ac arwahanrwydd pobl hŷn, mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn bethau a wynebir gan aelodau eraill y gymuned ac mae angen ystyried sut i ymdrin â hyn er lles pawb.  Gallai technoleg ddigidol gael ei defnyddio fel un o'r dulliau ar gyfer ymdrin ag arwahanrwydd cymdeithasol.

Bydd unigolion yn elwa o ymyriadau tymor byr ond bydd cryfhau a datblygu gwydnwch cymunedol yn weithred tymor hwy ar gyfer y grŵp.

**4. Darparu cyfleoedd dysgu, cyflogaeth a gwirfoddoli cadarnhaol**

Mae ymchwil gychwynnol ar sut gall y prosiect Heneiddio'n Dda wneud cyfleoedd dysgu, cyflogaeth a gwirfoddoli ar gyfer preswylwyr Castell-nedd Port Talbot yn brofiad mwy cadarnhaol, wedi amlygu'r anghenion lleol a chenedlaethol canlynol:

- Mae angen dysgu a hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n dymuno parhau mewn gwaith, hefyd ar gyfer y rhai sy'n dymuno dychwelyd i'r gweithle, ond efallai mewn rôl wahanol.  Yn ddiweddar, rydym wedi mynd heibio'r cam lle roedd mwy o bobl dros 60 oed mewn gwaith na phobl ifanc 16 oed. Yn ddiweddar, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cydnabod angen dybryd i gefnogi'r rhai hynny dros 50 oed i ddychwelyd i'r gweithle;
- Mae angen hefyd baratoi'n well ar gyfer newid mewn ffordd o fyw, wrth nesáu at ymddeoliad neu wynebu colli swydd yn hwyrach mewn bywyd.  Mae angen paratoi a chefnogi llawer o'r rhai hynny sy'n dymuno cyfrannu eu sgiliau mewn modd gwirfoddol;
- Mae cyfraniad pwysig a difesur hefyd i'w wneud at fywyd person a'r gymuned drwy gymryd rhan mewn dysgu er pleser neu i wella neu gynnal gallu gwybyddol.  Mae cyfranogiad oedolion wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd llai o arian i gefnogi addysg oedolion; ac

- Yn bwysicaf oll yng nghymdeithas heddiw, mae'r angen i ddiweddaru sgiliau'r genhedlaeth hŷn ar sut i ddefnyddio technoleg.

Mae ymchwiliadau cychwynnol i'r pynciau hyn wedi dangos y canlynol:

- Pan fydd cyrsiau'n cael eu cynnal ynghylch dychwelyd i'r gwaith, neu sut i ddechrau busnes, nid oes llawer o'r genhedlaeth hŷn yn dod iddynt;
- Gallai busnesau, yn enwedig mentrau bach a chanolig, wneud mwy i gefnogi'r rhai hynny sy'n nesáu at ymddeoliad neu maent ar fin bod yn ddi-waith yn hwyrach mewn bywyd;
- Rhaid i ni ystyried a ydym yn gwneud digon i ddefnyddio gwirfoddoli fel carreg gamu i gyflogaeth, gan ei fod yn cael ei dargedu at y genhedlaeth iau fel arfer;
- Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn dioddef oherwydd costau, colli cymhorthdal a diffyg myfyrwyr; a
- Cheir gallu a diddordebau cymysg iawn mewn technoleg gwybodaeth ymhlith y genhedlaeth hŷn.

Bydd yr is-grŵp a sefydlwyd i edrych ar y pwnc hwn yn:

- Gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i ystyried pa rwystrau sy'n atal y rhai dros 50+ oed rhag diweddaru eu sgiliau neu ddychwelyd i'r gweithle;
- Ystyried pa gefnogaeth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n nesáu at oed ymddeol neu golli swydd, a sut gellir gwella hyn;
- Gweithio gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot i ganfod yr hyn yw'r problemau a sut gellir gwella hyfforddiant, cyfleoedd a datblygiad personol;
- Nodi manteision dysgu cymunedol/gweithgareddau/clybiau crefftau a sut gellir gwella mynediad a chyfranogiad;
- Gweithio gyda'r Grŵp Cynhwysiad Digidol a sefydlwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ganfod sut gellir cefnogi pobl hŷn i ddiweddaru eu sgiliau;
- Ystyried adborth o'r gweithdy Heneiddio'n Dda a gweithgareddau cynnwys eraill; a
- Chefnogi gwaith y meysydd blaenoriaeth eraill.

## 5. Lleihau tlodi gan gynnwys tlodi tanwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r oerfel

*"Mae aelwyd sy'n dioddef tlodi tanwydd yn un lle bydd rhaid iddi wario mwy na 10% o'i hincwm ar danwydd i gynnal system wresogi foddhaol. Ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy nag 20% mewn tlodi tanwydd difrifol"* (Llywodraeth Cymru, 2016, tud.8)

Dengys ystadegau cenedlaethol y canlynol:

- Mae gan Gymru'r ail lefel isaf o aelwydydd sy'n dioddef tlodi tanwydd o'r pedair cenedl (Llywodraeth Cymru, 2016);
- Yn 2015-2016, fel rhan o raglen Cartefi Cynnes Llywodraeth Cymru, derbyniodd y cynllun Nyth £25.5 miliwn a chafodd 6,162 o gartrefi eu gwella (Llywodraeth Cymru, 2017);
- Yn ystod gaeaf 2016-2017, amcangyfrifir y bu mwy na 34,300 o farwolaethau gaeaf ychwanegol yng Nghymru a Lloegr, sy'n cynrychioli mynegai marwolaethau gaeaf ychwanegol o 20.9% (SYG, 2017);
- Effeithiodd marwolaethau gaeaf ychwanegol ar fenywod a'r henoed fwyaf yn ystod gaeaf 2016-2017; ac
- Achoswyd dros draean o farwolaethau gaeaf ychwanegol gan glefydau resbiradol yng Nghymru a Lloegr yn 2016 i 2017 (SYG, 2017).

Dengys ystadegau Tai Tarian y canlynol:

- Mae 232 o bobl dros 55 oed wedi cael cymorth gan y Tîm Cynhwysiad Ariannol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2017-2018), gan gynnwys 22 o achosion a ailadroddwyd yn ystod y flwyddyn;
- Mae 7 person dros 55 oed wedi cael talebau i'r banc bwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf;
- Ar hyn o bryd, mae 1,533 o denantiaid dros 55 oed yn hawlio budd-dal tai llawn ac mae 1,469 o denantiaid Tai Tarian dros 55 oed yn hawlio budd-dal tai rhannol, gan wneud cyfanswm o 3,002; ac
- Ar hyn o bryd, mae gan Tai Tarian 4,589 o denantiaid dros 55 oed ac mae gan 3,808 (83%) o'r rhain ôl-ddyledion.

- Dyma'r dadansoddiad:

| Lefel yr ôl-ddyledion | Nifer y tenantiaid |
|---|---|
| £0 - £250 | 2129 |
| £250 - £500 | 1574 |
| £500+ | 105 |

Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru o 2016 fod rhwng 24.5% a 25.5% o'r holl aelwydydd yng Nghastell-nedd Port Talbot mewn tlodi tanwydd.  Yn anffodus, nid yw'r ffigur hwn yn nodi faint o'r aelwydydd hyn sy'n dioddef tlodi tanwydd sy'n cynnwys pobl hŷn.

Mae nifer o fentrau ar waith i gefnogi'r rhai sy'n wynebu tlodi tanwydd, megis: Tîm Cynhwysiad Ariannol mewnol Tai Tarian sy'n cynghori ac yn cynorthwyo tenantiaid i fwyafu eu hincwm a chynorthwyo tenantiaid i gyflwyno cais am fudd-daliadau a grantiau ac Uned Hawliau Lles yr awdurdod lleol yn helpu pobl i hawlio budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.  Serch hynny, mae nifer o rwystrau sy'n atal cynnydd, gan gynnwys:

- Mynediad - mae llawer o wybodaeth a cheisiadau ar gyfer budd-daliadau a grantiau ar-lein. Gall pobl hŷn gael trafferth mynd ar-lein i gyflwyno cais;
- Ymwybyddiaeth - efallai bod diffyg ymwybyddiaeth o argaeledd cynlluniau o'r fath;
- Balchder - yn hanesyddol, mae pobl hŷn yn teimlo bod stigma i hawlio budd-daliadau neu grantiau felly maent yn amharod i hawlio.  Dengys ein hystadegau mai 7 taleb banc bwyd yn unig a ddosbarthwyd i'n tenantiaid dros 55 oed yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.  Mae hyn yn awgrymu mai ychydig iawn o bobl hŷn sy'n fodlon gofyn am gymorth; a
- Chefnogaeth - efallai bod diffyg cefnogaeth ar gael i nodi a chynorthwyo'r rhai a fyddai'n gymwys ac yn elwa o gael grantiau/cynlluniau i'w helpu.

Drwy wella'r ffordd y mae'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu'n lleol, byddwn yn gallu:

- Nodi'r rhai y mae angen cefnogaeth arnynt i fwyafu incwm a lleihau tlodi tanwydd;
- Sicrhau mynediad hwylus i sefydliadau sy'n cefnogi pobl i hawlio budd-daliadau a grantiau; a
- Hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael ar draws y fwrdeistref sirol.

**6. Cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau sy'n targedu pobl hŷn, a chynyddu'r gyfradd adrodd amdanynt**

Ar ôl adolygu troseddau gyda phobl dros 50 oed ar gyfer 2016 yn ardal Castell-nedd Port Talbot, nodwyd bod bron 11% o'r troseddau yr adroddwyd amdanynt yn rhai domestig. Roedd hyn i'r gwrthwyneb wrth ystyried yr holl gategorïau troseddu lle roedd 22% o'r dioddefwyr dros 50 oed yn nodi diffyg adrodd am gam-drin domestig. Mae angen gwaith i ddeall hyn a'r hyn y gallwn ei wneud i annog adrodd am droseddau o'r fath er mwyn cefnogi'r dioddefwyr, canfod troseddau ac ymgymryd â gwaith atal er mwyn osgoi dioddefwyr yn y dyfodol. Y tri maes troseddu a amlygwyd lle gall dioddefwyr fod yn arbennig o ddiamddiffyn yw trais domestig, twyll a throseddau sy'n ymwneud â chartrefi gofal. Byddwn yn gweithio gyda'r bartneriaeth newydd a sefydlwyd ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i sicrhau bod pobl hŷn y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt yn cael cefnogaeth gynnar. Mae ffocws ar droseddau twyll ac ar hyn o bryd cynhelir adolygiad o sut i nodi natur ddiamddiffyn yn y maes hwn, yn ogystal â'r prosesau diogelu sydd ar waith i gefnogi dioddefwyr mewn lleoliadau gofal preswyl. Serch hynny, teimlwyd y gellid gwneud mwy i annog adrodd am droseddau o'r fath i ddechrau. Byddwn yn gweithio drwy'r adran Diogelwch Cymunedol i gael gwell dealltwriaeth o risg a bygythiad i bobl hŷn a'r hyn y gellir ei wneud i amddiffyn mwy o bobl yn erbyn y troseddau hyn;

O ran troseddau sy'n ymwneud â chartrefi gofal, y nod yw sicrhau bod troseddau'n cael eu cofnodi'n gyflym, fel y gellir dechrau ymchwilio a rhoi cefnogaeth cyn gynted â phosib. Drwy asesu prosesau asiantaeth fewnol presennol a'u symleiddio, rydym yn rhagweld y bydd troseddau'n cael eu cofnodi'n gyflym pan fyddant yn dod at sylw staff gan arwain at ymchwilio a diogelu dioddefwyr yn well;

Bydd dioddefwyr sydd eisoes yn rhan o asiantaethau cefnogi'n cael sicrwydd i drechu'r rhesymau niferus nad ydynt yn fodlon adrodd am droseddau megis teimlo'n ffôl neu wedi byw gyda'r mater am lawer o flynyddoedd a chwalu'r rhwystrau hyn. Meithrin perthnasoedd rhwng asiantaethau, gallu nodi cefnogaeth arbenigol ac anghenion hyfforddi

posib asiantaethau eraill er mwyn nodi troseddau a gweithredu. Rydym hefyd yn ceisio parhau i gasglu mwy o wybodaeth er mwyn gallu nodi a mynd i'r afael â natur ddiamddiffyn dioddefwyr twyll gan ddefnyddio Operation Signature Heddlu De Cymru.

**Y camau y byddwn yn eu cymryd**

Wrth ddatblygu strategaethau effeithiol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y ffrwd waith Heneiddio'n Dda, bydd y Grŵp Strategaeth yn ceisio cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff hyn ei gyflawni yn y ffyrdd canlynol:

- Pwyslais ar yr agenda atal er mwyn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau rheng flaen yn y dyfodol (atal);
- Ystyried effaith strategaethau ymyrryd ar nodau llesiant, ar amcanion eraill ac amcanion cyrff cyhoeddus eraill (integreiddio);
- Gweithio a chyfathrebu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid yn fwy effeithiol i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer ein cymunedau (cydweithio);
- Cynnwys pobl hŷn wrth ddatblygu ein strategaethau (cynnwys); a
- Sicrhau ein bod yn ystyried anghenion tymor byr a thymor hir wrth ddatblygu ein strategaethau yn y dyfodol (tymor hir).

Bydd y Grŵp Strategaeth yn gyfrifol am nodi ymyriadau priodol a chyflwynadwy a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd yn yr Asesiad Lles. Bydd y mentrau hyn yn cael eu hystyried drwy grwpiau a rhwydweithiau presennol neu drwy greu grwpiau amser cyfyngedig sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu (partneriaid) ac ymarferwyr sy'n cyflwyno gwasanaethau i bobl hŷn yn ardal Castell-nedd Port Talbot.

O ran 'offeryn' i gyflwyno ein cynlluniau yn y dyfodol, ceir consensws cyffredin y bydd mabwysiadu methodoleg "Gwneud i bob cyswllt gyfrif" gan bartneriaid yn cynorthwyo i sicrhau ymagwedd gydlynol ac effeithiol ar gyfer yr holl asiantaethau dan sylw. Bydd y fethodoleg hon yn sicrhau bod staff yr holl grwpiau rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn defnyddio eu rhyngweithiadau dyddiol i wneud newidiadau cadarnhaol i'w lles corfforol a meddyliol.

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol |
|---|---|---|
| 1 | Gwerthuso'r prosiect peilot cefnogi pobl â dementia lleol ac ystyried y meini prawf ar gyfer achrediad ystyriol o ddementia a chyfeillgar i oed | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| 2 | Y Bwrdd Iechyd i ystyried gwaith presennol i atal cwympiadau, sut gellir datblygu hyn a sut gellir cryfhau partneriaethau | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| 3 | Ystyried a mapio mentrau presennol sy'n mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ac archwilio cyfleoedd ar gyfer gwella effeithiolrwydd | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot |
| 4 | Drwy weithio gyda Phartneriaeth Ddysgu Castell-nedd Port Talbot a'r CGG, byddwn yn mapio darpariaeth ac asedau cymunedol presennol ac yn asesu angen. | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| 5 | Asesu pa gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i fwyafu incwm. Mapio angen i nodi ble mae'r angen hwnnw gyda chefnogaeth Grwpiau Diwygio Lles | Tai Tarian/Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| 6 | Cydgysylltu â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i asesu lefelau troseddau yr adroddir amdanynt ar hyn o bryd ymhlith pobl hŷn, a sut gellir gwella diogelwch yn y dyfodol | Heddlu De Cymru |

**Tymor byr (1-2 flynedd)**

Yn y tymor byr, bydd y Bwrdd yn ceisio cefnogi mentrau Heneiddio'n Dda presennol a datblygu ymyriadau cydweithio yn y dyfodol er mwyn sicrhau ymagwedd gydlynol sy'n seiliedig ar bartneriaid. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, bydd y ffrwd waith Heneiddio'n Dda'n cynnwys ffurfio Grŵp Ymarferwyr i roi her a chraffu ar y cynlluniau cyflwyno. Er bydd y cynlluniau hyn yn cael eu datblygu dros y misoedd nesaf, rhagwelir y bydd y Grŵp Strategaeth Heneiddio'n Dda'n argymell datblygu methodoleg 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif' fel offeryn ar gyfer cyflwyno ymyriadau lleol. Nod y fethodoleg yw grymuso staff sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, cydnabod eu rôl wrth hyrwyddo ffyrdd o fyw iach, gan gefnogi newid mewn ymddygiad a lleihau'r risg yn ein cymunedau. I ddechrau, bydd cyflwyno'r ymyriadau hyn yn seiliedig ar gynllun peilot mewn ardal leol. Bydd hyn yn galluogi'r Grŵp Heneiddio'n Dda i werthuso canlyniadau a darparu 'prawf o gysyniad' i hysbysu a llywio strategaethau cyflwyno yn y dyfodol.

**Tymor canolig (3-5 mlynedd)**

Bydd amcanion tymor canolig yn cynnwys gwerthusiad llawn o'r cynllun peilot i nodi meysydd o arfer gorau a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol i ymestyn y cynllun mewn cymunedau eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot. Bydd hyn yn gyfle i'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid roi adborth ar y strategaethau a'r ymyriadau ataliol gyda'r bwriad o ehangu'r mentrau hyn ymhellach. Rhagwelir y bydd yr adborth hwn yn cynnwys data meintiol ac ansoddol a fydd yn sicrhau ymagwedd gadarn a theironglog at y broses werthuso.

**Tymor hir (5+ o flynyddoedd)**

Y weledigaeth ar gyfer y tymor hir yw cyflwyno newid diwylliannol go iawn yng nghymunedau Castell-nedd Port Talbot. Ymhlyg yn hyn yw'r nod o ddatblygu prifddinas gymdeithasol a diwylliannol i sicrhau bod Castell-nedd Port Talbot yn cael ei chydnabod fel ardal sy'n cefnogi ei phoblogaeth sy'n heneiddio i fwyafu cyfleoedd a photensial. Bydd hyn yn ein galluogi i herio normau cymdeithasol, cefnogi newid mewn ymddygiad a chynnwys y gwerthoedd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Mesur Cynnydd:**

| Dangosyddion y fwrdeistref sirol y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cael effaith arnynt |
|---|
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd sy'n dioddef tlodi incwm o'i chymharu â chanolrif y DU ar gyfer y rhai o oedran pensiwn (Dangosydd Cenedlaethol 18) |
| Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Dangosydd Cenedlaethol 22) |
| Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/gael mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau y mae eu hangen arnynt (Dangosydd Cenedlaethol 24) |
| Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio (Dangosydd Cenedlaethol 25) |
| Canran y bobl sy'n gwirfoddoli (Dangosydd Cenedlaethol 28) |
| Canran y bobl sy'n unig (Dangosydd Cenedlaethol 30) |

**Cysylltiadau ag amcanion eraill**

- Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant sydd mewn perygl o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod - mae'n cael ei gydnabod bod datblygu ymddygiad cadarnhaol o oed cynnar yn gallu cael effaith sylweddol ar wella ansawdd bywyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys datblygu mentrau bwyta'n iach ac ymarfer corff sydd wedi dangos ei fod yn lleihau cyffredinrwydd problemau iechyd tymor hir megis clefyd y galon, strôc a phwysau gwaed uchel. Yn yr un modd, amlygodd adborth drwy'r broses ymgynghori nad yw unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn fater sy'n benodol ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio. Cefnogir hyn gan ymchwil sy'n awgrymu bod y cynnydd mewn defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan bobl ifanc yn gallu gwaethygu teimladau o arwahanrwydd cymdeithasol. Amlygodd nifer o'r ymgyngoreion hefyd fanteision creu cyfleoedd am fwy o ryngweithio rhwng y cenedlaethau. Gellir cyflawni hyn drwy archwilio cyfleoedd i bobl hŷn gwrdd â phobl ifanc drwy ysgolion neu weithgareddau allgyrsiol mewn cymunedau;
- Creu cymunedau diogel, hyderus a gwydn sy'n canolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn - cydnabyddir bod unrhyw fentrau sy'n arwain at greu cymunedau diogel, hyderus a chadarn yn mynd i gael effaith gadarnhaol yn naturiol ar y boblogaeth sy'n heneiddio yn ardal Castell-nedd Port Talbot;


- Hyrwyddo lles drwy waith ac yn y gweithle - roedd ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd wedi amlygu'r angen i baratoi unigolion ar gyfer ymddeol yn y dyfodol, nid o safbwynt ariannol yn unig, ond sicrhau bod unigolion yn barod yn emosiynol ac yn seicolegol am y newid sylweddol i fywyd sy'n aml yn mynd law yn llaw ag ymddeoliad. Dengys ymchwil hefyd fod gweithio'n hwyrach mewn bywyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl drwy ddarparu trefn ddyddiol a strwythur ynghyd â mwy o ryngweithio cymdeithasol;
- Gwerthfawrogi ein hisadeiledd gwyrdd a'i gyfraniad at ein lles - mae datblygu'r isadeiledd gwyrdd yn ein cymunedau'n chwarae rôl bwysig wrth wella iechyd meddwl a chorfforol pawb sy'n byw ac yn gweithio yn ardal Castell-nedd Port Talbot; a
- Mynd i'r afael ag eithrio digidol - mae pobl hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys diffyg sgiliau; diffyg adnoddau ariannol a diffyg ymddiriedaeth. Drwy fynd i'r afael ag eithrio digidol pobl hŷn, bydd cyfleoedd yn cael eu creu i drechu arwahanrwydd ac unigrwydd cymdeithasol; lleihau cost byw o ddydd i ddydd wrth wella dewis; galluogi pobl i gynnal mwy o annibyniaeth am hwy drwy siopa ar-lein etc; cynnal a gwella sgiliau gwybyddol drwy gyflwyno amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ac ysgogol; a sicrhau bod pobl hŷn yn meddu ar yr wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau i'w cadw nhw'n ddiogel ar-lein.

**Amcan 4: Hyrwyddo lles drwy waith ac yn y gweithle**

| Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol | Y cyfraniad a wneir gan yr amcan hwn at bob nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Mae cael gweithlu iach, da a medrus yn golygu ein bod yn gallu elwa ar y cyfleoedd a geir o ganlyniad i arloesedd, mathau newydd o waith/gyflogaeth, modelau busnes newydd a diwydiannau sy'n denu gweithwyr i'r ardal leol. Yn ogystal, mae gweithlu iach yn cynyddu cynhyrchiant drwy well ymrwymiad a llai o absenoldeb sy'n cyfrannu at ffyniant lleol a chynaladwyedd y farchnad swyddi. |
| **Cymru gydnerth** | Bydd y gwaith hwn yn helpu i adeiladu gwydnwch unigolion, drwy sicrhau ein bod yn cymryd ymagwedd gyfannol at y ffordd rydym yn gofalu am ein staff, mewn sefydliadau/busnesau drwy ymrwymiad gwell, cynhyrchiant gwell a llai o absenoldeb salwch yn ogystal â chymunedau'n cael gwaith lleol, da a chynaliadwy a swyddi sy'n galluogi pobl i aros mewn cysylltiad â'r lle a'r bobl. |
| **Cymru iachach** | Bydd gwella arferion gweithio yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector ac ar eu traws yn arwain at welliant yn iechyd a lles y boblogaeth waith leol gyda manteision ychwanegol i'w teuluoedd a'u cymunedau. Mae cael ystyr a diben mewn bywyd yn gyfrannwr pwysig i'n hiechyd a'n lles. Mae gwaith, yn ogystal â gweithgareddau eraill megis gwirfoddoli, yn cyfrannu'n sylweddol at hyn. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mae sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi a'u galluogi i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth sy'n cynnig gwaith da'n lleol yn hanfodol i leihau anghydraddoldebau. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â materion a rhwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd trwy gydol bywyd i'r rhai sydd am weithio. |

| | |
|---|---|
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau cydlynus yw'r rhai sydd wedi'u cysylltu'n dda, yn fywiog ac yn ddeniadol. Mae gwaith neu unrhyw weithgarwch sy'n rhoi ystyr a diben mewn bywyd i bobl yn hanfodol i les cadarnhaol ac mae'n cysylltu pobl â'u cydweithwyr, eu cymunedau a lle. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae'r amcan hwn yn cynnig y cyfle i ddatblygu marchnad swyddi amrywiol sy'n ffynnu ymhellach gan gynnwys y rhai yn y celfyddydau, hamdden a mannau gwyrdd sy'n cyfrannu at ymdeimlad o falchder a pherthyn i gymunedau lleol. Mae hyn yn bwysig ar gyfer eu hunaniaeth bersonol ac yn ei dro mae'n helpu i amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Mae cyswllt anorfod rhwng natur cyflogaeth, busnes a gwaith â'r economi fyd-eang a thueddiadau. Bydd yr amcan hwn yn edrych ar sut byddwn yn elwa o gyfleoedd cyflogaeth, mewn cyd-destun byd-eang, wrth gydnabod natur newidiol gwaith a mathau o ddiwydiannau a fydd ar gael/eu hangen yn y dyfodol o safbwynt economaidd ac amgylcheddol. |

**Yr hyn a ddysgwyd o'r Asesiad Lles:**




- Nodwyd bod cyfraddau absenoldeb salwch, straen a lles staff yn her gyffredin ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT);
- Mae 20% o aelwydydd yn CNPT yn ddi-waith ac mae 12% o'r boblogaeth oedran gweithio'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd oherwydd afiechyd;
- Mae gan CNPT:
    - Un o'r cyfraddau uchaf o oedolion heb gymwysterau yng Nghymru (14%)
    - Y gyfradd uchaf o ymadawyr ysgol nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (3.6%) yng Nghymru;
    - Y bwlch mwyaf mewn cyflogaeth rhwng y rhai â chyflwr iechyd tymor hir a'r rhai sydd heb yng Nghymru (23.5%);
- Amlygodd yr Asesiad Lles wahaniaeth mewn cyflog wythnosol cyfartalog yn 2016 rhwng y rhai sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot (£480) a'r rhai sy'n dod i'r fwrdeistref i weithio (£529); a
- Cheir bwlch cyflog sylweddol rhwng y rhywiau yma ac yng Nghymru. Mae menywod lleol sy'n weithwyr amser llawn yn ennill dros £100 ar gyfartaledd yn llai yr wythnos na dynion (£426 ar gyfer menywod o'i gymharu â £546 ar gyfer dynion).

**Os na fydd dim yn newid:**

- Disgwylir i nifer y bobl oedran gwaith (16 i 64 oed) yn CNPT ostwng 5.7% erbyn 2030 ac ar yr un pryd, disgwylir i'r boblogaeth dros 65 oed gynyddu 24.8% erbyn 2030;
- Wrth i'n poblogaeth o bobl hŷn gynyddu, bydd mwy o gyfleoedd i bobl sydd wedi ymddeol gymryd rhan mewn gweithgareddau maent yn eu mwynhau, cyfrannu at yr economi leol fel defnyddwyr a chymryd rhan mewn bywyd cymunedol, er enghraifft fel gwirfoddolwyr; ac
- Mae tlodi pensiynwyr ac yn y gwaith yn debygol o gynyddu.

**Pam mae'r amcan lles hwn yn bwysig?**

Mae gwaith a'r gweithle'n ffactorau allweddol sy'n effeithio ar les pobl a chymunedau. Ceir tystiolaeth gref fod bod mewn gwaith yn dda ar gyfer lles a gall wrthdroi effeithiau niweidiol diweithdra tymor hir ac absenoldeb salwch tymor hir.[1] [2]

Mae'r ffyrdd y mae gwaith yn effeithio ar les yn cynnwys y canlynol[3]:

- Mae angen arian ac adnoddau eraill ar gyfer lles materol ac economaidd;
- Ymdeimlad o hunaniaeth a diben;
- Cysylltiadau a chefnogaeth gymdeithasol, ymdeimlad o berthyn;
- Ffordd o strwythuro a llenwi ein hamser;
- Gweithgarwch corfforol a meddyliol;
- Cyfle i ddysgu, datblygu a defnyddio sgiliau; a
- Statws cymdeithasol a chyflawniad personol.

Serch hynny, rydym hefyd yn gwybod bod rhai agweddau ar fywyd gwaith, megis straen, gwrthdaro, anaf ac ansicrwydd yn gallu cael effeithiau niweidiol ar les pobl mewn cyflogaeth. Problemau cyhyrysgerbydol a straen yw prif achosion absenoldeb salwch yn y DU[4] ac mae cyfanswm colled allbwn economaidd o ganlyniad i iselder a phryder cronig yn unig tua £12 biliwn y flwyddyn - 1% o gyfanswm ein hincwm cenedlaethol (DU)[5]

Mae tueddiadau yn economi'r DU yn golygu bod pryderon cynyddol am arferion y gweithle nad ydynt yn gwarantu incwm ac oriau gwaith rheolaidd, sy'n bygwth sicrwydd swyddi a lles gweithwyr. Yn ogystal, bydd datblygiadau technegol yn newid y byd gwaith yn sylweddol yn y dyfodol.[6] O ganlyniad, mae ffocws cynyddol ar sut rydym yn sicrhau bod y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gynnig yn gyfleoedd "gwaith da" ac yn darparu'r manteision lles o fod

---

[1] Black C **Working for a Healthier Tomorrow**, Llundain TSO 2008
[2] Waddell G Burton A K **Is work good for your health and well-being?** TSO 2006
[3] Ibid Waddell a Burton
[4] CIPD **Annual absence management survey** 2016
[5] Centre for Economic Performance's Mental Health Policy Group, **The Depression Report,** London School of Economics 2006
[6] The Work Foundation **Commission on Good Work** 2016

mewn gwaith, fel amodau a thelerau da, ymreolaeth, hyfforddiant a datblygiad, cyflogau sy'n cyd-fynd â chwyddiant a sicrwydd swyddi.

Gall gwaith a'r gweithle gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar iechyd gweithwyr. Bydd cadw pobl yn iach yn ystod eu bywydau gwaith yn lleihau baich afiechyd yn sylweddol ar ein poblogaeth yn hwyrach mewn bywyd. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflogi nifer sylweddol o bobl sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot a bydd oedran cynyddol y boblogaeth oedran gweithio yn cael ei adlewyrchu yn iechyd ac anableddau staff y gwasanaethau cyhoeddus y bydd yn rhaid i ni, fel cyflogwyr, ymdrin â nhw.

Bydd annog a chefnogi staff i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw fel unigolion yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd yr unigolyn yn ogystal â'u teuluoedd a'u rhwydwaith cymdeithasol ehangach. Bydd creu amgylcheddau gweithle (cymdeithasol a ffisegol) sy'n galluogi ymddygiad iach yn hanfodol er mwyn galluogi hyn.


Cafodd y cysylltiad rhwng lles cymdeithasol ac economaidd ei adlewyrchu yng nghanfyddiadau allweddol yr Asesiad Lles, ac wrth ymgysylltu â phobl leol canfuwyd mai'r pethau fyddai'n gwella lles economaidd fwyaf yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd cyflogaeth, incwm, addysg a sgiliau, twristiaeth ac isadeiledd a thechnoleg, ac roedd gan hyn gysylltiad cryf ag elfennau yr oedd pobl yn teimlo fyddai'n cyfrannu at les cymdeithasol, yn benodol fforddadwyedd gweithgareddau, bod yn iach a chael cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd sy'n galluogi pobl i dreulio mwy o amser gyda theulu a ffrindiau.

Gyda hanner poblogaeth y byd mewn cyflogaeth a llawer o bobl yn gweithio'n hwy nag erioed, mae'r gweithle'n ardal lle gall cyflogwyr helpu miliynau o bobl i wella eu hiechyd, o greu amgylchedd gwaith diogel i leihau risg o anafiadau a salwch, at gymryd ymagwedd gyfannol at les a'u grymuso i fabwysiadu ffordd iachach o fyw.

Yn lleol, rydym wedi cydnabod bod angen i hyn ddechrau gyda'n pobl ni ein hunain. Mae'n ymwneud â gwella eu lles pan fyddant yn y gwaith; eu helpu nhw i fyw bywydau hwy, iachach a hapusach - p'un a yw hynny drwy wybodaeth neu eu grymuso wrth iddynt wneud penderfyniadau am eu hiechyd.

Mae lles yn fwy na deiet ac ymarfer corff; mae'n ymwneud â phopeth y mae ei angen arnom i fod ar ein gorau, yn feddyliol ac yn gorfforol - o berthnasoedd gwerth chweil i sefydlogrwydd ariannol a chydnabyddiaeth ac ymreolaeth yn y gwaith.

Mae'r ffigur isod yn gynrychiolaeth weledol o'r elfennau cysylltiedig gwahanol, a nodwyd yn y sylfaen dystiolaeth, sy'n cyfrannu at les rhywun yn y gwaith. Mae'n cydnabod bod lles yn y gwaith yn gymhleth, gan fynd tu hwnt i'r elfennau iechyd corfforol mwy traddodiadol i gynnwys lles meddyliol; yr angen am gefnogaeth a thwf personol; a chyfraniad perthnasoedd ag eraill a'n hamgylchedd ffisegol.



**Datblygiad yr Amcan Lles hwn**

Ymgymerwyd â phedwar gweithgaredd allweddol fel rhan o'r ymarfer cynnwys â ffocws ar y ffrwd waith hon:

1. Gweithdy gyda chynrychiolwyr o asiantaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid eraill, gyda'r nod o gynnwys rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu cynllun gweithredu i hyrwyddo lles drwy waith a'r gweithle, gan gynnwys yr allbwn a'r canlyniadau i'w cyflawni.

   Daeth cynrychiolwyr i'r gweithdy o asiantaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid eraill gan gynnwys:

   - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
   - Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM
   - Cymdeithas Tai - Tai Tarian
   - Grŵp Colegau NPTC
   - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr
   - Heddlu De Cymru
   - Canolfan Byd Gwaith yr AGPh
   - Rhaglen Cymru Iach ar Waith (Iechyd Cyhoeddus Cymru)
   - Hwb Iechyd a Chynaladwyedd (Iechyd Cyhoeddus Cymru)
   - CGG Castell-nedd Port Talbot

   Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar dri gweithgaredd:

   a. ***Asesu'r cyd-destun presennol ac yn y dyfodol***: Cyflwyniad ar fewnwelediad allweddol o'r asesiad lles lleol o ran gwaith a lles, tystiolaeth allweddol ar waith ac iechyd, tueddiadau poblogaeth ac economaidd yn y dyfodol, heriau allweddol.

   b. ***Cytuno ar flaenoriaethau:*** Gan ddefnyddio cardiau canlyniad ac ysgogi, bu'r cyfranogwyr yn gweithio gyda'i gilydd mewn tri grŵp i gytuno ar ganlyniadau blaenoriaeth ar gyfer y boblogaeth leol ar y thema hon,

a mapio'r ysgogwyr a'r perthnasoedd allweddol rhwng amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar les a gwaith. Er bod pob diagram yn edrych yn wahanol, cafwyd cytundeb cryf ar y canlyniadau blaenoriaeth uchel allweddol sef:

- Gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon - i'w cyflawni drwy weithlu cynaliadwy ac iach
- Pobl a chymunedau ag ymdeimlad o ddiben - drwy weithgareddau â phwrpas a gwaith da yn yr economi leol

Nodwyd liferi a chyfleoedd i ddylanwadu ar y canlyniadau uchod hefyd a gall y rhain gael eu bwydo i gynnwys pellach a datblygu cynllun gweithredu yn y camau nesaf isod.

c. ***Dadansoddi sefyllfa gwaith partneriaeth lleol:*** Gan ddefnyddio Pensaernïaeth Datblygu Dyfodol Cynaliadwy defnyddiodd pob cyfranogwr ddot i raddio eu hasesiad o bartneriaeth leol ar hyd continwwm o'r ffyrdd allweddol o weithio ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn seiliedig ar frîff cynnwys (ar gael ar gais) a oedd yn seiliedig ar allbwn a thrafodaethau o'r gweithdy. Dosbarthwyd hwn i aelodau a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'w raeadru drwy eu rhwydweithiau i dderbyn sylwadau ac adborth dros gyfnod o 6 i 8 wythnos.

2. Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau, cyfweliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn, gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau cynrychiolaeth eang a chael barn er mwyn hysbysu'r cynnig terfynol/cynllun gweithredu.

3. Cynhaliwyd gweithdy gan CGG CNPT a daeth nifer o gynrychiolwyr y trydydd sector iddo. Roedd y gweithgareddau yn y gweithdy'n canolbwyntio ar dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:
   - Pa mor berthnasol yw'r amcan hwn a'r canlyniadau i'r trydydd sector;
   - Cyfleoedd i'r trydydd sector gael ei gynnwys a chymryd rhan;
   - Eu safbwynt ar les yn y gweithle yn y sector; a
   - Sefydlu sut ac a oeddent am barhau i gael gwybodaeth a chymryd rhan yn yr agenda wrth symud ymlaen.

Cafodd y rhai a oedd yn bresennol eu rhoi mewn tri grŵp a gafodd y cyfle i ymateb/gymryd rhan a rhoi adborth ar y gwaith hyd yn hyn.

**Beth wnaethom ni ei glywed a'i ganfod?**

Roedd hi'n glir o'r gweithgareddau ymgynghori fod hon yn ardal flaenoriaeth ar gyfer gweithredu lleol, ac er ei bod hi'n hanfodol gweithio a chael incwm, mae mwy i les na hyn. Roedd cael ymdeimlad o ddiben yn bwysig, fel y mae ein perthynas â lle a'r bobl o'n cwmpas - p'un a yw hyn drwy waith neu drwy ein cymunedau a/neu ymdrech wirfoddol. Yn wir, mynegwyd bod pwysau gwaith a disgwyliadau gan gyflogwyr yn aml yn golygu bod agweddau eraill sy'n cyfrannu at les megis cydbwysedd gwaith bywyd yn cael eu herydu; amser hamdden i ddilyn diddordebau eraill; ac ymrwymiad cymunedol/cyfleoedd gwirfoddoli.

Mae sefydliadau'n rhan o ecosystemau cymunedol ac felly mae gan y sector cyhoeddus lawer i'w gyfrannu fel sefydliadau unigol yn ogystal â fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Drwy gefnogi unigolion i fod yn iach ac yn wydn a chael ymdeimlad o ddiben, mae'n ychwanegu at gymunedau cryfach, cysylltiedig a gwydn gydag ymdeimlad o le. Yr elfennau allweddol a gafwyd sy'n ymwneud â'r weledigaeth drosgynnol hon oedd gweithredu i greu mynediad a chyfleoedd i gael gwaith da'n lleol; cael gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol; a gweithlu cynaliadwy ac iach.

Mae pobl yn cael eu cydnabod fel asedau mewn unrhyw sefydliad, felly dylai pob sefydliad fod yn gweithredu mewn rhyw ffordd i fynd i'r afael ag iechyd a lles eu staff eu hunain. Ystyrir bod staff iach ac ysgogol yn hanfodol er mwyn i ni gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n gallu newid ac addasu i anghenion ein cymunedau yn y dyfodol. Mae angen i ni addasu hefyd i gael gweithlu hŷn a galluogi pobl i aros yn iach ac mewn gwaith am fwy o amser.

Arweiniodd hyn at gytundeb ar gyfer 2 ganlyniad allweddol, sef

- Gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol drwy weithlu cynaliadwy ac iach
- Pobl a chymunedau ag ymdeimlad o ddiben a lle, drwy gael mynediad a chyfleoedd i gael gwaith da'n lleol a/neu weithgaredd â phwrpas a chysylltiadau drwy waith neu ymdrech/weithgaredd gwirfoddol arall

1. **Gwasanaethau cyhoeddus effeithlon ac effeithiol drwy weithlu cynaliadwy ac iach**

- Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn cyflogi cyfran sylweddol o boblogaeth Castell-nedd Port Talbot ac mae llawer o'u teuluoedd yn byw yn yr ardal. Felly bydd gwella lles ein staff yn cael effaith sylweddol ar les ein poblogaeth. Teimlwyd yn gryf, os na allem fod yn fodel rôl a **'threfnu ein gweithlu ein hunain'**, yna ni fyddem mewn sefyllfa i ddylanwadu ar eraill;
- Er y cafwyd cytundeb y dylai pawb fod yn gwneud rhywbeth, ***ni chafwyd cytundeb cyffredin ar sut*** i nodi materion y mae angen ymdrin â hwy, pa weithredu fyddai'n effeithiol neu'n briodol na'r hyn yr ystyrid yn arfer gorau. Serch hynny, cafwyd enghreifftiau o arfer da'n lleol, gan gynnwys Tai Tarian, Cymdeithas Tai, a dderbyniodd Wobr Blatinwm yn ddiweddar gan y rhaglen Cymru Iach ar Waith, gan arddangos rhagoriaeth mewn sawl maes sy'n ymwneud ag iechyd a lles yn y gweithle. Roedd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn awyddus i rannu eu profiadau a dysgu gan eraill i wella ymhellach;
- Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredin fod angen i'r ***diffiniad o les yn y gwaith fod yn gyfannol*** gan fynd y tu hwnt i'r elfennau traddodiadol o iechyd corfforol, rheoli straen a mesurau iechyd a diogelwch (fel a nodwyd uchod). Yn wir, effaith ffactorau y tu allan i reolaeth unigolyn ar eu lles, yn arbennig sefydliadol, diwylliannol ac arweinyddiaeth o ran cadw staff, cynnwys gweithwyr ac absenoldeb salwch;
- Cytunodd pawb yr ymgynghorwyd â nhw, er bod enghreifftiau o arfer da'n lleol, bod anghysondeb o fewn sefydliadau a rhyngddynt, a cham pwysig cyntaf fyddai ***mapio manylach o arfer da presennol*** - yn lleol, yn genedlaethol a'r tu hwnt - o ran lles yn y gweithle a defnyddio hyn fel rhan o gyfnewid dysgu. Yn ogystal, cydnabuwyd y byddai angen i sectorau gwahanol a mathau gwahanol o swyddi addasu i ddysgu sut i gyd-fynd â'u cyd-destun eu hunain. Serch hynny, yr hyn nad yw'n bodoli ar hyn o bryd yw fforwm ar gyfer cyfnewid syniadau, problemau, atebion a rhannu dysgu;
- Mae lles meddyliol ac iechyd meddwl yn faterion allweddol yn y gweithle. Mae'n parhau i fod y prif achos dros absenoldeb salwch ac mae'n cael effaith sylweddol ar unigolion, timau, cyflogwyr a busnesau. Mae cael hyn yn gywir a deall ***sut i gefnogi unigolion â phroblemau iechyd meddwl isel*** e.e. straen, pryder yn ogystal â chefnogi cyflogwyr i reoli'r rhai â phroblemau iechyd meddwl, eu nodi drwy'r ymgynghoriad. Roedd un enghraifft leol o weithredu gan Fwrdd Iechyd PABM sydd wedi bod yn darparu cefnogaeth i gyflogwyr/busnesau lleol i'w helpu i ddelio â materion o'r fath, yr oedd llawer yn anymwybodol ohonynt;
- Nodwyd ***sut oedd y ffordd orau i fesur newid/llwyddiant*** neu wybod pa feysydd yr oedd angen gwaith arnynt. Roedd enghreifftiau gwahanol wedi'u cyflwyno gydag un sefydliad yn defnyddio offeryn cenedlaethol

ar hyn o bryd i fesur lefelau cyfranogiad staff fel mesur mwy cadarnhaol ac ystyrlon o les. Cynigiwyd y profiad a'r arbenigedd hyn o ran dysgu a rennir ac wrth ddatblygu mesur lleol addas y gellid ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion ac ar draws sectorau;

- Fel rhan o les, dywedodd rhai eu bod yn cynnig ***cyfle i staff wirfoddoli***, yn ystod amser gwaith. Ystyriwyd bod llawer o fanteision i hyn gan gynnwys mwy o ysgogiad a chyfranogiad, drwy gysylltu pobl â sefydliadau gwahanol, cyfleoedd/dysgu newydd, cysylltiadau cymdeithasol a chysylltiadau â'r ardal leol; a
- Chydnabuwyd bod y sector cyhoeddus wedi bod ac yn parhau i weld pwysau cynyddol ar ei staff sy'n arwain at lefelau uwch o absenoldebau staff o ganlyniad i straen a phroblemau eraill sy'n ymwneud ag iechyd. Yn ogystal â hyn, ceir demograffig gweithlu sy'n newid gan gynnwys gweithlu sy'n heneiddio yn aml â mwy o broblemau sy'n ymwneud ag iechyd. Teimlwyd bod angen edrych ar sut gallwn wella ***arfer presennol o ddefnyddio Nodyn Ffitrwydd*** fel ffordd o helpu pobl i aros yn y gwaith neu ddychwelyd yn gynharach. Teimlwyd y byddai mwy o gydweithio rhwng cyflogwyr, gofal sylfaenol ac iechyd yn fuddiol.

### Y camau y byddwn yn eu cymryd

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Mapio asedau presennol ac arfer da ar les drwy waith lleol ac ymhellach i ffwrdd. Nodi cyfleoedd i wella effaith drwy integreiddio, ymrwymiad a chydweithio | Cyflogwyr a busnesau<br>Gweithwyr<br>Adnoddau Dynol<br>Iechyd Galwedigaethol<br>Gofal Sylfaenol a Chymunedol<br>Y Trydydd Sector/Sector Gwirfoddol | Mai 2018 – Mai 2019 |
| 2 | Hwyluso rhannu arfer da rhwng cyflogwyr ac ar draws sectorau, yn y fwrdeistref. | | |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 3 | Ymrwymiad ehangach gyda chyflogwyr a gweithwyr, yn arbennig o'r sector annibynnol, gyda'r ffrwd waith hon yn derbyn eu barn ac fel rhan o ymagwedd gyd-gynhyrchu at gynllun tymor byr, canolig a hwy ar gyfer gweithio ar y cyd. | | |
| 4 | Datblygu canllawiau a/neu fframwaith arfer da ar gyfer polisi lles yn y gwaith ar gyfer aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gydag ymrwymiad staff sy'n cydnabod pwysigrwydd ymagwedd gyfannol at fynd i'r afael â lles, gan gynnwys lles meddyliol | | |
| 5 | Nodi cyfleoedd i gydweithio'n seiliedig ar y dysgu a sgiliau/arbenigedd a rennir ar draws sectorau o ran cadw pobl yn iach ac yn y gwaith yn ogystal â chefnogi pobl i aros/ddychwelyd i'r gwaith. | | |
| 6 | Gan ddefnyddio gallu, cymhwysedd ac enghreifftiau o arfer da presennol, datblygu mesur gwaelodlin y gellir ei | | |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | ddefnyddio ar gyfer monitro cynnydd a thargedu gweithredu. | | |
| 7 | Mapio asedau ac arfer da presennol ar les drwy waith lleol ac ymhellach i ffwrdd e.e. holl aelodau a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adolygu a gwella cyfranogiad yn y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol. Nodi cyfleoedd i wella effaith drwy integreiddio, ymrwymiad a chydweithio. | Cyflogwyr a busnesau<br>Y Sector Gwirfoddol/Y Trydydd Sector<br>Caffael<br>Partneriaid rhanbarthol e.e.<br>Adran Gwaith a Phensiynau, Tasglu'r Cymoedd, Partneriaeth Ddysgu Ranbarthol | Mai 2018 – Mai 2019 |
| 8 | Hyrwyddo rhannu arfer da a chynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau presennol sydd ar gael gyda chyflogwyr ac ar draws y sectorau, yn y fwrdeistref. | | |
| 9 | Ymrwymiad ehangach gyda chyflogwyr a gweithwyr, yn arbennig o'r sector annibynnol, gyda'r ffrwd waith hon i gael eu barn ac fel rhan o ymagwedd gyd-gynhyrchu at gynllun tymor byr, canolig a hwy ar gyfer cydweithio. | | |
| 10 | Datblygu ymagwedd gydweithredol at greu swyddi lleol a chyflogaeth gynaliadwy drwy fframweithiau Manteision Cymunedol i wella | | |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | rhagolygon economaidd pobl, busnesau a chymunedau lleol. | | |
| 11 | Adolygiad ar y cyd o bolisïau a phrosesau caffael i nodi cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio ar y cyd gan arwain at welliannau mewn lles yn y gwaith, hyfforddiant a sgiliau a buddsoddiad cynyddol mewn gwaith da yn yr economi leol. | | |
| 12 | Archwilio arfer presennol a'r angen am ffordd o fonitro newid yn y fwrdeistref a nodi cyfleoedd/anghenion yn y dyfodol. | | |

**Mesur Cynnydd:**

| Dangosyddion y fwrdeistref sirol y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Canran yr oedolion sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw (ddim yn smygu, pwysau iach, bwyta pum darn o ffrwythau a llysiau'r dydd, dim yfed uwchlaw'r canllawiau a bodloni'r gofynion gweithgarwch corfforol) (Dangosydd Cenedlaethol 3) |
| Canran y bobl mewn cyflogaeth, y mae ganddynt gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro neu nid ydynt yn chwilio am gyflogaeth barhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrif y DU (Dangosydd Cenedlaethol 16) |
| Gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau (Dangosydd Cenedlaethol 17) |
| Sgôr canolrif lles meddyliol (Dangosydd Cenedlaethol 29) |

**Cysylltiadau â'r amcanion eraill:**

- Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant sydd mewn perygl o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod - drwy gefnogi datblygiad llythrennedd a sgiliau allweddol eraill, gyda ffocws penodol ar y rhai sy'n gadael addysg ac am gael/datblygu amrywiaeth o opsiynau a fydd yn eu helpu i wella eu sgiliau cyflogadwyedd e.e. profiad gwaith, prentisiaethau, gan gynnwys aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn sy'n canolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn - meddu ar waith da'n lleol, gyda ffocws ar y rhai sydd fwyaf dan anfantais ac mewn perygl o ddiweithdra, gan eu helpu i ganfod gwaith a pharhau mewn gwaith da fel rhan o ddatblygu economi gynaliadwy leol sy'n ffynnu.
- Rhoi mwy o fywyd yn ein blynyddoedd hwyrach - heneiddio'n dda - drwy baratoi pobl mewn gwaith wrth iddynt ddod at oed ymddeol i ystyried sut maent yn bwriadu bod yn annibynnol ac yn hunangynhaliol yn y dyfodol fel rhan o'u hiechyd a'u lles yn y tymor hir
- Gwerthfawrogi ein hisadeiledd gwyrdd a'i gyfraniad i'n lles - drwy gysylltu ein gweithlu ag asedau naturiol yn lleol gan gynnwys yr amgylchedd naturiol gwyrdd a glas, fel rhan o ymagwedd gyfannol at les drwy waith a allai arwain at greu cyfleoedd busnes a mwy o gyflogaeth leol.


- Mynd i'r afael ag eithrio digidol - daeth Adolygiad Seneddol o ddatblygiadau yn yr economi ddigidol i'r casgliad yn y dyfodol bydd angen llythrennedd ddigidol ar gyfer bron pob swydd gyda chyfran sylweddol o swyddi'n galw am sgiliau digidol uwch. Yn ogystal â sicrhau bod y gweithlu presennol ac yn y dyfodol yn gallu datblygu sgiliau sy'n galluogi cynnal eu sefydliadau a bod yn gystadleuol yn y dyfodol, bydd ymdrin â sgiliau digidol ein gweithlu'n galluogi ein gweithwyr i ddefnyddio manteision ehangach y rhyngrwyd a'u defnyddio yn eu bywydau personol, wrth sicrhau bod pobl yn gallu diogelu eu hunain pan fyddant ar-lein.

**Amcan 5: Gwerthfawrogi ein hisadeiledd gwyrdd a'r cyfraniad mae'n ei wneud at ein lles**

| Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol | Y cyfraniad a wneir gan yr amcan hwn at bob nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Mae mannau gwyrdd yn elfen hanfodol o gymdeithas carbon isel, gan ddarparu'r adnoddau naturiol rydym oll yn dibynnu arnynt am ein hansawdd bywyd.  Gall mannau gwyrdd a glas ddenu twristiaeth a buddsoddiad i'r ardal. |
| **Cymru gydnerth** | Mae isadeiledd gwyrdd (IG) yn hanfodol i'n helpu ni a'n hamgylchoedd i addasu ac ymateb i'r heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol drwy gynyddu gwydnwch ein hecosystemau.  Mae IG yn ein helpu i deimlo mwy o gysylltiad â'r byd naturiol a gall ein hannog i fyw bywydau mwy cynaliadwy. |
| **Cymru iachach** | Mae ardaloedd â mannau gwyrdd mwy hygyrch yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl a chorfforol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Dengys tystiolaeth y gall fod llai o anghydraddoldeb cymdeithasol economaidd ym maes iechyd mewn lleoedd â gwell mynediad i fannau gwyrdd o'i gymharu â'r lleoedd hynny lle ceir gwaeth mynediad i fannau gwyrdd. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae mannau gwyrdd ar gyfer cymdeithasu, rhyngweithio a digwyddiadau yn gwella cydlyniant cymunedol a chysylltiadau cymdeithasol, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae mannau gwyrdd yn elfen bwysig o gysylltiad â lle a hunaniaeth bersonol. |

| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Drwy ofalu am ein hamgylchedd a'r amrywiaeth o adnoddau naturiol, rydym hefyd yn parchu'r amgylchedd byd-eang |
|---|---|

**Yr hyn a ddysgwyd o'r Asesiad Lles:**




- Mae coetir yn gorchuddio rhan helaeth o Gastell-nedd Port Talbot (oddeutu 30%);
- Mae'r amgylchedd naturiol o safon hefyd yn atyniad arwyddocaol i ymwelwyr. Yn 2015, ymwelodd 2 filiwn o dwristiaid â'r Fwrdeistref Sirol, gan ymweld ag asedau naturiol fel canolfannau llwybrau beicio mynydd, glân môr Aberafan, Parc Margam a 'Gwlad y Sgydau' Gwnaeth yr asedau hyn greu £110 miliwn ar gyfer yr economi leol a chynyddu'r swyddi lleol 8.4%  (adroddiad STEAM 2015);
- Nid yw ychydig dan hanner y cyrff dŵr yn y fwrdeistref sirol yn bodloni'r safon ansawdd Ewropeaidd ofynnol.  Yn ogystal â materion etifeddiaeth o ddiwydiannaeth y gorffennol, mae twf trefoli'n gosod mwy o bwysau ar yr amgylchedd dŵr;
- Mae bioamrywiaeth (bywyd planhigion ac anifeiliaid) dan fygythiad o amrywiaeth o broblemau, ond yr hyn sy'n gyfrifol am y pwysau mwyaf yw newid yn yr hinsawdd ac amaethyddiaeth; ac
- Mae ansawdd aer ym Mhort Talbot wedi dangos gwelliannau sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf ond ceisir mwy o welliannau.

**Os nad oes unrhyw beth yn newid:**

Rydym yn gwybod o'n Hasesiad Lles fod llawer i'w wneud o hyd, er ein bod wedi gweld gwelliannau sylweddol yng nghyflwr ein hamgylchedd naturiol yn ystod y degawdau diwethaf. Bydd llawer o oblygiadau i'n lles amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol os nad ydym yn gweithredu. Er enghraifft:

- Bydd ansawdd aer yn parhau i fod yn broblem, gan effeithio ar ein hansawdd bywyd a'n hiechyd, yn enwedig grwpiau diamddiffyn;
- Llai o fannau gwyrdd hygyrch ar gyfer hamddena a chadw'n heini a fydd wedyn yn effeithio ar ein lles corfforol ac emosiynol;
- Bydd ansawdd dŵr ein hafonydd a'n traethau'n gwaethygu;
- Bydd ein cymunedau'n llai deniadol;
- Ni chaiff cyfleoedd twristiaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol eu gwireddu'n llawn a byddant yn lleihau yn y tymor hwy;
- Gall y sir fod yn llai deniadol ar gyfer buddsoddiad gan fusnesau;
- Bydd pobl yn colli cysylltiad â'u treftadaeth naturiol a gallant fod yn llai awyddus i'w chynnal yn weithredol;
- Llai o gyfleoedd hyfforddiant ac addysg;
- Gallem ddibynnu mwy ar opsiynau drutach a llai effeithiol yn hytrach nag atebion naturiol;
- Bydd bioamrywiaeth yn parhau i waethygu;
- Bydd dulliau lliniaru newid yn yr hinsawdd dan fygythiad gan y bydd llai o Isadeiledd Gwyrdd i gymryd ein hallyriadau carbon; a
- Byddwn yn llai gwydn i effeithiau newid yn yr hinsawdd, h.y. digwyddiadau tywydd mwy eithafol a llai rhagweladwy.

**Pam mae'r amcan lles hwn yn bwysig?**

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn diffinio isadeiledd gwyrdd, neu IG fel y caiff ei dalfyrru'n aml, fel:
***"... defnyddio ecosystemau, mannau gwyrdd a dŵr wrth gynllunio defnydd tir yn strategol i gyflwyno buddion amgylcheddol ac ansawdd bywyd."***
Mae IG yn cyfeirio at strwythur, lleoliad, cysylltedd a mathau o fannau gwyrdd (a glas, h.y. dŵr) ar y cyd, gan gynnwys parciau, mannau agored, caeau chwarae, coetiroedd, gwlyptiroedd, ymylon ffyrdd, rhandai a gerddi preifat. Mae'r rhwydwaith byw hwn yn diffinio ac yn siapio cymeriad lle, ond mae hefyd yn darparu buddion niferus ar gyfer ein hiechyd a'n lles. O ganlyniad, mae cynnal IG iach yn hanfodol er mwyn i ni gyflawni'r amcanion lles eraill a nodir yn y cynllun hwn ac, yn aml, gall fod yn ffordd gost-effeithiol o fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu.

At ddibenion y cynllun lles hwn, byddwn yn ystyried bod IG yn cynnwys amgylchedd ehangach y sir; ei aer, ei dir, ei ddŵr a'i fywyd gwyllt.

Rydym wedi cyfeirio at yr amcan hwn fel un trawsbynciol. Mae hyn yn golygu ei fod yn cynnal ac yn cefnogi'r amcanion lles eraill. Mae'n gwneud hyn mewn termau cyffredinol, e.e. drwy annog ffyrdd iachach a mwy actif o fyw – mae mannau gwyrdd yn gwneud cyfraniad pwysig at wella lles corfforol a meddyliol unigolion, gan gefnogi gwydnwch personol ac emosiynol. Yn ôl y dystiolaeth, mae'r rhai sy'n byw yn agosach at fan gwyrdd yn fwy tebygol o'i ddefnyddio a'i ddefnyddio'n amlach.  Ar lefel y boblogaeth, mae dod i gysylltiad yn amlach ag amgylchoedd naturiol yn gysylltiedig â chyfraddau llai o farwolaethau, diabetes math 2, clefydau cardiofasgwlaidd a resbiradol. Mae pobl sy'n mynd allan i'r awyr agored yn dweud bod ganddynt well teimladau lles a theimladau straen a phryder is na'r rhai sy'n gwneud yr un ymarfer corff dan do. Mae lefelau hunan-barch yn llawer gwell ac mae teimladau o ddicter, dryswch, iselder a thyndra'n gwella'n sylweddol ar ôl gweithgarwch yn yr awyr agored.

**Datblygu'r amcan lles trawsbynciol hwn**

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Lles drafft yn gadarnhaol ac roeddent yn atgyfnerthu'r adborth blaenorol i'r Asesiad Lles – mae'r coedwigoedd, y parciau, yr afonydd, yr arfordir a'r mannau naturiol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan bobl a chymunedau ac maent yn chwarae rhan hanfodol yn lles pobl a chymunedau. Mae dyhead i warchod, cynnal a gwella'r asedau hyn fel y gallant barhau i ddarparu buddion naturiol i'r rheiny sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal. Hefyd, mae angen i ecosystemau fod yn gadarn ac o ansawdd uchel yn eu rhinwedd eu hunain ac nid i ddarparu buddion i bobl yn unig.

Yn fwy penodol, nodwyd na ddylai'n defnydd o'r term 'isadeiledd gwyrdd' fod yn gyfyngol a dylai gwmpasu "ecosystemau" ehangach a'r amgylchedd naturiol yn fwy cyffredinol. Cwestiynwyd hefyd sut bydd y cynllun yn hyrwyddo gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwella cydnerthedd ecosystemau. Teimlwyd y dylai'r cynllun gynnwys camau gweithredu tuag at gyflwyno'r ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau. Ar thema debyg, cawsom ein hatgoffa y dylai gysylltu â chynlluniau eraill a fframweithiau cynllunio, yn enwedig y Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd pwyso cryf i gynnwys pobl wrth bennu a chyflwyno camau gweithredu, e.e. drwy wirfoddoli a gweithredu yn y gymuned a'r angen i adeiladu ar grwpiau a rhwydweithiau presennol – e.e. Partneriaeth Natur Leol ac aelodau etholedig.

Mae'n glir bod digon o gyfleoedd i adnoddau naturiol y sir gael eu rheoli mewn ffyrdd newydd i gyflwyno buddion ehangach, gan gynnwys buddion hamdden, corfforol ac iechyd meddwl. Ystyrir bod thema trawsbynciol IG yn arbennig o bwysig am ei bod yn cynnal y themâu lles eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Dengys adborth o'r gwaith i gynnwys y cyhoedd ar gyfer yr Asesiad Lles lleol fod y mannau gwyrdd a glas hyn yn werthfawr iawn i unigolion a chymunedau. Maent yn darparu buddion uniongyrchol i ni drwy gynnig lle i ymlacio, chwarae, gwneud gweithgareddau corfforol, dysgu a chysylltu â natur. Yn fwy na hyn, maent yn darparu toreth o fuddion eraill y mae ein bodolaeth a'n hansawdd bywyd yn dibynnu arnynt - o reoli'r hinsawdd i gynhyrchu bwyd, darpariaeth ynni, llai o berygl llifogydd a gwell ansawdd aer.

Mae gwaith i gynnwys y cyhoedd yn dangos bod IG yn bwysig i bobl:

- Mae'n darparu buddion trawsbynciol ar draws holl feysydd pwnc dadansoddi ymatebion a'r holl nodau llesiant;
- Mae mannau gwyrdd Castell-nedd Port Talbot yn ased enfawr - prin yw'r lleoedd sydd ag asedau o'r fath - ac mae llawer o'r tir dan berchnogaeth gyhoeddus. Mae'r potensial i wella lles yn sylweddol;
- Mae mannau gwyrdd yn darparu ffordd gost-effeithiol o wella iechyd meddwl a chorfforol pawb yn CNPT;
- Mae rhwydwaith o IG yn hanfodol i'n helpu i addasu ac ymateb i'r heriau a wynebwn yn y dyfodol, gan ein helpu i fod yn fwy gwydn;
- Mae IG yn elfen hanfodol o ddylunio lleoedd yn dda. Mae'n galluogi teithio llesol a mwy o gydlyniant cymunedol ac yn annog mewnfuddsoddi; ac
- Os bydd mesurau cyni'n parhau, yna mae mannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd dan fygythiad heb ffynonellau ariannu amgen.

**Statws Presennol:**

Er bod yr isadeiledd gwyrdd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ased sylweddol i'r sir, mae'r adnoddau naturiol hyn yn wynebu pwysau amrywiol, e.e. o arferion amaethyddol, diwydiant, datblygiad a newid yn yr hinsawdd, yn ogystal â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol fel gadael baw cŵn, beicio/gyrru cerbydau oddi ar y ffordd, cynnau tanau gwyllt, gollwng sbwriel a thipio anghyfreithlon. Yn aml, nid yw'r asedau hyn yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol ac nid yw eu cyfraniad at les, ynghyd â'r potensial i gyflwyno buddion gwell yn y dyfodol, yn cael ei gydnabod. Heb gydnabyddiaeth ddigonol, mae perygl na fydd yr asedau hyn yn cael eu gwarchod fel sydd angen nac yn derbyn y buddsoddiad gofynnol a/neu'n cael eu rheoli'n ansensitif.

**Cyfleoedd allweddol**

Mae enghreifftiau niferus o brosiectau/fentrau presennol a rhai blaenorol yn gweithio gyda'n hadnoddau naturiol i gyflwyno lles. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi tueddu i fod yn brosiectau/fentrau peilot neu'n rhai a ariennir am dymor byr. Mae yna felly fudd enfawr o weithio mewn ffyrdd newydd a chyda mwy o ymdrech ar y cyd i ymdrin ag amcanion cyffredin, cynnwys pobl yn fwy a rhoi ymyriadau tymor hwy ar waith sy'n canolbwyntio ar atal wrth ddarparu a defnyddio IG.

Mae angen i ni fabwysiadu ymagwedd wahanol at yr adnodd hwn, un sy'n ystyried y darlun cyfan ac yn deall sut mae amgylchedd iach a chadarn yn cefnogi ffyniant economaidd a chymdeithasol. Bydd yn rhaid i'r broses ymwneud ag uno pethau a datblygu atebion ar y cyd a chanolbwyntio ar ymagweddau newid ymddygiad at annog cymunedau i ddefnyddio mannau gwyrdd.

**Cadernid amgylcheddol a chymunedol:** Mae cyfle i ailgysylltu cynefinoedd a gwella cysylltedd ar gyfer gwydnwch pobl a byd natur. Mae cynnwys pobl a chymunedau yn eu mannau gwyrdd lleol yn allweddol - er enghraifft, mae prosiect Gweithio gyda Natur CNPT yn darparu buddion iechyd a lles i'w gyfranogwyr, wrth wella ansawdd mannau gwyrdd lleol. Bydd gwella'r ddarpariaeth mannau gwyrdd a chysylltedd hefyd yn ein galluogi i addasu a gwella'n gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol (e.e. perygl llifogydd, coed yn darparu cysgod/oeri'r aer mewn ardaloedd trefol), e.e. Dyluniad Trefol sy'n Ystyriol o Anghenion Dŵr yn Llanelli.

**Adfywio gyda ffocws ar yr amgylchedd:** Mae Castell-nedd wedi elwa o waith adfywio helaeth yn ddiweddar, (e.e. Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid) ac mae mwy ar y gweill. Mae angen cynnwys IG ac ystyriaethau cynaladwyedd yn y fath brosiectau i wneud yr ardal yn lle deniadol i fyw a gweithio yn ogystal â gwneud y gorau o'r buddion i bobl a bywyd gwyllt.

Partneriaeth Coedwig Afan – Mae grŵp wedi'i greu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn adolygu'r cyfleoedd ym Mharc Coedwig Afan fel cyrchfan i ymwelwyr.

**Defnyddio'r amgylchedd ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol:** Mae pobl yn iachach ac yn hapusach os oes ganddynt gysylltiad â natur. Mae potensial na fanteisiwyd arno i gysylltu'r adnodd mannau gwyrdd â gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol a datblygiad cymunedol - gan greu cysylltiadau a dolenni systemig rhwng y rhai sy'n rheoli mannau gwyrdd a/neu ddarparwyr gweithgareddau awyr agored, a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl a fyddai'n elwa fwyaf o dreulio amser yn yr awyr agored. Mae defnyddio mannau gwyrdd yn elfen bwysig o ragnodi cymdeithasol, fel sy'n digwydd mewn mannau eraill yng Nghymru a'r DU (er enghraifft, y Prosiect Coed Actif a gynhelir gan Coed Lleol). Mae tystiolaeth bod y manteision a geir o wario ar "wasanaethau parciau" yn sylweddol (yn bennaf o ran buddion iechyd ac arbedion cyfatebol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd) ac felly mae cyfleoedd ar gael ar gyfer gwaith partneriaeth er mwyn cyfeirio strategaethau rheoli parciau i dargedu buddiolwyr yn well.

## Y camau y byddwn yn eu cymryd

Er mwyn gwireddu'r cyfleoedd hyn, bydd rhaid i ni gyflawni nifer o gamau ymchwiliol yn gyntaf:
Sefydlu Gweithgor Isadeiledd Gwyrdd i gynnwys partïon perthnasol y mae ganddynt rôl wrth ddarparu a rheoli mannau gwyrdd (e.e. Tîm Cefn Gwlad CNPT, y Tîm Datblygu Economaidd/Adfywio, y Tîm Datblygu Cynllunio, Ystadau) yn ogystal â chynrychiolwyr yr asedau hynny, e.e. y Bwrdd Iechyd Lleol, rhagnodwyr lleol, buddiannau hamdden). Dyma fydd y camau gweithredu allweddol ar gyfer y grŵp:

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | **Mapio Cyfleoedd IG a Chyflwyniad Aml-raddfa**<br><br>Cyflwyno prosiect cydweithio trawsffiniol gyda thair ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n treialu amrywiaeth o ymagweddau lleol at ddatblygu sylfaen dystiolaeth IG i lywio cyflwyniad IG. Creu sylfaen dystiolaeth a fydd yn cefnogi dealltwriaeth well ar draws sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chymunedau lleol am gyfleoedd a chyfyngiadau o ran opsiynau cyflwyno ar y tir. Hwyluso cyflwyniad mentrau IG mewn ardaloedd a chymunedau blaenoriaeth.<br><br>Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar Bort Talbot a byddwn yn defnyddio'r dysgu hwn i ehangu i ardaloedd eraill yng Nghastell-nedd Port Talbot. | Cynghorau CNPT, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a PABM | Cyflwynir y prosiect yn ystod<br><br>2018-2019 |
| 2 | Deall faint o asedau a geir ar hyn o bryd a'u cyflwr, gan gynnwys, er enghraifft:<br><br>a. Mapio'r asedau a geir ar hyn o bryd - adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i gwblhau'n barod ar gyfer y Cynllun | Grŵp thema isadeiledd gwyrdd | Ch1 a Ch2 2018-2019 |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Datblygu Lleol (CDLl) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA).<br>b. Adolygu yn erbyn ffactorau cymdeithasol-economaidd (e.e. defnyddio'r pecyn cymorth yn dda ar gyfer pobl) i nodi meysydd posib ar gyfer sylw a buddsoddiad yn y dyfodol. | | |
| 3 | Adolygu cyfleoedd ar gyfer datblygu'r sylfaen asedau:<br>a. Deall datblygiad yn y dyfodol a gynigir gan y sector cyhoeddus a phreifat yn y sir.<br>b. Chwilio am gyfleoedd i reoli'r ystâd gyhoeddus yn well.<br>c. Ôl-osod Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS), coridorau gwyrdd, llwybrau teithio llesol, gerddi cymunedol, plannu coed i fynd i'r afael ag ansawdd aer etc. | Grŵp thema isadeiledd gwyrdd | 2018 - 2019 |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 3 | Hyrwyddo'r amryfal fuddion o ddefnyddio'n hasedau i gyflawni amcanion lles y BGC, gan gynnwys, er enghraifft:<br>a. Gwerthuso gwaith y presennol a'r gorffennol o ran defnyddio mannau gwyrdd i ddeall yr hyn sy'n digwydd eisoes/wedi gweithio'n dda etc.<br>b. Datblygu pecyn cymorth er mwyn cynnwys y gymuned (adeiladu ar gam gweithredu 3)<br>c. Nodi rhwystrau i ddefnyddio mannau gwyrdd. | Grŵp thema isadeiledd gwyrdd | 2018-2019 |

**Mesur cynnydd:**

| Dangosyddion yn y fwrdeistref sirol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Lefelau o nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer (Dangosydd Cenedlaethol 4) |
| Swm (mewn MW) o gyfarpar ynni adnewyddadwy wedi'i osod (Dangosydd Cenedlaethol 12) |
| Crynodiadau o ddeunydd carbon ac organig mewn pridd (Dangosydd Cenedlaethol 13) |
| Ôl-troed ecolegol Castell-nedd Port Talbot (Dangosydd Cenedlaethol 14) |

| Dangosyddion yn y fwrdeistref sirol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Swm y gwastraff a gynhyrchir nad yw'n cael ei ailgylchu, fesul person (Dangosydd Cenedlaethol 15) |
| Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) mewn perygl canolig neu uchel o lifogydd o afonydd a'r môr (Dangosydd Cenedlaethol 32) |
| Canran yr aneddiadau â pherfformiad ynni digonol (Dangosydd Cenedlaethol 33) |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghastell-nedd Port Talbot (Dangosydd Cenedlaethol 41) |
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang (Dangosydd Cenedlaethol 42) |
| Ardaloedd ag ecosystemau iach (Dangosydd Cenedlaethol 43) |
| Statws amrywiaeth biolegol yng Nghymru (Dangosydd Cenedlaethol 44) |
| Canran y cyrff dŵr wyneb a chyrff dŵr daear sy'n cyflawni statws cyffredinol da neu uchel (Dangosydd Cenedlaethol 45) |
| Adenillion cymdeithasol ar Bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu hwnt i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (Dangosydd Cenedlaethol 46) |

**Cysylltiadau â'r amcanion eraill**

- Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant sydd mewn perygl o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod - mae treulio amser mewn mannau gwyrdd yn ystod beichiogrwydd yn gysylltiedig â gwell iechyd i famau a chanlyniadau beichiogrwydd, megis pwysau geni iach. Yn y blynyddoedd cynnar, mae mannau gwyrdd yn caniatáu ar gyfer chwarae naturiol a chreadigol, ac yn galluogi plant i ddysgu cymryd risgiau a mabwysiadu ffyrdd iach/actif o fyw sy'n parhau pan fyddant yn oedolion. Mae treulio amser mewn mannau

naturiol, hamddenol yn yr awyr agored yn gallu helpu i liniaru effeithiau profiadau andwyol yn ystod plentyndod.


- Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn, sy'n canolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn – mae IG yn elfen allweddol o ddylunio lleoedd yn dda, gan ganiatáu ar gyfer teithio llesol, cydlyniant cymunedol gwell a llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol; awgryma'r dystiolaeth fod lefelau is o droseddu mewn ardaloedd preswyl sydd â mwy o fannau gwyrdd. Fodd bynnag, mae mannau gwyrdd na chânt eu cynnal yn dda yn cyfrannu at deimlad o fod yn agored i niwed ac ofn troseddau. Dengys tystiolaeth hefyd y gall fod llai o anghydraddoldeb cymdeithasol-economaidd ym maes iechyd mewn lleoedd â gwell mynediad i fannau gwyrdd o'i gymharu â'r lleoedd hynny lle ceir gwaeth mynediad i fannau gwyrdd. Gall IG hefyd gyfrannu at gymunedau mwy cydnerth - gall coed a mannau gwyrdd leihau llygredd sŵn niweidiol/cyfrannu at lonyddwch trefol, lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â straen gwres, lliniaru peryglon llifogydd a chynyddu cysylltedd a chyflwr ecosystemau, gan wella gwydnwch i amodau newidiol.
- Annog heneiddio'n dda – mae mannau naturiol hygyrch yn darparu'r cyfle i bobl fod yn actif yn yr awyr agored a gall helpu i fynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol. Gall cynnwys y gymuned yn fwy wrth ddefnyddio a rheoli'r mannau hyn wella cydlyniant cymunedol a chyfleoedd i rannu gwybodaeth rhwng cenedlaethau yn ogystal â datblygu sgiliau.
- Hyrwyddo lles yn y gweithle – gellir defnyddio isadeiledd gwyrdd i greu amgylcheddau atyniadol ac ysgogol yn y gweithle; gellir annog staff i gymryd rhan wrth ddatblygu a chynnal a chadw'r ardaloedd hyn yn ogystal â gweithgareddau gwirfoddoli ehangach. Mae rheoli IG hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, datblygu sgiliau a dysgu. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd swyddi newydd ar gyfer y sectorau hynny sy'n dibynnu ar yr amgylchedd, e.e. twristiaeth a hamdden.
- Mynd i'r afael ag eithrio digidol – mae'r rhyngrwyd yn darparu cyfleoedd newydd i gynyddu cyfranogiad. Er enghraifft, trwy gyfleusterau fel "mapio fy nhaith gerdded/feicio" neu rannu lluniau o leoedd ar draws y fwrdeistref sirol. Mae cyfleoedd hefyd i addysgu a hysbysu mwy o bobl am fuddion a phwysigrwydd gwarchod a datblygu ein hamgylchedd naturiol gan ddefnyddio technoleg yn ofalus i gyfyngu ar ein hôl-troed carbon.

## Amcan 6: Mynd i'r afael ag eithrio digidol

| Y Saith Nod Llesiant Cenedlaethol | Y cyfraniad a wneir gan yr amcan hwn at bob nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cadarnha tystiolaeth y bydd swyddi yn y dyfodol yn gofyn am lythrennedd digidol fel isafswm a lefelau uwch o gymhwysedd digidol ar gyfer llawer o swyddi eraill. Er mwyn i'r DU, Cymru a Chastell-nedd Port Talbot barhau i fod yn gystadleuol mewn economi fyd-eang, mae'n hanfodol ein bod yn fwy parod i ddefnyddio a datblygu diwydiannau, cynnyrch a marchnadoedd newydd gan ddefnyddio technolegau digidol. |
| **Cymru gydnerth** | Mae'r rhyngrwyd wedi agor mynediad i bob un ohonom i gyfleoedd gwell ac ehangach i wybodaeth ac addysg. Bydd pobl sydd ar-lein mewn sefyllfa well i ddeall y cyfleoedd cyfoethog ar draws y fwrdeistref sirol i gymryd rhan yn yr amgylchedd naturiol i gefnogi eu lles a deall sut gallant gyfrannu at warchod a datblygu ein hasedau amgylcheddol am genedlaethau i ddod. Gall datblygu technolegau mewn ffordd wybodus hefyd leihau ein hôl-troed carbon. |
| **Cymru iachach** | Yn ogystal â chael mynediad i ystod eang o adnoddau gwella iechyd sydd ar gael ar-lein, mae nifer cynyddol o ddatblygiadau technolegol sy'n gallu agor mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd â thechnolegau cynorthwyol sy'n gallu helpu i fonitro a diwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol a nodwyd. Mae gan dechnoleg y potensial i bobl gymryd mwy o berchnogaeth dros eu data iechyd a gofal cymdeithasol eu hunain a chyfranogi'n fwy mewn cynlluniau gofal a thriniaeth. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mae eithrio digidol yn dwysáu'r anfantais y mae llawer o bobl yn ein cymunedau'n ei wynebu – yn enwedig y rheiny nad ydynt mewn cyflogaeth; |

| | |
|---|---|
| | pobl hŷn; pobl ag iechyd meddyliol a chorfforol gwael; pobl ag anableddau; y rheiny ar incwm isel. Bydd mynd i'r afael ag eithrio digidol yn cyfrannu at leihau'r bwlch yn lles y rheiny sydd fwyaf breintiedig a lleiaf breintiedig. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae'r rhyngrwyd yn darparu cyfleoedd newydd i gysylltu pobl mewn cymunedau a rhyngddynt. Gall helpu i fynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigedd cymdeithasol yn ogystal â galluogi pobl i gyrchu adnoddau addysgol sy'n gallu helpu i esbonio'r buddion y gall pobl o gefndiroedd gwahanol eu cyfrannu at fywyd cymunedol. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Gall technoleg gefnogi cadwraeth elfennau pwysig o'n diwylliant a'n treftadaeth Gymreig, drwy rannu straeon; lluniau; llenyddiaeth, y celfyddydau'n fwy cyffredinol a'n hiaith. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Mae'r rhyngrwyd wedi trawsnewid y ffordd y gallwn gysylltu ar draws y byd. Bydd mynd i'r afael ag eithrio digidol yn golygu y bydd gan bawb y cyfle i gymryd rhan yn y gymuned fyd-eang. |

## Yr hyn a ddysgwyd o'r Asesiad Lles




- Erbyn 2020, bydd gan ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot fynediad i fand-eang cyflym iawn a bydd gan 50% o ddinasyddion a busnesau fynediad i fand-eang gwibgyswllt;
- Mae twf rhagamcanol yn swm ac amrywiaeth y troseddau a gaiff eu cyflawni ar-lein ac angen cyfatebol i bobl gael eu paratoi'n well i aros yn ddiogel ar-lein;
- Bydd cysylltiadau rhyngrwyd yn symud y tu hwnt i ddyfeisiau traddodiadol. Mae dadansoddwyr diwydiant yn amcangyfrif y bydd nifer y dyfeisiau neu'r gwrthrychau cysylltiedig yn cynyddu o 14 biliwn i gynifer â 100 biliwn o bosib erbyn 2020;
- Mae cwsmeriaid a busnesau yn mynnu amrywiaeth o swyddogaethau gwahanol (llais, fideo etc)
- Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn seiliedig ar gyfleoedd ar y rhyngrwyd i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth o safon ar draws y rhanbarth; ac
- Nid oes gan oddeutu 1 ym mhob 5 person fynediad i'r rhyngrwyd ac ychydig dros 40% o aelwydydd sy'n manteisio ar fand-eang cyflym iawn (2016-2017).

## Os nad oes unrhyw beth yn newid

- Heb fynd i'r afael â gallu digidol, bydd natur gystadleuol a chynhyrchedd Castell-nedd Port Talbot a'r busnesau a'r sefydliadau sy'n gweithredu yn y fwrdeistref sirol yn lleihau ac ni fydd cyfleoedd i ddefnyddio cynnyrch a diwydiannau newydd yn cael eu gwireddu;
- Bydd eithrio digidol yn dod yn ffactor mwyfwy sylweddol a fydd yn rhwystro gwaith arall i leihau anghydraddoldebau rhwng pobl a chymunedau; ac
- Ni chaiff cyfleoedd i drawsnewid cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio'n llawn.

**Pam mae'r amcan lles hwn yn bwysig?**

- Dengys tystiolaeth fod llythrennedd digidol yn sgil hanfodol sy'n galluogi pobl i gymryd rhan lawn yn y byd modern. Mae sgiliau digidol yn galluogi pobl i gael mynediad i ddysgu a chyfleoedd swyddi; rheoli, gwneud ac arbed arian; a gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol;
- Byddai buddsoddi mewn sgiliau digidol yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus i symud gwasanaethau defnydd uchel i'r rhyngrwyd gan leihau cost gwasanaethau cyhoeddus ac ysgogi arloesedd wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus trwy fewnwelediad gwell gan ddinasyddion;
- Mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau wedi nodi, os na fyddwn yn gweithredu, y bydd diffyg o ran sgiliau digidol addas yn y farchnad lafur ac y bydd y DU yn llithro'n fwy yn ei safle cymharol gyda gwledydd pwysig eraill;
- Bydd buddsoddi mewn sgiliau digidol yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi gyda'r sector "technoleg" yn cynrychioli cyfran gynyddol o'r economi;
- Nid yw rhieni ac athrawon yn ddigon gwybodus i gefnogi plant gyda'u penderfyniadau am yrfa a datblygu sgiliau sy'n effeithio ar y cyflenwad o ymgeiswyr â sgiliau addas i farchnad lafur y dyfodol; ac
- Mae dros 70% o elusennau'n ystyried sgiliau digidol eu bwrdd i fod yn 'isel' neu 'gyda lle i wella' gyda'r bwlch mwyaf i'w weld mewn gweithgarwch codi arian. Mae tystiolaeth fod elusennau mawr yn dechrau mynd i'r afael â hyn, ond gallai hyn olygu y bydd elusennau llai yn cael trafferth i gynnal eu hunain mewn marchnad gynyddol gystadleuol.

**Datblygu'r amcan lles hwn**

Ymgymerwyd â gwaith ymchwil helaeth i broffil digidol Castell-nedd Port Talbot, tueddiadau dros amser, cyfleoedd a heriau, fel rhan o Radd Meistr. Amlygodd y gwaith hwn bwysigrwydd hanfodol sicrhau ymrwymiad i fynd i'r afael â chynhwysiad digidol fel blaenoriaeth drawsbynciol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;

- Sefydlwyd Grŵp Cynhwysiad Digidol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gydag aelodau o ystod eang o asiantaethau o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol a chefnogwyd y gwaith hwn gan Dîm Cymunedau Digidol Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru;

- Nodwyd y rhwystrau i gynhwysiad digidol fel a ganlyn: argaeledd technoleg; fforddadwyedd technoleg; sgiliau a hyder; ymddiriedaeth.
- Ymgymerwyd â gwaith manwl i fapio argaeledd band-eang a chadarnhawyd nad yw argaeledd y dechnoleg yn debygol o fod yn rhwystr sylweddol i gynhwysiad digidol dros amser. Cadarnha Arolwg Cymru, er bod mwy o bobl ar-lein wrth i amser fynd heibio, mae craidd sylweddol o bobl o hyd sydd ddim ar-lein oherwydd fforddadwyedd, sgiliau a hyder.  Mae dibyniaeth wedi bod ar ymdrech wirfoddol i gefnogi pobl nad ydynt ar-lein, fodd bynnag, canfu ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd gan y Grŵp Cynhwysiad Digidol o sefydliadau'r sector gwirfoddol lleol fod angen i lawer o'r sefydliadau presennol amnewid eu hen dechnoleg; nad ydynt yn cael eu talu ddigon i gyflwyno hyfforddiant a chefnogaeth; nad oes ganddynt strategaethau digidol ar gyfer eu sefydliadau eu hunain sy'n creu risg ar gyfer cynaladwyedd yn y dyfodol. Mae ymchwil a wnaed gan yr un grŵp hefyd wedi amlygu twf esbonyddol mewn troseddu ar y rhyngrwyd, gan dynnu sylw at angen allweddol i sicrhau bod pobl yn gwybod sut i fod yn ddiogel ar-lein ac, wrth wneud hynny, berswadio'r rheiny nad ydynt yn ymddiried mewn technoleg i gyfranogi yn yr oes ddigidol.

### Y camau y byddwn yn eu cymryd

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn yn ein Grŵp Cynhwysiad Digidol drwy gymryd y camau canlynol:

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 1 | Cwblhau gwaith i fapio band-eang, band-eang cyflym iawn, band-eang gwibgyswllt ac isadeiledd technoleg symudol ar draws y fwrdeistref sirol | Cyngor Bwrdeistref Sirol CNPT | Medi 2018 |
| 2 | Cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu er mwyn ymdrin â chanfyddiadau arolwg digidol y trydydd sector | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol CNPT | Mehefin 2018 |

| Cyf. | Camau | Sefydliad/Partner Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| 3 | Sefydlu rôl Swyddog Datblygu i gynorthwyo wrth ymateb i'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o arolwg y trydydd sector | Cyngor Bwrdeistref Sirol CNPT | Mehefin 2018 |
| 4 | Lansio ymgyrch bod yn ddiogel ar-lein ar draws holl sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Heddlu De Cymru | Medi 2018 |
| 5 | Ymchwilio i ddichonoldeb gwneud gwaith ymchwil i sefydlu gallu'r sector BBaCh lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol CNPT | Medi 2018 |
| 6 | Parhau â gwaith i gynyddu sgiliau tenantiaid | Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Trwy 2018-19 |
| 7 | Ymrwymo i'r siarter cynhwysiad digidol a sicrhau bod anghenion dinasyddion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn cael sylw penodol yn strategaethau cynhwysiad digidol asiantaethau | Holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Mai 2019 |
| 8 | Ymrwymo i ddatblygu strategaeth sgiliau digidol i uwchsgilio gweithluoedd sefydliadau partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Mai 2019 |

## Mesur cynnydd

| Dangosyddion yn y fwrdeistref sirol y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Canran yr elusennau lleol sy'n adrodd bod eu sgiliau codi arian ar-lein yn dda/uchel |
| Canran yr elusennau lleol sy'n adrodd bod ganddynt strategaethau lleol ar waith |
| Canran y sefydliadau partner sydd â strategaethau sgiliau digidol ar waith |
| Canran y sefydliadau partner sydd wedi ymrwymo i'r siarter cynhwysiad digidol |
| Canran y sefydliadau partner sydd â strategaethau penodol i fynd i'r afael ag anghenion dinasyddion sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn eu strategaethau digidol |
| Canran y bobl yn y fwrdeistref sirol sy'n adrodd eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rheolaidd |

## Cysylltiadau â'r amcanion eraill

- Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant sydd mewn perygl o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod – rhoi sgiliau digidol i bobl a fydd yn helpu mwy o bobl i waith; galluogi pobl i hawlio budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt a galluogi rhieni i gefnogi plant a phobl ifanc yn eu haddysg;
- Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn sy'n canolbwyntio ar bobl ddiamddiffyn – bydd mynd i'r afael ag eithrio digidol yn lleihau'r bylchau rhwng y rheiny sydd â'r mwyaf a'r rheiny sydd â'r lleiaf yn ogystal â galluogi pobl i feithrin cysylltiadau newydd yn eu cymunedau eu hunain ac yn ehangach.
- Rhoi mwy o fywyd yn ein blynyddoedd hŷn/heneiddio'n dda – mae pobl hŷn yn llawer mwy tebygol o gael eu heithrio'n ddigidol. Fodd bynnag, gall y rhyngrwyd ddarparu ysgogiad gwybyddol pwysig; helpu i leddfu arwahanrwydd ac unigedd cymdeithasol; galluogi pobl i fod yn annibynnol am gyfnod hwy drwy gyrchu gwasanaethau ar-lein wrth iddynt ddod yn llai symudol; diogelu eu hunain yn well ar-lein yn erbyn y perygl o dwyll a throseddau eraill.

- Gwerthfawrogi ein hisadeiledd gwyrdd a'r cyfraniad mae'n ei wneud at ein lles – byddai sgiliau digidol yn galluogi mwy o bobl i rannu eu profiad o gyfranogi yn yr amgylchedd naturiol gan hefyd gael mynediad i wybodaeth newydd a dysgu am y bygythiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r asedau hyfryd sydd gennym ar garreg ein drws. Mae gan dechnoleg y potensial i gynorthwyo wrth leihau ein hôl troed carbon, gan warchod ein hamgylchedd ar gyfer sawl cenhedlaeth i ddod; a
- Lles trwy waith a'r gweithle – mae tystiolaeth sylweddol y bydd angen i'r rhan fwyaf o bobl fod o leiaf yn ddigidol llythrennog er mwyn gallu ymgymryd â rolau'n gymwys gyda nifer sylweddol a chynyddol o swyddi yn gofyn am lefel uwch o sgiliau digidol. Mae sicrhau bod gan y gweithlu sgiliau digidol hefyd yn ei alluogi i gefnogi ein cymuned ehangach i ryngweithio'n effeithiol mewn oes ddigidol a chymryd mantais o'r cyfleoedd newydd parhaus y mae technolegau digidol yn eu creu.







## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Cyflwyno'r Cynllun

Rhoddir y cynllun hwn ar waith drwy gyfres o raglenni, dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chyda chefnogaeth fframwaith rheoli perfformiad addas at y diben. Bydd Pwyllgor Craffu dynodedig y cyngor yn craffu ar waith y bwrdd gan ddal y bwrdd i gyfrif ar gyfer cyflwyno'r cynllun a gweithredu'r newidiadau rydym am eu gweld a fydd y gwella lles pobl Castell-nedd Port Talbot.

### Proses ddangos

Yn unol â gofynion y ddeddf, caiff adroddiad blynyddol ei lunio a'i gyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2019 fan bellaf yn dangos yr hyn y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod o fis Mai 2018 i fis Mai 2019. Bydd hefyd yn cynnwys mwy o fanylion am y gwaith y bydd y bwrdd yn bwriadu parhau ag ef dros y tymor canolig a hir a'r mesurau a ddefnyddir i werthuso cynnydd.

## Cysylltu â ni

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymrwymedig i ddod o hyd i ffyrdd newydd a mwy effeithiol o gynnwys pobl leol yn ei waith.

Hoffem glywed eich barn am ein Cynllun Lles. Os hoffech gyfrannu at ein gwaith neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer sut i wella lles pobl yng Nghastell-nedd Port Talbot, hoffem glywed gennych.

Anfonwch eich sylwadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ neu e-bostiwch **psb@npt.gov.uk**

Ewch i: **www.nptpsb.org.uk**

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras neu mewn fformat arall, ffoniwch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 01639 763677 neu e-bostiwch: **psb@npt.gov.uk**



**Atodiad A**

**04/10/2017 (drwy e-bost)**

**Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot**

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot a swyddogion cefnogi,

Diolch am geisio fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i fodloni eich amcanion lles drafft. Mae sgwrsio'n rheolaidd â'ch swyddogion cefnogi, mynd i weithdai'r BGC a chael y cyfle i fynd i gyfarfod eich Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) wedi bod yn fuddiol iawn i aelodau o'm tîm er mwyn rhoi dealltwriaeth iddynt o sut rydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel BGC; y dull rydych wedi'i ddefnyddio i gynllunio lles a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion a chymryd camau mewn ffordd wahanol. Fel y byddant wedi'i drafod â chi, roeddwn yn awyddus i'm cyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun rydych yn gweithio ynddo, felly gobeithiaf eich bod chi hefyd wedi cael budd o'r cysylltiadau rheolaidd hyn a'u bod wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Dros y 14 wythnos diwethaf, rydych wedi bod yn datblygu'r amcanion a'r themâu drafft canlynol a byddaf yn eu defnyddio fel sail i'm cyngor:

- (Amddiffyn/diogelu) Plant yn eu blynyddoedd cynnar yn enwedig plant sydd mewn perygl o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod.
- (Creu) Cymunedau diogel, hyderus a chadarn (gyda ffocws penodol ar bobl ddiamddiffyn).
- (Annog) Heneiddio'n dda.
- (Hyrwyddo) Lles drwy'r gweithle.

- Gyda blaenoriaeth drawsbynciol o: Gydnabod rôl isadeiledd gwyrdd a'i hyrwyddo er mwyn cefnogi lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pobl Castell-nedd Port Talbot.

Fel y gwyddoch, wrth osod yr amcanion drafft a chymryd camau i'w cyflawni, mae'n rhaid i BGC ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i herio busnes fel arfer a mwyafu eu cyfraniad at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae dwy ran i fy nghyngor – yn gyntaf, eich helpu i ystyried sut gallech wneud hyn yn effeithiol. Yn ail, yn seiliedig ar eich themâu a'ch amcanion drafft, bydd yn darparu sbardunau, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos, drwy eich cynllun lles, eich bod wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant i gyfeirio'ch camau. Nid mynegi fy marn ar eich amcanion lles yw diben y cyngor hwn. Chi sy'n pennu'r rhain ac yn berchen arnynt, fel BGC ar y cyd.

Byddwn yn eich annog i ddarllen hwn ar y cyd â'm hymateb i'ch asesiad lles. Rwyf yn awyddus i hyn fod yn ymarfer 'bwydo ymlaen' yn hytrach na 'bwydo'n ôl', gan eich helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio lles parhaus. Fel y gwyddoch, cyhoeddais 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio Heddiw ar gyfer Gwell Yfory' yn ddiweddar sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion allweddol ar gyfer pob BGC a chorff cyhoeddus ynglŷn â meysydd newid allweddol sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniadau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir i'r adnoddau hyn fod o gymorth i chi hefyd.

***Mabwysiadu ffyrdd gwahanol o weithio i gymryd camau i fodloni eich amcanion drafft:***

Nid yw pennu amcanion a chamau'n fusnes fel arfer. Yn y gorffennol, rydym wedi trafod themâu a blaenoriaethau ac wedi llunio cynlluniau sy'n dangos yr hyn rydym eisoes yn ei wneud. Mae cyflawni dyheadau'r ddeddf hon yn ymwneud â'r 'beth' a'r 'sut', h.y. beth ydych chi am ei wneud i gyfrannu at ein gweledigaeth a rennir o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn gweithio ynddi, y gymdeithas rydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau rydym yn eu rhannu, â phobl ac ansawdd eu bywydau, felly beth ydych chi am ei wneud yn

wahanol gyda'ch gilydd? A, sut mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn dylanwadu ar eich camau gweithredu ar gyfer Castell-nedd Port Talbot?

Mae addasu eich ffyrdd o weithio yn y modd hwn yn gofyn am ymagwedd wahanol. Mae Pensaernïaeth Dyfodol Cynaliadwy Academi Wales yn mynegi'n gryno sut mae angen newid ymddygiadau arweinyddiaeth. Gallech ddefnyddio'r fframwaith hwn i helpu i archwilio ymddygiadau'ch bwrdd eich hun a sut gallwch newid. Mae angen i chi roi amser a chyfle i chi'ch hunain fel BGC i gwestiynu a yw ymagweddau presennol at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol ac archwilio'r hyn sy'n achosi pwysau a thensiwn allweddol wrth gyflwyno'ch amcanion. Yn ymarferol, rwy'n cynghori BGC i gynnal cyfarfod penodol neu greu sesiynau er mwyn gallu trafod pob un o'ch amcanion drafft.

Rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn cynnal gweithdai i ddod â phobl ynghyd o ran datblygu camau i gyflawni'ch amcanion drafft. Mae angen i sesiynau tebyg yn y dyfodol ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel dull i herio'r ymagweddau a ddefnyddiwyd o'r blaen a'r saith nod llesiant fel fframwaith ar gyfer ystyried sut gallwch gael effaith ar sawl math gwahanol o les. Mae'n rhaid i'r sesiynau hyn, a rhai'r BGC, ganolbwyntio ar weithredu. Mae angen i gyfarfodydd fod yn fwy na thrafodaeth gwrtais os ydych am gymryd ymagwedd wahanol, gyda phartneriaid yn glir ar y camau gweithredu maent yn gyfrifol amdanynt, yr ymagwedd y byddwch yn ei chymryd gyda'ch gilydd a'r camau y byddwch yn eu cymryd i fodloni'ch amcanion a mwyafu cyfraniad i'r saith nod llesiant. Hoffwn ddeall yr hyn y mae pob amcan drafft a cham rydych yn ei osod yn ei olygu i Gastell-nedd Port Talbot a sut mae hyn yn ffordd wahanol iawn o weithio na'r hyn rydych wedi'i wneud o'r blaen.

***Byddwn yn awgrymu bod angen i chi ddangos sut mae eich BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â'ch holl amcanion:***

- **Tymor hir:** Beth ydych chi'n ei ddeall am y tueddiadau tymor hir, y cyfleoedd, y risgiau a'r sefyllfaoedd posib ar gyfer y mater hwn? Beth yw'r rhain ac a ydych chi wedi archwilio eu heffaith ar eich camau? A oes bylchau yn eich data neu'ch dealltwriaeth ar hyn o bryd? Pa wybodaeth am ragolygon neu dueddiadau yn y dyfodol y mae ei hangen arnoch er mwyn deall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd y mae

eu hangen arnoch i lenwi bylchau mewn gwybodaeth? Er mwyn llywio'r camau gweithredu rydych yn eu cymryd, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer eich holl amcanion. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i wella gallu yn y maes hwn a, fel y gwŷr eich tîm cefnogi, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol' y dylech wneud y defnydd mwyaf ohonynt drwy gael mynediad iddynt drwy Objective Connect neu drwy gysylltu â David Thomas. Mae'r adroddiad 'Now for the long-term' gan Ysgol Oxford Martin yn dangos tueddiadau byd-eang a chenedlaethol ar gyfer y dyfodol y mae angen i bob un ohonom ymateb iddynt wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn rydych yn ceisio ei atal? Pa achosion sydd wrth wraidd y mater a phryd a ble fyddai'r pwynt gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir o ran pa fath o ataliaeth sydd ei angen: ataliaeth sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth cyn iddo ddigwydd; ataliaeth eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu ataliaeth drydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth a chanddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed beic (sylfaenol - atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adfer os yw wedi cwympo oddi ar ei feic (eilaidd - atal niwed rhag gwaethygu) a chwnsela yn dilyn y ddamwain (trydyddol - helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Nid yw llawer o BGC wedi defnyddio'u hasesiadau i ddeall yn llwyr y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Rwy'n gwerthfawrogi efallai nad ydych yn gwybod yr hyn yw'r darlun cyfan eto, ond rwyf am weld pob BGC yn archwilio sut mae'n torri cylchredau ac yn ymchwilio'n ddyfnach i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg ynddo i ddeall achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol yn well er mwyn llywio'ch camau.

- **Cydweithio:** Rwyf hefyd yn falch o glywed eich bod yn ystyried y perthnasoedd gwahanol rhwng strwythurau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac yn ystyried lle gall fod angen yr ymyriadau mwyaf effeithiol er mwyn mynd i'r afael â'r materion rydych wedi'u nodi yn eich asesiad o les. Rwy'n cydnabod bod y broses hon yn

gymhleth, ond mae'n bwysig bod y bobl sy'n eistedd o amgylch bwrdd y BGC yn gallu cyfrannu'r ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data ac atebion i'r BGC. Oes gennych chi'r bobl gywir o amgylch y bwrdd ac ar y lefel gywir i wneud penderfyniadau ynghylch mater? Â phwy arall y gallai fod angen i chi gydweithio er mwyn deall hyn yn well? Fel yr wyf eisoes wedi argymell yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Lles, dyma gyfle amserol i adolygu aelodaeth wâdd y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y mae'n bosib y bydd angen i chi weithio gyda nhw i gyflawni eich amcanion.

Wrth gyflawni'r camau, sut gallai'ch sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau y mae angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cyflawni'ch amcanion yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys cydleoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau ac, yn bwysicaf oll, rhannu adnoddau. Byddaf am weld sut rydych wedi ystyried y buddion hyn a sut bydd y camau y byddwch yn eu cymryd yn eich helpu i gydweithio.

- **Integreiddio**: Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi am osgoi'r arfer o wneud rhywbeth sy'n bodloni'r amcan yn unig ac, yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n mwyafu eich cyfraniad at bob un o'r nodau? Rwy'n falch o glywed eich bod wedi dechrau ystyried y cysylltiadau rhwng eich amcanion yn eich trafodaethau er mwyn helpu i lywio'ch penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol a byddwn yn eich annog i wneud hyn yn fwriadol ac yn eglur. Yn hytrach nag edrych ar y mater hwn mewn modd traddodiadol a chyffredinol, ydych chi wedi edrych ar ddiffiniad pob un o'r nodau i ehangu'ch dealltwriaeth o les ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cyflawni'r nodau hyn drwy bob un o'ch amcanion? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad y mae eich sefydliad yn ei wneud i'r amcan hwn ar hyn o bryd? Ac ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad y bydd angen i chi ei wneud i'r amcan hwn wrth fynd ymlaen?

Sut gallwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn eich sefydliadau, y strategaethau a'r cynlluniau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, i gysylltu ac arwain gydag eraill ar gyflawni'r amcan hwn? Fel BGC, ydych chi wedi ystyried eto y rhwystrau neu'r tensiynau sydd wedi codi a pha gamau y gallwch chi (neu

eraill) eu cymryd i'w goresgyn? Pwy arall sydd ei angen o amgylch bwrdd y BGC i'ch helpu i gysylltu penderfyniadau a gwella lles ar gyfer y mater hwn?

- **Cynnwys:** Roedd eich asesiad lles yn cynnwys amrywiaeth eang o bobl. Rwyf nawr am weld ffocws amlwg gan bob BGC o fynd y tu hwnt i'r ymarferion ymgynghori ac ad-hoc arferol. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir sut mae preswylwyr yn cael eu cynnwys yn natblygiad eich amcanion lles a'r camau. Sut ydych chi'n ceisio deall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llywio'ch camau gweithredu? Sut ydych chi nawr yn mynd ati i chwilio am ffyrdd gwell o gynnwys pobl mewn penderfyniadau? Sut gallwch chi gydweithio ag aelodau o'r cyhoedd i ddilyn y camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa opsiynau sydd i gynnwys pobl gyda phrofiad o fywyd go iawn ar fyrddau ac mewn grwpiau partneriaeth?

Mae'ch swyddogion cefnogi wedi gweithio'n galed i'ch helpu i gyflawni'r lefel hon o gynnydd wrth asesu lles ar gyfer yr ardal, cyfuno'r dystiolaeth hon yn themâu lefel uchel a drafftio'ch amcanion a'ch camau, ond mae'n rhaid i mi bwysleisio mae'ch arweinyddiaeth chi sydd angen i fabwysiadu ffordd newydd o weithio. Rwy'n gwybod eich bod wedi defnyddio'r nodau i helpu i lunio'ch amcanion, ond maent hefyd yno i'ch helpu i archwilio'r tensiynau a'r cyfleoedd i gydweithio er mwyn cael gwasanaeth cyhoeddus gwell i Gymru.

Fel arweinwyr, rwy'n siŵr eich bod chi'n rhan o sawl strwythur, cyfarfod a menter bartneriaeth, ond mae'r BGC i fod yn gyfle ar gyfer integreiddio a chydweithio ar lefel uwch a dylanwadol. Er mwyn creu perchnogaeth a gweithredoedd ar y cyd yn y BGC, mae angen i chi feithrin dealltwriaeth a pharch tuag at broffesiynau'ch gilydd a dadlau'ch cymhellion. Argymhellais yn yr adroddiad 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio Heddiw ar gyfer Gwell Yfory' ei bod hi'n bwysig ein bod yn symud oddi wrth weld BGC fel byrddau a arweinir gan awdurdodau lleol – mae'n le i weithredu, nid i rannu cyflwyniadau diddorol. Dylai'r BGC ymwneud â ffordd newydd o weithio ac ni ddylai gael ei yrru gan ddiwylliant un sefydliad yn unig. Gall Cadeirydd y BGC, sut a phryd y cynhelir cyfarfodydd a sut y cefnogir y BGC, newid meddylfryd a chaniatáu her iachach i 'fusnes fel arfer'.

Mae'r gwaith arweinyddiaeth a phartneriaeth hwn yn treiddio trwy bob lefel o'ch sefydliadau sy'n aelodau. Mae cysondeb o ran cynrychiolaeth a sut rydych yn mynd â negeseuon yn ôl o'r BGC i'ch sefydliadau eich hunain yn hanfodol i feithrin perthnasoedd a gweithredu. Mae cyfleu pam mae gwaith y BGC yn bwysig i'ch uwch-dimau rheoli eich hunain a defnyddio'r cynllun lles i herio arferion presennol yn eich adrannau eich hunain yn hanfodol er mwyn creu'r newid mewn diwylliant rydych wedi'i amlygu mewn trafodaethau gyda fy nhîm. Mae gennyf rôl i nodi a lliniaru rhwystrau, ond mae gennych chi hefyd - fel uwch-arweinwyr - rôl i herio'ch rheolwyr i weithio'n wahanol a 'bod yn ddiogel i fethu'.

Ynghyd â hyn, bydd angen i chi hefyd ddangos sut mae pob sefydliad yn cymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i gyflawni amcanion y BGC. Rwy'n cydnabod yn ystod camau cyntaf gweithredu'r ddeddf y gall hyn fod yn heriol gan fod amcanion cyrff cyhoeddus unigol wedi'u gosod. Felly, er fy mod yn deall bod angen amser ar BGC a chyrff cyhoeddus i weithio tuag at gydlynu eu hamcanion, byddaf am weld nad yw gwaith y BGC yn cael ei ystyried fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau. Mae'n galonogol eich bod wedi cydnabod hyn a'ch bod yn sylweddoli bod angen i chi ddeall y bartneriaeth a'r trefniadau sefydliadol presennol er mwyn gwneud rhai newidiadau. Mae BGC eraill sy'n ceisio gwneud newid sefydliadol drwy eu hamcanion yn cynnwys Torfaen (sy'n edrych ar ddatblygiad sefydliadol yng nghyd-destun y ddeddf), Sir Benfro, Caerffili a Chaerdydd - efallai yr hoffech gysylltu â nhw'n uniongyrchol i rannu syniadau a dysgu.

Mae'n dilyn felly bod angen i bob un ohonoch, fel aelodau'r BGC, gydnabod cydlynu'r gwaith hwn. Mae gennyf ddiddordeb mewn sut caiff BGC gwahanol eu cefnogi ac mae'n ymddangos pan fydd cefnogaeth yn amlasiantaethol, gydag adnoddau priodol ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, daw cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau a strwythurau'n haws. Fel gyda meysydd eraill, erbyn hyn mae gennych swyddog rhanbarthol i gydlynu'r gwaith hwn sy'n gadarnhaol ond mae rhai BGC eisoes yn mabwysiadu trefniadau gweithio agosach, tîm rhithiol amlasiantaeth gydag uwch-arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chydleoli. Mae sawl adnodd a all fod o ddefnydd, megis Designing Multi-Agency Partnerships; Leading Culture Change a Stepping up: a framework for public sector leadership on sustainability. Bydd hyn yn gofyn eich bod chi, pobl mewn rolau arweinyddiaeth, yn chwarae eich rhan ac yn bod yn ddewr wrth ysgogi'r newidiadau y mae eu hangen.

Dylai pob BGC ystyried y cyngor hwn, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi cymryd ymagwedd wahanol at lunio ei amcanion lles ac yn cyflwyno ei gynllun lles yn y cyd-destun sy'n addas iddo. Mae ail ran fy nghyngor yn ceisio'ch helpu i ddangos, trwy'ch cynllun lles, eich bod wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio a'r saith nod llesiant i gyfeirio'ch camau.

***Cyngor ar sut gallech gymryd camau i gyflawni'ch amcanion drafft:***

O'r trafodaethau rheolaidd rydych wedi'u cael gyda fy nhîm, rwy'n gwybod bod eich swyddogion cefnogi wedi gweithio'n galed dros yr haf i ddadansoddi'ch canfyddiadau o'r asesiad, blaenoriaethu materion drwy drafod gyda chi a chynnwys eraill i gasglu gwybodaeth broffesiynol i lunio'ch amcanion a'ch camau. Diben y rhan hon o fy nghyngor yw rhoi syniadau, gwybodaeth a chysylltiadau i chi a allai helpu i ddangos sut rydych chi wedi ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd yng nghyd-destun Castell-nedd Port Talbot.

Byddwn yn eich annog i adeiladu ar ddatblygu rhyng-gysylltiadau rhwng y themâu a'r amcanion trwy gytuno ar eich camau a'u cyflwyno i fodloni'r amcanion hyn. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut mae'ch amcanion - yn unigol a chyda'i gilydd - yn mwyafu eu cyfraniad at y nodau llesiant ac nid yn gwneud cysylltiadau â nifer llai o'r nodau llesiant lle mae cyswllt clir ac uniongyrchol yn unig. Er enghraifft, ar hyn o bryd ni allaf weld cyfeiriad at wella lles economaidd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Sut bydd Prydain yn gadael yr UE yn effeithio ar raglenni cyllid? Pa gyfleoedd sydd ym Margen Ddinesig Bae Abertawe i wella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd y rhanbarth? Ar gyfer pob un o'ch amcanion, bydd angen i chi eu gosod yng nghyd-destun Castell-nedd Port Talbot yn hytrach na mewn termau cyffredin. Drwy archwilio cysylltiadau â'r nodau lles, byddwch yn cael darlun mwy cyfannol o'r mater rydych yn ceisio'i ddatrys ond, yn ogystal, gallwch gynyddu'r ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch eu defnyddio i'ch helpu i ddod o hyd i atebion.

- Cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar, yn enwedig plant mewn perygl o brofiadau andwyol yn ystod plentyndod.

Rydych wedi nodi, yn gywir, yn eich asesiad fod plant sy'n profi plentyndod anodd a llawn straen yn fwy tebygol o gael lles gwael yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r rhan fwyaf o BGC wedi llunio amcanion sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn a hoffwn ddeall, wrth gymryd camau i fodloni eu hamcan, beth sy'n mynd i newid ar bob lefel er mwyn cyflawni hyn? Sut bydd gwasanaethau ar gyfer darpar rieni a theuluoedd yn newid yng Nghastell-nedd Port Talbot i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant? Pa dystiolaeth leol fyddwch chi'n ei defnyddio i ddeall y modelau gwasanaeth llwyddiannus a'r ymyriadau ataliol sy'n gweithio? Sut byddai canolbwyntio ar atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) fel BGC yn gweithio mewn gwirionedd ar gyfer eich sefydliadau a'ch gwasanaethau? Pwy allai fod angen i chi ei gynnwys i ddeall hyn yn well? Pwy sydd angen bod o amgylch y bwrdd i weithredu hyn?

Ydych chi wedi ystyried tueddiadau tymor hir yr amcan hwn? Byddai'r sefyllfaoedd cymdeithasol-economaidd cymhleth mewn llawer o gymunedau yng Nghymru yn awgrymu nad yw teuluoedd yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir a bod cylchoedd yn parhau i'r genhedlaeth nesaf. Mae costau'r dechrau gwaethaf mewn bywyd yn anferthol, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus.  Amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrryd hwyr i bobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr (£6 biliwn ar ddiogelu ac amddiffyn plant, £5.2 biliwn ar drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7 biliwn ar anweithgarwch economaidd ieuenctid, £680 miliwn ar absenoldebau ysgol a gwaharddiadau, £610 miliwn ar anafiadau a phroblemau iechyd meddwl plant, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ieuenctid). Mae atal wrth wraidd yr amcan hwn a byddwn yn cynghori y dylai'ch sefydliadau ei gydnabod fel rhan o gyfrifoldebau pob un ohonynt i atal canlyniadau gwael. Wrth gwrs, mae'r amcan hwn yn ymwneud ag atal a thorri'r gylched, sy'n berthnasol i blant nad ydynt wedi'u geni eto yn ogystal â theuluoedd sydd eisoes mewn angen a phobl ifanc sy'n debygol o ddod yn rhieni. Rwyf hefyd yn annog BGC i feddwl am yr hyn y mae'r amcan drafft hwn yn ei olygu yng nghyd-destun y saith nod llesiant. Mae gwaith ar y 1,000 Diwrnod Cyntaf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos sut gall buddsoddi ym mywyd plentyn o'r cychwyn cyntaf dorri cylchredau a bod o fudd i'w les tymor hir.

Rwy'n gwybod eich bod wedi dechrau datblygu cynllun peilot 'Cymuned i Blant' yn ardal ward Gorllewin Sandfields. Os bydd hyn yn un o'ch camau i fodloni'r amcan drafft hwn, mae angen i chi ddangos eich gwaith fel rhan o'ch cynllun lles. Ar hyn o bryd, mae'r camau gweithredu drafft rydych wedi'u nodi i ddechrau'r peilot yn

fusnes fel arfer; nid ydynt yn herio'r ffordd y caiff pethau eu gwneud eisoes. Yma, mae angen i chi ddefnyddio'ch dylanwad a chydweithio gyda'ch gilydd er mwyn gweld newid. Fel y dywedais uchod, mae hyn hefyd yn golygu gweithredu - nid siarad am ddarpariaeth bresennol yn unig.

Gall cymryd ymagwedd yn seiliedig ar leoedd fod yn fuddiol i ganolbwyntio ymdrechion a chyfleoedd am gyllid ar le daearyddol. Mae'n bwysig felly, bod hyn yn ffocws ehangach na phlant ac ACE yn unig, gan ei fod yn anochel y byddwch yn cael effaith ar y rhain hefyd os ydych yn canolbwyntio ar ddeall ardal, ei hasedau a'i chyfyngiadau fel y bobl sy'n byw yno. Dylai'r ymagwedd hon ymwneud yn fwy ag integreiddio gwasanaethau a darparu cefnogaeth ataliol i deuluoedd a phobl ifanc. Pa dystiolaeth ydych chi wedi'i defnyddio i bennu ymagwedd beilot yn yr ardal hon? Fel y dywedais yn fy adborth ar eich asesiad lles, mae angen esboniad gwell o amrywiaeth eich cymunedau – yn enwedig wrth i chi fynd ati i ddatblygu camau gan ddefnyddio dull yn seiliedig ar leoedd. Sut mae trigolion Gorllewin Sandfields wedi cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r ymagwedd hon? Ydyn nhw'n gweld eu hunain fel cymuned ar wahân neu ai ffin etholiadol ffug ydy hi? Sut mae, neu fydd, asedau'r ardal wedi/yn cael eu harchwilio'r tu hwnt i'r gwasanaethau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli a mwy am galon ac enaid y gymuned? Mae'r astudiaeth 'Deep Place' yn Nhredegar gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn rhoi tystiolaeth ar sut gall dealltwriaeth o le gael manteision niferus ar gyfer lles ac mae adroddiad y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol - 'Poverty, Place and Inequality' - yn cynnwys sawl argymhelliad o ran pam mae ymagweddau'n seiliedig ar le yn allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn cymunedau a rhyngddynt.

Mae angen i gamau i fodloni'r amcan hwn fod yn llawer ehangach na'r hyn y gall blynyddoedd cynnar, addysg neu wasanaethau iechyd ei wneud. Mae'ch asesiad lles yn amlygu bod tlodi plant yn effeithio ar bron draean o blant yng Nghastell-nedd Port Talbot. Er enghraifft, canfu adroddiad yn 2013 gan Ysgol Economeg Llundain ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree fod gan blant mewn teuluoedd ag incwm is ganlyniadau gwybyddol, ymddygiad-gymdeithasol ac iechyd gwaeth. Yn hanfodol, dangosodd yr astudiaeth ei fod yn rhannol am eu bod yn dlotach, nid am fod incwm is yn gydberthnasol â nodweddion aelwyd a magu plant eraill. Sut gall y BGC gydweithio ag eraill i wella lles economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Os ydym yn gwybod erbyn i blant mewn rhai ardaloedd gyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol fod yr amgylchiadau lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar eu lles, yna mae angen i ni fod yn ymyrryd yn llawer cynharach i ymateb i'r tueddiadau hyn.

O ganlyniad, mae'n bryd i ni roi'r gorau i weld beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar fel mater 'iechyd' yn unig ac archwilio cyfleoedd sy'n bodoli wrth herio sut caiff gwasanaethau eu cyflwyno ar hyn o bryd gyda'r amcan hwn fel ffocws a'r saith nod llesiant cenedlaethol fel arweiniad. Mae plant yn byw mewn teuluoedd sy'n byw mewn cymunedau a gallant gael mynediad i lawer o wasanaethau. Fel rydych wedi'i gydnabod, mae llawer o ffactorau y tu hwnt i iechyd teulu sy'n effeithio ar roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae adroddiad 'Backing the Future' y New Economics Foundation yn tynnu sylw at y ffaith bod gennym rôl o ran mynd i'r afael â lles materol ac amgylchiadau allanol – megis tai, tlodi ac addysg – yn ogystal â lles seicolegol ac adnoddau mewnol.

Gall tlodi, cam-drin, gwahaniaethu a ffurfiau eraill o anfantais mewn bywyd cynnar gael effeithiau parhaol ar les plant a phobl ifanc a gall effeithio'n sylweddol ar eu rhagolygon o gael dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar.  Mae plentyndod yn gyfle allweddol a bydd yr ymyriadau cadarnhaol y mae Cymru bellach yn eu rhoi ar waith i ddiogelu plant a darparu ar eu cyfer yn helpu i sicrhau dyfodol mwy ffyniannus, iach a chydlynol i Gymru. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Comisiynydd Plant i gynghori y dylai cyrff cyhoeddus a BGC ganolbwyntio mwy ar hawliau a lles plant yn eu gwaith asesu a chynllunio lles parhaus. Gall canolbwyntio ar hawliau plant helpu BGC wrth ymgynghori, gwneud penderfyniadau a chynllunio rhaglenni. Byddai hyn yn cynnwys datblygu ffocws ar bolisi hawliau plant, galluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u grymuso i chwarae rôl weithredol yn eu cymunedau. I gefnogi ein gwaith, mae pecyn cymorth yn cael ei brofi a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai swyddfa'r Comisiynydd Plant yn fodlon cynghori ar gynnwys plant a phobl ifanc a chymryd ymagwedd hawliau plant at sicrhau lles cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn rhoi'r dystiolaeth i ni ddangos sut mae digwyddiadau yn ystod eu plentyndod yn gallu effeithio ar les tymor hir plant. Mae cymryd ymagwedd ataliol yn golygu symud adnoddau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol. Er bod cael gweithluoedd sy'n ymwybodol o ACE ac sy'n gallu adnabod arwyddion rhybudd a darparu peth cefnogaeth yn bwysig; mae hyn yn mynd y tu hwnt i hynny i sicrhau bod gwasanaethau y mae pobl yn eu defnyddio yn integredig er mwyn torri'r gylchred. Fel BGC sy'n canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, mae angen i chi adolygu mentrau sy'n canolbwyntio ar iechyd

meddwl, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau tai ac eraill i sicrhau eu bod yn ataliol, yn gydweithredol ac yn mynd ati i geisio sefyllfaoedd gwell ar gyfer teuluoedd a rhieni'r dyfodol.

Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn aml yn trin symptomau ACE - megis salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a cham-drin domestig - yn hytrach na'r achosion sylfaenol. Mae cymryd ymagwedd ataliol yn golygu symud adnoddau i ymdrin ag achosion sylfaenol. Mae gennych gyfle i gymryd yr ymagwedd ehangach hon yn eich peilot, 'Cymuned i Blant'. Mae Alyson Francis, Cyfarwyddwr yr Hyb Cymorth ACE, wedi gweithio gyda fy swyddfa'n ddiweddar i ysgrifennu atoch yn amlinellu nad yw ACE yn rhywbeth arall i'w wneud ond, yn hytrach, yn gyfle i ailystyried sut rydym yn cyflwyno gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Mae'r Hyb Cymorth ACE hefyd yn gweithredu fel lle canolog i BGC rannu arfer gan fod y rhan fwyaf o BGC wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar, rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant ac atal ACE. Gwrandawodd fy nhîm ar adborth eich swyddogion cefnogi ac mae wedi gweithio gyda Chyfnewidfa Arfer Da Cymru i greu gweminar ar ddeall ACE ar 7 Tachwedd a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn. Bydd Alyson Francis a minnau ar y panel a gellir gofyn cwestiynau i ni'n fyw.

Mae deall profiadau bywyd pobl sydd wedi bod drwy drawma yn eu bywydau hefyd yn rhoi safbwynt newydd ar greu gwasanaethau ataliol. Ar hyn o bryd, yn aml nid yw ein gwasanaethau wedi'u gosod mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i bobl helpu eu hunain. Rydym yn ymdrin â phobl mewn categorïau trefnus o 'ddefnyddwyr gwasanaeth' - megis 'dioddefwr cam-drin domestig', 'tramgwyddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol', 'camddefnyddiwr sylweddau', 'tenant problemus' - sy'n aml yn creu rhwystrau i bobl gael cyfle neu ganlyniad cyfartal. Mae'r ymagwedd hon yn golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio ac yn methu gweld arwyddion sefyllfa sy’n gwaethygu. Yn aml ni allwn weld sut mae'n gwasanaethau'n anghyfartal yn y ffordd y maent wedi'u sefydlu a sut nad yw pobl sydd â'r angen mwyaf yn gallu cael mynediad iddynt yn y ffordd y maent angen.

Diben y pum ffordd o weithio yw herio sut rydym yn gwneud pethau ar hyn o bryd a darparu lens gwahanol fel gwasanaeth cyhoeddus cyfan ar gyfer ymdrin â phroblemau. Mae cynnwys pobl wrth wraidd herio'r system

gyfan oherwydd dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl y gallwn ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r enghraifft hon, 'Why poor people don't plan long-term', yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu i oresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn gan Locality yn dangos costau ariannol a chymdeithasol peidio â chymryd yr ymagwedd gyfannol ac ataliol hon at fywydau pobl. Bydd gweld pethau o safbwyntiau pobl eraill, o bob cefndir, yn eich helpu i gyfrannu at Gastell-nedd Port Talbot mwy cyfartal. Hoffwn eich gweld yn myfyrio ar hyn wrth ddatblygu camau i fodloni'r amcan hwn a threialu'ch gwaith yng Ngorllewin Sandfields.

Fel y dywedais, mae'r rhan fwyaf o BGC wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar, rhoi dechrau da mewn bywyd i blant ac atal ACE, gan gynnwys Cwm Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Casnewydd a Chonwy/Sir Ddinbych.

- Creu cymunedau diogel, hyderus a chadarn (gan ganolbwyntio'n arbennig ar bobl ddiamddiffyn).

Amlygodd eich asesiad lles fod pobl yn teimlo bod ymdeimlad o ysbryd cymunedol yng Nghastell-nedd a'u bod yn cysylltu eu lles yn gryf â ffrindiau, teulu a chymuned dda. Fel y dywedais yn fy adborth i'ch asesiad lles, mae dehongli'r gwahaniaethau gofodol rhwng gwahanol gymunedau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn bwysig wrth ddeall lle gall gwasanaethau cyhoeddus fod o'r defnydd mwyaf. Rwy'n gwybod eich bod hefyd yn ystyried effaith gweithio rhanbarthol – trwy Dasglu'r Cymoedd; Dinas-ranbarthoedd Abertawe a Chaerdydd ac olion troed rhanbarthol, megis y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n bwysig cofio y gallwch ddylanwadu ar eich gilydd a'r hyn sy'n digwydd yn lleol yn ogystal ag edrych allan a dylanwadu ar bethau eraill sy'n digwydd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Er enghraifft, wrth fynd i'r afael â'r amcan hwn, sut byddwch chi'n gosod tasg i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar Les i gymryd camau i'w fodloni? Ar y cyd, pa sgyrsiau ydych chi'n eu cael gyda Phartneriaethau Dinas-ranbarthoedd Abertawe a Chaerdydd i drafod buddion posib ar gyfer Castell-nedd Port Talbot?

Er bod yr amcan hwn yn sicr yn cysylltu â'ch tri amcan drafft arall, rwy'n teimlo ei bod hi'n bwysig eich bod chi'n astudio'r data'n fanylach yma i ddeall yr hyn rydych chi'n ceisio cael effaith arno. Gall 'diamddiffynnedd' olygu

pethau gwahanol ac rwy'n gwybod bod fy nhîm eisoes wedi'ch cynghori y dylech geisio cynllunio o ymagwedd sy'n seiliedig ar asedau gymaint â phosib er mwyn ceisio lleihau diamddiffynnedd drwy'ch amcanion drafft a'ch camau.

Fel y dywedais yn fy ymateb i'ch asesiad, faint ydych chi wedi edrych ar gryfder y sector cymunedol wrth gefnogi lles cymdeithasol, natur rhwydweithiau cymdeithasol, ffabrig cymdeithasol trefi a phentrefi? Sut gall bywiogrwydd diwylliant ynghylch y celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diod lleol, sioeau amaethyddol, rhwydweithiau gwybodaeth a chymorth gwirfoddol gysylltu cymunedau? Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i chi gynnwys pobl wrth gymryd camau i fodloni'r amcan hwn. Gwrandewch ar yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthych am eu cymunedau a chydweithiwch i ddod o hyd i atebion gan ddefnyddio'r saith nod llesiant. Byddwn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a gall Cyfranogaeth Cymru gefnogi eich swyddogion i ennill y sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer cynnwys effeithiol. Gallai Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru eich helpu i nodi a chynnwys arweinwyr cymunedol.

Fel arweinwyr asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae o ran hyrwyddo a chefnogi cydlyniant cymunedol, o ystyried eich rôl mewn arweinyddiaeth a chefnogaeth gymunedol, a rôl o ran adeiladu gallu cymunedol, e.e. hwyluso rhwydweithio a chydlynu, a darparu hyfforddiant ar gyfer grwpiau cymunedol a gweithwyr. Mae'r gwaith ymchwil a drafodir yn 'What Works in Community Cohesion' yn darparu deunydd cyfeirio defnyddiol i BGC ar ddimensiynau gwahanol cydlyniant cymunedol. Gofynnwch i'ch hunain a yw darpariaeth bresennol yn briodol i reoli diamddiffynnedd cynyddol? Ydy'r materion hyn yn cael eu rheoli'n ddigonol ar hyn o bryd ac ym mha feysydd y gallai bod angen mwy o gamau gweithredu ar y cyd neu ataliol arnynt? Pa effaith y mae canfyddiadau o ddiogelwch yn ei chael ar allu pobl i gyrchu gwasanaethau neu chwarae rôl weithredol yn eu cymunedau? Sut mae lefelau gwirfoddoli'n amrywio ar draws y sir? Faint o ran y mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae yng ngwaith y BGC?

Byddwn yn eich cynghori i gymryd camau ar unwaith tuag at integreiddio gwasanaethau'n well, cydleoli timau, rhannu adnoddau a gweithio mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'ch cymunedau. Mae rhai pobl yn defnyddio llawer o wasanaethau a byddai integreiddio'r darpariaethau hyn yn well yn eu helpu nhw i helpu eu hunain.

Mae'r syniad o 'hwb cymunedol' yn dod yn fwyfwy cyffredin, ac mae enghreifftiau fel y Bromley by Bow Centre yn nwyrain Llundain; Leeds Neighbourhood Networks a Solva Care yn dangos mentrau blaengar sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymuned i ddechrau ac yn integreiddio gwasanaethau i wella lles. Mae gan y trydydd sector wybodaeth ddefnyddiol hefyd am gysylltu pobl â gweithgareddau lleol a gwasanaethau yn eu hardal a'u helpu i fod yn actif ac yn iach.
Lluniodd CGGC wybodaeth ehangach am sut gall y trydydd sector chwarae rôl wrth gyfrannu at y ddeddf, gan gynnwys adnoddau ar gyfer y saith nod llesiant.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cymryd rhan mewn rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw, eu teulu neu'r lleoliad lle maent yn treulio amser ynddo'n unig ac, yn aml, gall hyn arwain at ganlyniadau llawer mwy, fel a welir yn y gwaith y mae 'Nurture Development' yn ei wneud gyda datblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau. Ydych chi hefyd wedi ystyried sut gallech gysylltu â phobl yn y dyfodol? Pa fath o newidiadau y bydd angen i chi eu gwneud i'ch systemau a'ch polisïau sefydliadol i alluogi pobl i gymryd mwy o ran mewn cymunedau a dylanwadu ar wasanaethau lleol? Ar hyn o bryd, dengys ymchwil fod plant rhwng 5 ac 16 oed yn treulio chwe awr a hanner y dydd o flaen sgrîn ar gyfartaledd; mae 28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel eu prif ffynhonnell newyddion; caiff 43% o 'genhedlaeth y mileniwm' ei hannog i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianeli cymdeithasol. Er bod rhai pobl all-lein ar hyn o bryd ac mae'n amlwg bod angen ymagwedd wedi'i theilwra, mae cyfle go iawn yma i gynnwys pobl yn y ffordd sydd fwyaf cyfleus iddyn nhw ac sy'n rhan o'u bywyd pob dydd, nid fel tasg ychwanegol." Mae"Monmouthshire Made Open" yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut gallai pobl gyfrannu at wella eu hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, holi'r gymuned, dechrau prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Gallai Matthew Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, rannu'r hyn y mae'r bwrdd wedi'i ddysgu â chi ynglŷn â sefydlu'r wefan hon.

Gall diamddiffynnedd olygu sawl peth; trafodwyd y ddau yn eich amcan drafft cyntaf a'r trydydd. Er enghraifft, mae'ch asesiad yn dangos sut mae gan iechyd meddwl gysylltiadau â chamddefnyddio sylweddau, materion tai, canlyniadau plant mewn bywyd a llawer o agweddau eraill ar les. Mae oddeutu 50% o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl parhaus yn dangos symptomau erbyn iddynt droi'n 14 oed ac mae nifer yn dangos symptomau'n ifancach. Os yw'r symptomau yno ar oed cynnar – beth gellir ei wneud i atal y problemau yn ddiweddarach

mewn bywyd? Os ydym yn gwybod, ar gyfartaledd, fod y GIG yn gwario dros £21 miliwn ar ragnodi tabledi gwrth-iselder, sut gallwn weithredu'n gynharach? Mae Caerdydd wedi treialu gwersi iechyd meddwl i blant ac mae adroddiad newydd gan Respublica a Barnado's,'Making young minds matter', yn amlygu ymyriadau cynnar (megis cwnsela mewn ysgolion yng Nghymru) sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl. Byddwn yn eich cynghori i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddeall unrhyw broblemau gyda chael mynediad at y gofal a'r gefnogaeth gywir, dylunio gwasanaethau gwahanol a gwerthuso effeithiau'r ymagwedd hon.

Mae sawl BGC yn llunio amcanion i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol cryf, cyflwyno newid mewn ymddygiad, datblygu cysylltedd cymunedol a diogelwch, gan gynnwys Bro Morgannwg; Casnewydd; Powys; Cwm Taf; a Sir Fynwy.

- Heneiddio'n dda.

Rwy'n gwybod eich bod wedi dechrau ystyried sut gallwch gydweithio'n well fel sefydliadau i ateb y galw cynyddol gan boblogaeth hŷn, y disgwylir iddo barhau i'r dyfodol. Mae hefyd yn galonogol gweld cydnabyddiaeth bod pobl hŷn yn ased sy'n gallu cyfrannu at yr economi a darparu gofal, sgiliau a gwaith gwirfoddol yn ddi-dâl. Mae gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn yn arbennig o ddefnyddiol wrth archwilio'r camau y gallech eu cymryd i fodloni'r amcan hwn ac mae hyn yn cynnwys ei harweiniad diweddar i BGC. Nawr bod gennych amcanion drafft ac rydych yn ystyried eich ymateb, byddwn yn eich cynghori i ymchwilio'n ddyfnach i'r data a, chyda'ch amcanion eraill, ofyn i bartneriaethau eraill sy'n gweithio yn y maes hwn i integreiddio eu gwaith yn y BGC. Meddyliwch yn wahanol am sut rydych yn gweithio gyda'ch gilydd ar eich holl amcanion. Ar hyn o bryd, mae'ch ymateb i'r amcan hwn hefyd yn fusnes fel arfer – rwyf am weld BGC yn defnyddio meddylfryd 'diogel i fethu' a rhoi cynnig ar bethau newydd yn hytrach na siarad am fentrau presennol yn ystafelloedd pwyllgor y cyngor. Roeddwn yn falch o glywed bod rhai ohonoch wedi cymryd rôl arweiniol dros amcanion, hyd yn oed pan nad oedd gennych arbenigedd yn y maes o reidrwydd, a bod hyn yn dod â safbwynt ffres i ddadansoddi'r ymateb. Byddwn yn annog bod hyn yn parhau a'ch bod yn cael gwared ar rwystrau sefydliadol a gwybodaeth broffesiynol artiffisial i gydweithio ar gyfer atebion arloesol.

Felly, sut rydych chi'n ystyried eich rolau eich hunain wrth ymateb i heriau newid demograffig? Rwy'n awyddus i weld BGC yn edrych ar ymagweddau ataliol ac yn seiliedig ar asedau at eu hamcanion drafft. Ar hyn o bryd, prin y mae'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn gallu ymdopi â'r galw ac, yn anffodus, mae llawer yn ystyried modelau traddodiadol o 'ymyriadau brys' i ymdrin â hyn. Dyma lle dylai'r pum ffordd o weithio fod yn herio'ch meddwl, a byddaf yn awyddus i weld sut rydych yn dylanwadu ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ac yn gofyn am ei gymorth i gyflwyno'ch ymateb i'ch amcanion. Mae'r adroddiad hwn gan y Young Foundation yn rhoi ysbrydoliaeth drwy ei ymagwedd 'Innovating better ways of living late in life', sy'n herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio ynddynt. Gall creu cymunedau ac amgylcheddau hyblyg sy'n croesawu'r henoed atal yr angen am ofal cymdeithasol, unigrwydd ac iechyd gwael a damweiniau yn y cartref.

Awgryma ymchwil gan Heneiddio'n Dda yng Nghymru fod unigrwydd ymhlith pobl hŷn yn ymwneud â pha mor gysylltiedig y mae pobl yn teimlo yn eu cymunedau'n gorfforol ac am deimlo bod diben iddynt mewn cymdeithas, sy'n gallu effeithio ar eu hiechyd meddyliol a chorfforol.  Er nad yw technoleg yn mynd i ddarparu'r holl atebion i arwahanrwydd, ystyriwch yr effaith tymor hir y gallai ei chael ar ein poblogaeth. Pobl hŷn yfory yw pobl ifanc heddiw sydd â llawer mwy o sgiliau technolegol ar flaenau eu bysedd. Wrth rannu ein heconomi, a oes atebion ynghylch rhannu ceir neu gludiant cymunedol sy'n gysylltiedig â chyfryngau cymdeithasol? Sut gall technoleg helpu pobl hŷn i deimlo'n ddiogel gartref? Yn ogystal, mae eisoes enghreifftiau o ddronau yn dosbarthu nwyddau meddygol, galwadau fideo yn hytrach nag apwyntiadau gyda meddyg teulu a dosbarthiadau rhithiol. Mae'r cysyniad 'hyperbentref' a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi'u cysylltu gan eu hasedau, sy'n annog pobl i fyw mewn cymunedau gwledig i wneud y mwyaf o dechnoleg. Sut ydych chi wedi meddwl am bosibiliadau tymor hir defnyddio datrysiadau technolegol ar gyfer y mater hwn?

Mae gennych rôl mewn perthynas ag elfennau cynllunio, tai a chludiant creu lleoedd sy'n addasadwy ac sy'n gallu newid am o leiaf y ddwy genhedlaeth nesaf. Mae gan Gymru gyfle i ddatblygu tai sy'n bodloni newid demograffig yn well, gan fabwysiadu technoleg i alluogi pobl i fyw'n annibynnol am fwy o amser. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cronfa dai arloesol gwerth £20 miliwn. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y gronfa yn cefnogi cyflenwad tai fforddiadwy yn ogystal â gwella ansawdd y tai a ddarperir. Dylai BGC fod yn ceisio

dylanwadu ar sut y defnyddir y gronfa hon a deall yr effaith mae'n ei chael ar Gymru i gyfeirio eu camau tymor hir ar dai. Mae rhaglenni fel menter Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd wedi annog a chydnabod y dinasoedd hynny sydd wedi gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar i oed drwy addasu adeiladau, trafnidiaeth a rheolau cynllunio sy'n galluogi pobl hŷn i aros yn iach ac yn gysylltiedig â'r pethau sydd o bwys iddynt am fwy o amser; mae Laguna Woods, y ddinas arbennig ar gyfer pobl hŷn gyntaf yn yr UD, a maestref Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddyluniad sy'n addas i alluoedd amrywiol. Yn ogystal â chyfrifoldebau o ran cynllunio a dylunio isadeiledd, mae sawl prosiect byd-eang arloesol sy'n annog cyd-drigo, tai â chymorth a rhannu cartrefi. Mae myfyrwyr yn byw mewn cartrefi nyrsio am ddim yn gyfnewid am gymdeithasu â'r preswylwyr hŷn a darparu gofal sylfaenol ar eu cyfer. Mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno cynlluniau rhannu cartrefi ac, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth genedlaethol, mae'r Almaen wedi cyflwyno tai rhyng-genedlaethol ar gyfer pobl hŷn a theuluoedd ifanc mewn angen. Yn Singapore, rhoddir grant $50,000 i bobl ifanc os ydynt yn symud o fewn 1km i'w neiniau a'u teidiau oedrannus. Mae'r rhain i gyd yn syniadau arloesol sydd i weld yn cael effaith a, chyda nifer y bobl hŷn yn cynyddu'n gyflym, beth yw canlyniad pheidio â gwneud unrhyw beth?

Mae hyn yn dangos y cysylltiad cynhenid rhwng amgylchedd eich cymuned a'ch lles. Fel y noda ymchwil Heneiddio'n Dda yng Nghymru, mae arwahanrwydd yn ymwneud cymaint â bod yn gorfforol ar eich pen eich hun ag y mae â theimlo fel eich bod yn rhan o rywbeth. Awgryma peth ymchwil mai 5% yn unig o bobl dros 65 oed sydd ag unrhyw fath o gyswllt strwythuredig â phobl ieuengach. Gwelir bod gan brosiectau rhyng-genedlaethol fuddion i'r hen a'r ifanc, gyda phobl hŷn ac ieuengach yn cymryd rôl y mentor. Sut gallwch gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i bobl ddod ynghyd? Sut gall mwy o gyfranogaeth wella iechyd pobl hŷn yn eich ardal? Mae'r adroddiad diweddar 'Health and Wellbeing in Rural Areas' a luniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn amlygu problemau gyda gwledigrwydd yn Lloegr, ond mae hefyd yn cynnwys sawl astudiaeth achos ddefnyddiol, megis y prosiect gwella 'Fish Well' yn Norfolk sy'n ceisio gwella iechyd a lles yn yr ardaloedd lleol hyn. Mae Cyngor Cymuned Solfach yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o sut mae gwirfoddolwyr a phreswylwyr hŷn wedi elwa o gynllun i leihau unigrwydd a gwella lles. Mewn rhai rhannau o Gymru, mae'r trydydd sector yn gweithredu fel cysylltwyr cymunedol (a ariennir drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol) i helpu pobl ddiamddiffyn o bob oed i gael mynediad at bethau yn eu cymuned ac atal yr angen am

wasanaethau statudol. Mae llawer o enghreifftiau da o brosiectau sy'n ceisio dod â phobl ynghyd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu a meithrin eu gwydnwch yn ddiweddarach yn eu bywydau - fel Men's Sheds Cymru - ar waith ledled Cymru y gallai'r BGC eu hannog a'u cefnogi.

Profwyd bod gan ddysgu gydol oes fuddion ar gyfer lles meddyliol a chorfforol pobl, yn ogystal â'u lles cymdeithasol. Mae cyfle go iawn yma i chi ystyried sut rydych yn mwyafu'ch cyfraniad i'r nodau llesiant. Sut gallwch annog gweithgareddau sy'n hyrwyddo celf, diwylliant, dysgu'r Gymraeg, gofalu am gynefinoedd naturiol, creu mentrau tyfu bwyd cymunedol, er enghraifft, sy'n helpu i wella lles pobl? Gan edrych i'r tymor hir, sut gall y gweithgareddau hyn atal peth o'r gwaeledd y gellir ei atal y mae pobl yn eu dioddef sy'n amharu ar eu hannibyniaeth? Eto, gallai cydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n destun y ddeddf fod o fudd yma; rhowch wybod i fy nhîm os hoffech gysylltu â'r unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn.

Mae BGC eraill gyda phrosiectau tebyg yn cynnwys Conwy/Sir Ddinbych, Sir Fynwy, Caerdydd, Ynys Môn a Gwynedd, a Chasnewydd.

- ***Hyrwyddo lles drwy'r gweithle.***

Rwyf wedi cynghori pob BGC fod newid yn dechrau gyda nhw a'u sefydliadau eu hunain; felly rwy'n falch o weld eich bod yn ystyried sut gallwch gael effaith ar les eich gweithwyr. Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydych yn cyflogi rhan helaeth o'r boblogaeth a bydd gan lawer o'ch gweithwyr deuluoedd yn byw yn yr ardal hefyd. Rwy'n eich cynghori i ddechrau gyda'r saith maes newid yn y ddeddf i feddwl am ba effaith y gallwch ei chael: y rhain yw cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli perfformiad a risg, sef y gweithgareddau sefydliadol craidd lle byddai defnyddio'r pum ffordd o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut rydych yn gweithio. Byddwn hefyd yn eich cynghori i werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael ar sefydliadau eraill. Yn gyffredinol byddwn yn awgrymu, fel arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, eich bod yn ystyried pa gamau gweithredu y gallwch eu cymryd neu ddylanwadu arnynt i fodloni'r amcan hwn a mwyafu eich cyfraniad at bob un o'r saith nod llesiant. Bydd angen i chi fod yn glir am sut rydych wedi myfyrio ar ddiffiniadau llawn pob nod llesiant.

Mae llawer o ffyrdd gwahanol o gymryd camau i wella lles gweithwyr ac mae enghreifftiau ar draws y byd o ymagweddau blaengar. Mae hyn yn gwneud synnwyr ariannol (mae cost salwch sy'n ymwneud â'r gwaith yng Nghymru yn o leiaf £500m y flwyddyn) ac mae hefyd yn gwella lles preswylwyr Castell-nedd Port Talbot. Mae The Sunday Times yn llunio rhestr flynyddol o'r 100 cwmni gorau i weithio iddynt; gyda'r gallu i hidlo yn ôl y rhai sydd orau ar gyfer 'lles', ac mae gwledydd fel Sweden wedi bod ar y blaen i Brydain o ran sut maent yn sicrhau bod eu staff yn iach ac yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Yn agosach i gartref, mae'r cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd - 'Cymru Iach ar Waith' - yn llawn adnoddau a chanllawiau i'ch helpu i gydweithio i greu gweithlu iach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu 'Hwb Iechyd a Chynaladwyedd' cenedlaethol i gydlynu ei waith ei hun mewn perthynas â'r Ddeddf a, thrwy eich cynrychiolydd BGC, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi gysylltu â'r tîm cenedlaethol am ragor o dystiolaeth a gwybodaeth.

Awgryma tystiolaeth fod galluogi pobl i wneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â'u statws economaidd, eu hamgylchedd a sut maent yn cysylltu ag eraill. Rydych wedi nodi o'ch gweithgarwch cynnwys fod pobl yn ystyried bod gweithgareddau cymdeithasol yn bwysig i les.  Mae newid yn aml yn cael effaith pan fydd pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach gyda'i gilydd; er enghraifft, canfu adroddiad 'Behaviour Change is a Team Sport' Nudjed fod dod â phobl ynghyd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng nghymoedd de Cymru i'w hannog i wneud mwy o ymarfer corff.  Sut mae hyn yn ymwneud â'ch amcanion eraill a themâu lefel uchel? Ydy gweithgareddau sy'n ceisio mynd i'r afael â chadernid cymunedol ac arwahanrwydd ac unigrwydd yn gallu helpu pobl i fyw bywydau iachach?

Sut gall gwella'r amgylchedd naturiol hefyd helpu i reoli eu hiechyd? Fel rwy'n siŵr rydych wedi sylweddoli, mae cyfleoedd i chi weithio gyda sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt i ddatblygu ymagwedd sir gyfan. Mae prosiect 'Coed Actif' Cyfoeth Naturiol Cymru'n enghraifft o sut gellir annog pobl i fynd allan i'r awyr agored, gwarchod eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd a'u lles. Sut gallwch gynnwys 'rhanddeiliaid anarferol' wrth archwilio'r camau i fodloni'r amcan hwn? Sut

gall y trydydd sector deimlo ei fod yn gallu helpu? Mae'r astudiaeth hon ar ragnodi cymdeithasol ym Mryste'n rhoi gwybodaeth am fodelau gwahanol a pheth mewnwelediad i'r gwelliannau o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol cyffredinol. Yn y rhaglen ddogfen ddiweddar gan y BBC, 'The doctor who gave up drugs', gwelwyd sawl enghraifft o sut gall ymagweddau gwahanol (yn lle rhagnodi tabledi) gael effaith fwy cyfannol, parhaol a chadarnhaol ar fywyd rhywun, gyda phobl yn dod yn fwy heini'n gorfforol ac yn iachach yn feddyliol heb orfod dibynnu ar ragnodion.

Bydd cydweithio gyda 'rhanddeiliaid anarferol' a chynnwys pobl yn sut rydych yn cymryd camau i fodloni'r amcan hwn yn eich galluogi i fwyafu eich cyfraniad at y saith nod llesiant. Er enghraifft, beth yw rôl diwylliant wrth alluogi plant ac oedolion i fyw bywydau iachach? Sut gallai pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i helpu i ddatblygu eu hyder a'u gallu? Mae strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn amlinellu rhai o'r manteision y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol eu cael ar iechyd, gydlyniant a sgiliau'r boblogaeth. Mae'r Rhaglen Gomisiynu Ddiwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn ceisio helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut gallant wella canlyniadau drwy integreiddio gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol mewn ystod o wasanaethau, gan gynnwys iechyd meddwl a lles, pobl hŷn a chomisiynu'n seiliedig ar leoedd. Gall cydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n destun y ddeddf - megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfeydd Cenedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru - eich helpu i weld sut gallai'ch camau i fodloni'r amcan hwn fwyafu eich cyfraniad at bob un o'r nodau. Gall cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eich cymunedau hefyd wella teimladau o berthyn, cydlyniant a lleihau arwahanrwydd. Mae tîm Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn gweithio gyda ni ar sut orau i gefnogi BGC i gyfrannu at 'Cymraeg 2050'.

Mae BGC eraill sy'n ceisio gwella iechyd ac ataliaeth yn cynnwys Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn a Gwynedd.

- Cydnabod rôl isadeiledd gwyrdd a'i hyrwyddo er mwyn cefnogi lles economaidd, cymdeithasol a diwylliannol pobl Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r isadeiledd gwyrdd a glas yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr a chydag afonydd, mannau gwyrdd, coedwigoedd a pharciau, mae'n ased arbennig i chi. Rwy'n falch o glywed bod eich templed ymateb gwreiddiol yn cydnabod buddion lluosog cael amgylchedd naturiol o safon, y rôl economaidd bwysig sydd ganddo trwy ddatblygu twristiaeth ac isadeiledd ynni cynaliadwy, ond hefyd yr effaith gadarnhaol mae'n ei chael ar iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â lliniaru effeithiau tywydd eithriadol a newid yn yr hinsawdd. Mae llawer o gyfleoedd i'w gwireddu trwy ddathlu amgylchedd naturiol Castell-nedd Port Talbot, ond hefyd mae risgiau o ran tywydd eithriadol, colli cynefin a bioamrywiaeth.

Fel mae fy nhîm eisoes wedi'ch cynghori, mae'r newid sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dechrau gyda chi a'ch ffyrdd chi o weithio. Fel gyda'ch holl amcanion, byddwn yn eich cynghori'n gryf i ystyried sut mae'ch polisïau a'ch gweithleoedd eich hunain yn cyfrannu at gyflwyno'ch cynllun. Mae'n galonogol eich bod yn ystyried lles yn y gweithle fel cyflogwr mawr pobl Castell-nedd Port Talbot. Gan fod Addysg Uwch wedi'i chynrychioli ar eich bwrdd a'ch Cynghorau Tref a Chymuned, sut gallwch gynnwys myfyrwyr, aelodau o'r gymuned a pherchnogion busnesau yn eich polisïau lles? Sut gall hyn gysylltu â'r isadeiledd gwyrdd a'r amgylchedd naturiol?

Byddwn yn eich cynghori i feddwl am eich rolau eich hunain wrth warchod yr amgylchedd hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a fydd angen bod yn glir yn y camau y byddwch yn eu cymryd i fodloni'r amcan hwn. Ystyriwch y saith swyddogaeth gorfforaethol a amlinellir yn y ddeddf; er enghraifft, mae gennych swm helaeth o ystâd cyhoeddus. Sut gallwch chi gynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol) mewn ffordd sy'n cyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang a Chymru sy'n fwy cydnerth? Dylech archwilio pa gamau gweithredu gwirioneddol y gallwch eu cymryd, megis sut rydych yn adnewyddu adeiladau, yn gwella isadeiledd ac yn lleoli ardaloedd cyhoeddus, sy'n gallu cael effaith gadarnhaol ar les. Mae adroddiad Closing the Circle ar yr economi gylchol ac Amgylchedd Cymru yn adroddiad defnyddiol gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru. Mae'n dangos cyfle economaidd posib o £1 biliwn ychwanegol y flwyddyn erbyn 2035 drwy ddefnyddio egwyddorion economi cylchol yn ymarferol a rhoi enghreifftiau ymarferol lle gall y sector cyhoeddus edrych i leihau gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Dyma gynnydd o 12.5% yn nhrosiant sector amgylchedd adeiledig Cymru sy'n creu 7,300 o swyddi (gros). Gallwch hefyd gymryd

ysbrydoliaeth o rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yn y Gwobrau Adeiladu Arbenigrwydd diweddar, megis yr Ystafell Ddosbarth Actif. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, o ran effeithlonrwydd ynni ac adeiladu cynaliadwy, yn fuddugoliaeth gyflym i chi fel BGC.

Beth allwch chi ei wneud fel Prif Weithredwr, Cadeirydd neu Arweinydd nawr i liniaru effeithiau colli'r amgylchedd a bod yn fyw cyfrifol ar lefel fyd-eang? Mae ansawdd aer yn bryder arbennig i'ch sir, yn bennaf oherwydd y gwaith dur a'r lefelau traffig. Mae'n dda clywed bod lefelau wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar, ond mae angen i chi feddwl am effeithiau tymor hir hyn ar genedlaethau'r dyfodol. Er bod y sector cyhoeddus yn gyfrifol am gyfran eithaf bach o allyriadau Cymru, rydych mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar allyriadau yn llawer mwy ehangach mewn meysydd megis trafnidiaeth, ynni, defnydd o dir a chaffael. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lefelau o allyriadau carbon wedi'u hisrannu yn ôl awdurdodau lleol a rhyddhaodd hefyd Alwad am Dystiolaeth i archwilio'r dulliau mwyaf effeithiol i gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Byddaf yn cynnal digwyddiad ar 9 Tachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i: archwilio sut gall gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gynnwys pobl wrth gydweithio ar eu gwaith a'i integreiddio, cymryd mwy o ystyriaeth o oblygiadau carbon tymor hir eu gweithgareddau, a helpu i atal effeithiau newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu.

Mae'r DU wedi addo gwaredu allyriadau erbyn 2050 ac mae Llywodraeth Cymru wedi addo creu mwy o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru'n lle â llawer o botensial i ddarparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni adnewyddadwy. Y llynedd, lluniodd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaladwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Dyfodol Ynni Craffach i Gymru', gydag 19 o argymhellion ar gyfer sut gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd at ynni. Yn ddiweddarach, lluniodd Smart Energy GB adroddiad ar 'A Smart Energy Future for Rural Areas' gan roi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ledled y DU sy'n gwneud y newid hwnnw. Efallai y bydd y seminar hwn gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru yn fuddiol. Mae'n cynnwys sylwadau gan arbenigwyr ynni blaenllaw Cymru a'u myfyrdodau ar ddyfodol ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Cynhelir seminar cyweirnod Fforwm Polisi Cymru ar 7 Rhagfyr eleni, gyda ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, datblygu'r sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddi mewn ffynonellau adnewyddadwy.

Dyma gyfle i fwyafu eich cyfraniad at y saith nod llesiant a chreu cysylltiadau rhwng eich amcanion. Mae adroddiad yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yng Nghymru ar isadeiledd gwyrdd yn amlinellu sut mae isadeiledd gwyrdd yn cyflwyno ystod eang o fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol profedig, pendant a chost-effeithiol. Hefyd, mae gan Gomisiwn Dylunio Cymru astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, yn mwyafu effeithlonrwydd ynni ac sydd wedi'i brofi i wella adferiad iechyd cleifion yn sylweddol.  Ym mhob un o'r meysydd hyn, gall fy swyddfa eich cysylltu â'r bobl a'r sefydliadau hyn a allai eich cynorthwyo wrth i chi ddatblygu'ch gwaith.

Mae llawer o'r bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot yn dibynnu ar eu hamgylchedd i gael incwm, bwyd, dŵr a hamdden. Yn y dyfodol, mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn debygol o achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu diffyg dŵr, dirywiad mewn bioamrywiaeth ac effaith wedyn ar amaethyddiaeth. Sut ydych chi'n ystyried effaith economaidd bosib hinsawdd newidiol? Os ydych chi'n bwriadu defnyddio'ch adnoddau naturiol er budd economaidd, sut ydych chi wedi ystyried effaith tymor hir digwyddiadau tywydd eithriadol ar yr adnoddau hyn? Sut gallwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa gamau gweithredu ataliol y gallech eu cymryd i ddiogelu amaethyddiaeth, cyflenwadau dŵr a thrafnidiaeth mewn achos o dywydd eithriadol? Mae adroddiad 'Making it Happen' diweddar Zero Carbon Britain yn nodi pa gyfrifoldebau sydd gan bob un ohonom i genedlaethau'r dyfodol i weithredu ar newid yn yr hinsawdd nawr.  Rwy'n gofyn i chi ddangos ystyriaeth o effeithiau tymor hir digwyddiadau tywydd eithriadol a fydd yn peri risgiau posib i'ch ardal. Rwy'n eich annog i ystyried effaith newid yn yr hinsawdd ar Flaenau Gwent, fel ardal â 9 ardal gymunedol mewn perygl o lifogydd. Effeithiodd llifogydd ar gartrefi a busnesau'r llynedd mewn nifer o siroedd ac effeithiodd llifogydd eithriadol ar Bort Talbot, Castell-nedd a Baglan chwe blynedd yn ôl. Mae asesiadau lles yn dangos sut mae llifogydd yn effeithio ar iechyd a lles pobl ymhell ar ôl y digwyddiad, gydag effaith andwyol ar bobl fwyaf diamddiffyn ein cymdeithas. Amcangyfrifir bod cost flynyddol ddisgwyliedig difrod i eiddo preswyl oherwydd llifogydd yn £22 miliwn, felly mae deall sut mae digwyddiadau tywydd gwahanol yn effeithio ar gymunedau daearyddol a demograffig gwahanol yn hanfodol i atal hyn.

Gall cynnwys pobl yn y ffordd y rheolir eu cymuned hefyd gael effaith gadarnhaol ar helpu i wneud yr amgylchedd lleol yn fwy cadarn. Mae gan NESTA arweiniad ar weithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys y 'Big Green Challenge', lle newidiodd cyfranogwyr eu ffordd o fyw i leihau eu hôl troed carbon. Mae prosiectau fel 'GlawLif' Dŵr Cymru yn awgrymu ffyrdd y gall pob un ohonom liniaru effeithiau llifogydd, ac mae enghraifft eithafol yn cynnwys Ynys Eigg yn yr Alban lle mae'r gymuned yn cael effaith gadarnhaol ar eu hamgylchedd drwy gyflwyno cynlluniau ynni cymunedol adnewyddadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn amlwg yn dechrau gyda helpu pobl i ddatblygu'r hyder a'r wybodaeth i gael mynediad i'w hamgylchedd lleol. Yn gysylltiedig â'ch amcanion cynharach, gall ennyn cyfranogiad pobl ynghylch lle ac achos cyffredin fod yn bwerus iawn. Mae prosiect 'Coed Actif' Cyfoeth Naturiol Cymru'n enghraifft o sut gellir annog pobl i fynd allan i'r awyr agored, gwarchod eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd a'u lles ac, fel uchod, mae 'rhagnodi cymdeithasol' yn dod yn fwyfwy cyffredin i drin cyflyrau iechyd. Sut gallwch gynnwys 'rhanddeiliaid anarferol' wrth archwilio'r camau i fodloni'r amcan hwn?

Er enghraifft, rydych wedi nodi sut mae trefoli a diwydiant yn niweidio cynefinoedd naturiol y sir. Bydd cydweithio gyda busnesau wrth i chi gymryd camau i fodloni'r amcan hwn yn bwysig i warchod a gwella'r tir ac oedi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Ar gyfer pob un o'r camau hyn, defnyddiwch ddiffiniadau'r nodau llesiant i feddwl am sut gallwch wneud rhywbeth yn wahanol i gael yr effaith fwyaf, a chwiliwch am ffyrdd i integreiddio ar draws lawer o'ch camau drafft. Er enghraifft, sut gallwch chi alluogi cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol sy'n ceisio gwella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol? Pa gynlluniau gwirfoddoli allai helpu i greu Castell-nedd Port Talbot sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang? Sut gall pobl annog cydraddoldeb trwy eu gwirfoddoli a chydlyniant yn rhai o'ch cymunedau? Mae gan 'Busnes yn y Gymuned' amrywiaeth o ffyrdd ymarferol i fusnesau weithio gyda'i gilydd a chymryd camau gweithredu i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau amgylcheddol a chymdeithasol allweddol sy'n wynebu cymdeithas.

Mae'n gadarnhaol bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer twristiaeth hefyd, gyda thros 2 filiwn o ymwelwyr â'r sir y llynedd. Mae diddordeb gennyf yn sut y gallwch annog twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru, efallai trwy weithio'n fwy rhanbarthol i gysylltu asedau amgylcheddol gwych, megis coetiroedd, parciau a

safleoedd o ddiddordeb arbennig gyda chyfleoedd teithio llesol, cludiant cyhoeddus ac, ar yr un pryd, fod o fudd i fusnesau lleol? Mae hyn yn gofyn am ffocws yn seiliedig ar leoedd wrth gynllunio a ffocws ehangach ar les amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardal - yn hytrach na budd economaidd yn unig. Yn gysylltiedig â'r ansawdd aer gwael yn rhai rhannau o'r sir, sut gallwch wrando'n well ar gymhellion pobl dros ddefnyddio eu ceir yn hytrach na mathau eraill o drafnidiaeth? Mae rhai BGC yn cyflwyno mannau i wefru ceir trydan a cheir trydan a rennir yn eu sefydliadau i annog y newid hwn. Ystyriwch pa gamau gweithredu ymarferol y gallwch eu cymryd nawr er mwyn bod o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae llawer o BGC yn ceisio gwarchod eu hamgylchedd ac ymgymryd â mwy o waith i ddeall y peryglon i'w cymunedau, gan gynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Bro Morgannwg, Powys, Sir Gâr a Cheredigion.

**Gobeithiaf fod y cyngor hwn wedi bod o fudd i chi wrth symud ymlaen at gyhoeddi cynllun lles ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol. Cysylltwch â fy nhîm os oes angen manylion cyswllt pellach arnoch ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau ac adroddiadau y cyfeiriwyd atynt yn y llythyr hwn.**

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffyrdd gorau o gynghori, cefnogi a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum ffordd o weithio a mwyafu eu cyfraniad at y saith nod llesiant, felly byddwn yn croesawu unrhyw adborth gennych chi, eich swyddogion cefnogi a Phwyllgor Craffu BGC Castell-nedd Port Talbot o ran sut rwyf wedi dewis ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor rwyf wedi'i roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn fersiynau diweddarach o'ch cynllun lles a gofynnaf i chi gadw mewn cysylltiad â mi a'm tîm.

Yn gywir,

Sophie Howe

Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales

**Atodiad B**

## Datganiad Lles

Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn deall bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i ni newid y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd i wella lles ein cymunedau.

Mae ein gwaith ar gam cynnar. Rydym wedi cyhoeddi ein hasesiad lles cyntaf ac yn sgîl hyn, ac ymgynghori pellach, rydym wedi penderfynu ar chwe amcan lles sydd, gyda'i gilydd, â'r potensial i arwain at welliannau cynaliadwy a thymor hir i les y boblogaeth yn ei chyfanrwydd yn ogystal â lleihau'r anghydraddoldebau rhwng pobl a chymunedau.

Rydym wedi ceisio mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy gydol ein gwaith ac rydym wedi herio ein hunain yn rheolaidd gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio:

**Tymor Hir** – trwy ganolbwyntio ar roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar y plant hynny sy'n fwyaf tebygol o ddioddef profiad niweidiol yn ystod plentyndod, rydym yn credu y byddwn yn dechrau torri'r gylchred o amddifadedd ac anfantais. Bydd mwy o bobl ifanc yn tyfu i fyny ac yn dod yn ddinasyddion actif sy'n gallu cael cyfle cyfartal a gwireddu eu potensial a bydd hyn yn golygu y bydd pob un yn mwynhau lles gwell ac mewn sefyllfa dda i fagu eu plant eu hunain mewn amgylcheddau iach. Nid ydym, fodd bynnag, yn cyfyngu ein dyheadau tymor hir i blant a phobl ifanc. Trwy ganolbwyntio ein gweithluoedd presennol, rydym yn credu bod gennym gyfle gwych i roi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhelliant i bobl ar adegau hanfodol yn eu bywydau er mwyn iddynt fabwysiadu patrymau ymddygiad iach a fydd yn helpu i ymladd cyflyrau cronig ac yn estyn disgwyliad oes iach. Rydym hefyd yn credu bod cyfleoedd i gefnogi pobl hŷn yn ein cymunedau i gael ansawdd bywyd llawer gwell, gan leihau'r perygl o anafiadau a salwch y gellir eu hatal a hefyd sicrhau bod pobl wedi'u cysylltu'n well yn eu

cymunedau. Mae gweithio mewn cymunedau i ddatblygu'r potensial o'r hyn y gall pobl a lleoedd ei gyfrannu at gydlyniant cymunedol cryfach yn ddimensiwn arall i'n gwaith. Rydym yn credu y bydd hyn yn cynnal cymunedau ymhell i'r dyfodol gan sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol yn cefnogi byw'n iach wrth ddarparu'r dulliau i gymunedau addasu a manteisio i'r eithaf ar botensial technolegau newydd. Y cam gweithredu rydym yn bwriadu ei gymryd yn y tymor byr yw rhoi mewnwelediad dyfnach i'r bwrdd i'r ffordd y mae pobl yn profi bywyd cymunedol a darparu tystiolaeth o ymagweddau sy'n gallu helpu i gyflwyno'r newidiadau cynaliadwy rydym yn ceisio'u gwneud. Bydd ein strategaethau a fydd yn sicrhau'r newidiadau tymor hir rydym am eu cyflwyno yn ymddangos wrth i ni ymdrochi mewn mewnwelediad a dysgu dyfnach.

**Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** – mae thema glir a chryf ar draws yr holl amcanion lles i atal problemau yn y lle cyntaf ac ymyrryd yn gynnar er mwyn stopio pethau rhag gwaethygu. Mae atal gliriaf yn yr amcan i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn ond mae hefyd yn ymddangos yn y ffordd rydym yn cynnig ymdrin â phob amcan lles arall. Mae rhwystrau a chyfleoedd a gyflwynir trwy ein gwaith ar dueddiadau'r dyfodol yn nodi cyfleoedd pellach ar gyfer gweithredoedd ataliol ar draws pob amcan lles. O ran ymyrryd yn gynnar, eto mae pob amcan yn nodi cyfleoedd i dargedu ymyriadau at y rheiny sydd yn y perygl mwyaf neu sydd fwyaf dan anfantais.

**Cydweithio** – mae'r asesiad lles a datblygiad y cynllun hwn yn wir wedi bod yn ymdrech gydweithredol gan bob un sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot. Wrth i ni ddatblygu ein dealltwriaeth o'r cyfleoedd i wneud gwahaniaeth ar draws pob un o'n hamcanion lles, mae ystod ehangach o randdeiliaid sy'n gallu cyfrannu at y gwaith yn cael eu nodi ac mae'r bwrdd yn ymrwymedig i barhau i ddatblygu ac estyn gwaith partneriaeth. Wrth ddatblygu ei flaenoriaethau, mae'r bwrdd hefyd wedi cymryd diddordeb gweithredol yn y ffordd y mae blaenoriaethau'n cael eu datblygu mewn BGC ledled Cymru. Rydym wedi bod i lawer o ddigwyddiadau a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Iechyd Cyhoeddus

Cymru ac eraill ac rydym hefyd wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau cyfagos i wneud y defnydd gorau o grant penodol sydd ar gael i gefnogi'r dyletswyddau statudol newydd a osodwyd ar fyrddau.

**Integreiddio** – mae pob un o'r amcanion lles yn nodi sut rydym yn gobeithio mwyafu cyfraniad gwaith y bwrdd at y nodau llesiant cenedlaethol. Wrth ymgynghori ar y cynllun drafft, cafwyd cefnogaeth eang gan bob sefydliad partner dros y weledigaeth a'r amcanion a gynigiwyd. Bydd cyfleoedd pellach i sefydliadau unigol ystyried sut bydd eu hamcanion lles eu hunain yn cyd-fynd ag amcanion lles y bwrdd, ac yn eu cefnogi.

**Cyfranogaeth** – ceisiodd y bwrdd gynnwys trawstoriad eang o'i randdeiliaid o gam cynnar: trwy broses yr asesiad lles; trwy sefydlu cynllun ymgynghori a chynnwys; trwy fabwysiadu ffordd fwy arloesol o gyhoeddi'r asesiad lles; a thrwy gynnwys pobl wrth ddatblygu manylion yr amcanion lles unigol. Er gwaethaf ymdrechion cydlynol i sicrhau cyfranogaeth ehangach, rydym yn cydnabod bod angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o gynnwys dinasyddion ym mhob un o'u rolau niferus wrth gyd-gynhyrchu'r ymyriadau a fydd yn arwain at newid cynaliadwy. Bydd cryfhau cyfranogaeth yn nodwedd allweddol o'n gwaith datblygu wrth i ni symud yn ein blaenau gyda'r cynllun hwn.

**Atodiad C**

**Ymateb i Gyngor y Comisiynydd**

**<u>Cyflwyniad</u>**

Derbyniwyd cyngor y Comisiynydd ar adeg pan oedd y cynllun ar ffurf drafft cynnar. Rhannwyd y cyngor â phob swyddog arweiniol a oedd â chyfrifoldeb am ddatblygu amcanion lles unigol y bwrdd fel y gallent ystyried y cyngor hwnnw trwy'r broses gynllunio.

Rydym wedi gwneud sawl newid i'r cynllun o ganlyniad i gyngor y Comisiynydd a chaiff hyn ei grynhoi isod. Fodd bynnag, byddwn yn dychwelyd i gyngor y Comisiynydd wrth i ni symud ymlaen fel ein bod yn parhau i herio'n hunain o ran y ffordd rydym yn ymateb i'r dyletswyddau newydd a osodwyd arnom yn sgîl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

<u>Ymateb i'r cyngor ar yr ymagwedd gyffredinol</u>

Mae'r fersiwn derfynol hon o'r cynllun yn esbonio'n glir lle rydym wedi cyrraedd o ran rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn y ffordd rydym wedi gosod ein hamcanion a datblygu'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Caiff hyn ei grynhoi yn y Datganiad Lles sy'n cyd-fynd â'r cynllun. Mae'r ddogfen yn gwneud cyfeiriadau clir at dueddiadau'r dyfodol rydym yn ceisio ymdrin â hwy. Lluniom adroddiad ar dueddiadau'r dyfodol fel rhan o'n hasesiad lles a dychwelom ato pan oeddem yn ystyried sut rydym yn cynnwys materion tymor hir yn ein gwaith datblygu. Rydym hefyd wedi dangos yn glir sut rydym wedi meddwl am fwyafu ein cyfraniad at y saith nod llesiant wrth osod pob amcan lles.

Byddwn yn mireinio'r wybodaeth hon ymhellach wrth i fanylion y gwaith rydym yn bwriadu ei wneud dros y tymor byr, canolig a hir ddod yn gliriach.

Er bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cwrdd ar ffurf pwyllgor ambell waith, rydym wedi treulio mwy o amser yn archwilio sut mae angen i ni ymateb i'n hasesiad lles gyda staff rheng flaen, preswylwyr a rhanddeiliaid eraill mewn lleoliadau llai ffurfiol. Rydym hefyd wedi cwrdd mewn sesiynau arddull gweithdy strwythuredig ar ddau achlysur i sicrhau bod gennym ardal arweinyddiaeth wahanol i ddadlau sut gallwn drawsnewid canlyniadau i bobl trwy fabwysiadu ffordd wahanol o feddwl a ffordd wahanol o weithio. Rydym wedi cofrestru diddordeb gydag Academi Wales i fanteisio ar eu cynnig i ddatblygu'r bwrdd a byddwn yn cymryd diddordeb gweithredol mewn gweithgareddau datblygu sefydliadol eraill y mae byrddau eraill ledled Cymru yn eu mabwysiadu.

Rydym yn gobeithio bod y fersiwn derfynol hon o'r cynllun yn dangos yn glir duedd tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar.  Mae gennym bellach well ddealltwriaeth o achosion gwreiddiol ac rydym wedi nodi tystiolaeth o ymyriadau effeithiol yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r achosion gwreiddiol hyn mewn mannau eraill.  Bydd y manylion ychwanegol hyn yn ymddangos yn y gwaith rydym yn ei wneud wrth i ni ddechrau rhoi'r camau rydym wedi'u gosod ar waith.

Rydym wedi bod i lawer o ddigwyddiadau ledled Cymru a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru, y Comisiynydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac eraill. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallem ymchwilio i gydweithio dyfnach gyda Dinas a Sir Abertawe ar rai elfennau o'r rhaglen waith lle mae gennym ddyheadau tebyg. Rydym yn bwriadu defnyddio'r cynllun i herio partneriaethau eraill sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn cynyddu ein cyfle i wneud y gwahaniaeth rydym am ei wneud a byddwn yn adrodd ar ganlyniad hyn ymhen 12 mis pan rydym yn llunio'n hadroddiad blynyddol cyntaf. Rydym eisoes wedi nodi cyfle ar gyfer cydweithio strategol newydd ynghylch materion gweithlu a fydd yn dod â chasgliad gwahanol o randdeiliaid i'n hystyriaethau partneriaeth ehangach.

Yn ogystal â defnyddio'r cynllun i herio trefniadau partneriaeth presennol, byddwn yn annog pob partner i asesu sut mae ei amcanion lles ei hun (a nodir yn y cynlluniau corfforaethol perthnasol) yn cyd-fynd â Chynllun Lles y BGC. Mae problemau amseru anodd rhwng y cylchredau cynllunio corfforaethol a chynllunio'r BGC a fydd yn cymryd amser i'w datrys. Ar ben hynny, mae'r dirwedd cynllunio a phartneriaeth yn un gynyddol gymhleth - rydym yn bwriadu dod â chydlyniad ac eglurdeb gwell i drefniadau wrth i ni ddatblygu'r gwaith hwn.

Rydym wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gynnwys pobl o gefndiroedd a grwpiau oedran gwahanol fel yr ydym wedi gweithio trwy'r asesiad lles a datblygiad y cynllun hwn. Er gwaethaf yr ymdrech hon, ychydig o ymatebion a gafwyd. Felly, wrth symud ymlaen, bydd angen i ni fyfyrio ar a ydym am ailadrodd y gweithgareddau hyn neu chwilio am ffyrdd gwahanol a mwy blaengar i fabwysiadu'r hyn y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ddisgwyl gennym.

**<u>Ymateb i gyngor ar yr amcanion drafft</u>**

**i) Plant mewn perygl o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod**

Rydym wedi esbonio pam ein bod wedi dewis ardal Gorllewin Sandfields ac wedi nodi model sydd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan Pembury fel yr ymyriad rydym am arbrofi gydag ef er mwyn atal plant rhag cael profiad niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r fersiwn hon o'r cynllun yn gwneud yn glir nad yw'r ffocws ar blant a phobl ifanc yn unig; rydym hefyd am ganolbwyntio ar deuluoedd a'r gefnogaeth y gellir ei chael gan y gymuned ehangach lle mae plant sy'n wynebu anfantais yn byw. Nid ydym yn glir eto am y gwaith penodol y byddwn yn gofyn i asiantaethau ei wneud yn wahanol. Fodd

bynnag, rydym yn glir bod cydleoli, grymuso'r gweithlu a mynd i'r afael â sut rydym yn gweithio'n gyffredinol gyda chymunedau yn faterion sylfaenol pwysig y bydd angen iddynt gyfeirio a chefnogi'r gwaith hwn. Rydym yn archwilio'r dystiolaeth a luniwyd gan Hwb ACE Iechyd Cyhoeddus Cymru a hefyd yn archwilio sut gallwn elwa o'r dystiolaeth sy'n ymddangos o sut mae angen i ni ymyrryd yn wahanol yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn.

**ii) Cymunedau diogel, hyderus a chadarn**

Rydym wedi nodi tystiolaeth academaidd sy'n cyfeirio'r ffordd rydym wedi datblygu'n meddwl ymhellach ar gyfer yr amcan hwn ac rydym hefyd wedi archwilio modelau sy'n gweithio mewn mannau eraill – Blaen-y-maes yn Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wigan. Rydym wedi ymgymryd â dadansoddiad dyfnach i ddeall y profiad y mae rhai pobl ag anghenion cymhleth iawn yn ei gael o gyrchu cymorth a chefnogaeth. Mae hyn i gyd wedi atgyfnerthu'r angen i ni weithio'n wahanol ar y cyd â'n gilydd ond hefyd feithrin perthnasoedd gwahanol gyda phobl a sefydliadau cymunedol. Rydym yn bwriadu treialu datblygiad cymunedol yn seiliedig ar asedau yn wardiau y Melin a Llansawel o ganlyniad i'r asesiadau pellach rydym wedi'u gwneud. Bydd hyn yn cyfuno'r athroniaeth newydd a fabwysiadwyd gan raglen gydweithredol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin a'n gwaith lleol ni. Rydym yn credu y bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu dealltwriaeth fwy cadarn o'r amgylchedd y bydd angen i ni ei greu a'r math o arweinyddiaeth y bydd angen i ni ei ddatblygu er mwyn cryfhau cymunedau fel bod mwy o bobl yn gallu gwneud mwy drostynt eu hunain. Yn allweddol i'r gwaith hwn mae treulio mwy o amser yn gwrando ac arsylwi ar yr hyn y mae pobl mewn cymunedau yn ei brofi a'r hyn y maent am ei gael ar eu cyfer eu hunain a'u cymunedau, yn ogystal â helpu ein staff rheng flaen i gael y sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i allu gwneud yr hyn sydd o bwys heb fod angen ymdopi â systemau biwrocrataidd sydd ddim yn ddefnyddiol. Byddwn hefyd yn defnyddio'r gwaith hwn i herio effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth

presennol a byddwn yn ailffocysu ac yn newid cyfeiriad trefniadau i sicrhau eu bod yn cefnogi integreiddio gwell a phrofiad gwell o wasanaethau o safbwynt y rheiny y mae angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau o'r fath.

**iii) Heneiddio'n Dda**

Mae fersiwn derfynol y cynllun yn dangos yn glir sut bydd yr amcanion lles eraill yn ein helpu i wella canlyniadau ar gyfer ein preswylwyr hŷn. Yn benodol, mae cyfle pwysig i annog y bobl rydym yn eu cyflogi i ystyried yr hyn maent am ei gael o'u henaint a chymryd camau gweithredu nawr i gynnal eu hiechyd a chynllunio newidiadau wrth i ni symud trwy gwrs bywyd. Mae gwaith a dreialwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nglyn-nedd wedi cyflwyno canlyniadau da. Fel rhan o'r fenter hon, mae swyddogion tân wedi bod yn gweithio y tu allan i'w rolau arferol i wneud ymholiadau a dargedir wrth weithio mewn cymunedau i nodi pobl sydd mewn perygl a chyfeirio pobl at weithgareddau yn y gymuned. Rydym yn ymrwymedig i archwilio sut gallai'r ymagwedd "Gwneud i bob cyswllt gyfrif" hon helpu i drawsnewid y diwylliant ar draws ein sefydliadau ac ennill mwy o fuddion o'n hymdrechion ar y cyd. Trwy'r gwaith cynnwys ychwanegol a wnaed ar ôl ceisio cyngor y Comisiynydd, rydym wedi cael mewnwelediad dyfnach i rai o'r heriau a'r cyfleoedd y gellir eu harchwilio ymhellach i wella canlyniadau ar gyfer pobl hŷn. Buom hefyd yn siarad â'r Comisiynydd Pobl Hŷn er mwyn ceisio'i chyngor wrth i ni gadarnhau ein cynigion ar gyfer gweithredu.

**iv) Hyrwyddo lles drwy'r gweithle**

Roeddem yn falch o weld bod y Comisiynydd yn cytuno bod cael ffocws ar ein rôl fel cyflogwyr yn rhoi cyfle sylweddol i ni wneud newid. Mae ein gwaith cynnar wedi nodi nad oes trefniad ar hyn o bryd sy'n dod â phobl ynghyd ar draws sectorau a chynnwys staff a'u cynrychiolwyr i ganolbwyntio ar sut gallwn

fwyafu lles trwy'r gwaith. Rydym eisoes wedi dysgu bod cryfderau gwahanol ym mhob sefydliad partner y gall pob un ohonom ddysgu ac elwa oddi wrthynt ac ystyrir bod y rhain yn fuddugoliaethau cyflym i ysgogi a grymuso cydweithrediad newydd yn y maes pwnc hwn. Rydym hefyd yn ymwybodol o beth o'r dystiolaeth ymchwil gyfredol ynghylch cynnwys gweithwyr ac rydym yn archwilio a fyddai modd creu cyswllt mwy ffurfiol â'r Drindod Dewi Sant yn Abertawe - sy'n darparu'r rhaglen CIPD broffesiynol - er mwyn dod â pholisi ac arfer ynghyd mewn ffyrdd newydd a blaengar.

**v) Isadeiledd Gwyrdd**

Rydym wedi penderfynu archwilio sut rydym yn integreiddio'r isadeiledd gwyrdd ar draws yr amcanion lles eraill yn y lle cyntaf. Mae hyn wedi bod yn heriol gan ei fod yn ein gorfodi i ddeall yn well yr egwyddor integreiddio sydd wedi'i chynnwys yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Gellir gweld o fersiwn derfynol y cynllun hwn ein bod wedi dechrau gwneud cysylltiadau cadarn rhwng yr amcan hwn a'r rhai eraill, ond mae mwy i'r wneud nawr i drosi ein bwriadau'n ganlyniadau clir. Gan ein bod wedi datblygu ein meddwl yn y maes gwaith hwn, rydym wedi gallu nodi materion y mae angen ymagwedd fwy strategol arnynt – er enghraifft, proffil perygl llifogydd yr ardal a'r graddau y mae hyn yn cyfyngu datblygiad rhaglenni eraill a fyddai o fudd i les.